



2015-16

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem)
Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

ofgem

Gwneud gwahaniaeth gwirioneddol
i ddefnyddwyr ynni

2015-16

Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon

(Am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016)

Cyflwynwyd y cyfrifon i Dŷ'r Cyffredin yn unol ag adran 6(4) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000

Cyflwynwyd yr adroddiad blynyddol i Dŷ'r Cyffredin drwy Orchymyn Ei Mawrhydi

Gorchmynnwyd gan Dŷ'r Cyffredin i'w argraffu ar 30 Mehefin 2016

(h) Hawlfraint y Goron 2016

Mae'r cyhoeddiad hwn yn drwyddedig o dan delerau Trwydded Llywodraeth Agored f3.0 oni nodir fel arall. I weld y drwydded hon, ewch i nationalarchives.gov.uk/doc/open-government-licence/version/3 neu ysgrifennwch i'r cyfeiriad canlynol: Information Policy Team, The National Archives, Kew, London TW9 4DU, neu anfonwch e-bost: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk.

Lle rydym wedi nodi bod unrhyw wybodaeth yn hawlfraint i drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd deiliaid yr hawlfraint dan sylw.

Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael yn www.gov.uk/government/publications

Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynghylch y cyhoeddiad hwn i'r cyfeiriad canlynol: Ofgem, 9 Millbank, London SW1P 3GE.

Print ISBN 9781474132213

Gwe ISBN 9781474132220

Rhif Adnabod P002807696 06/16

Argraffwyd ar bapur sy'n cynnwys o leiaf 75% o gynnwys ffeibr wedi'i ailgylchu

Argraffwyd yn y DU ar ran Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi

Cynnwys

Adroddiad ar Berfformiad

| | |
|------------------------------------|----|
| Rhagair y Cadeirydd | 5 |
| Cyflwyniad y Prif Weithredwr | 6 |
| Ein Strategaeth | 8 |
| Cymru a'r Alban | 28 |
| Adroddiad Cynaliadwyedd | 33 |

Adroddiad ar Atebolrwydd

| | |
|---|----|
| Adroddiad Llywodraethu Corfforaethol | |
| <i>Adroddiad y Cyfarwyddwyr</i> | 40 |
| <i>Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu</i> | 44 |
| <i>Datganiad Llywodraethu</i> | 45 |
| <i>Adroddiad ar Gydnyddiaeth a Staff</i> | 52 |

| | |
|--|----|
| Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad | 60 |
|--|----|

| | |
|--------------------------------|----|
| Cyfrifon Adnoddau | 66 |
|--------------------------------|----|

| | |
|---|----|
| Datganiad yr Ymddiriedaeth | 87 |
|---|----|

Atodiadau

| | |
|---|-----|
| Atodiad I - Perfformiad yn erbyn nodau i'w cyflawni 2015-16 | 103 |
| Atodiad II - Dangosyddion Perfformiad Allweddol ar gyfer 2015/16 | 107 |
| Atodiad III - Asesiadau effaith a gynhaliwyd yn ystod 2015-16 | 110 |
| Atodiad IV - Ymchwiliadau a chamau gorfodi 2015-16 | 112 |
| Atodiad V - Ymrwymadau nad ydynt ar y gyflogres..... | 115 |

Adroddiad ar Berfformiad





Rhagair y Cadeirydd

David Gray

Yn ystod ail hanner y flwyddyn gwelwyd newid ffocws i Ofgem. Roedd y ddwy flynedd flaenorol yn llawn pryderon ynghylch prisiau, gwasanaeth cwsmeriaid, a diffyg cystadleuaeth. Yn sgil hyn, gwnaethom gyfeirio'r farchnad ynni at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn 2014.

Ar yr un pryd, roeddem yn cynnal nifer o brosiectau rheoleiddio pwysig, yn cynnwys y cylch gyntaf o reolaethau prisiau rhwydwaith gan ddefnyddio dull gweithredu newydd RIIO, diwygio taliadau trawsyrru, a chyflwyno cyfundrefn reoleiddio newydd ar gyfer rhyng-gysylltwyr sy'n ein cysylltu â marchnadoedd ynni cenedlaethol eraill.

Ar ôl cyflawni'r prosiectau hyn a chyhoeddi canfyddiadau cychwynnol y CMA yr haf diwethaf, cawsom gyfle i symud ymlaen i ystyried dyfodol rheoleiddio ynni. Credaf y bydd dau ddatblygiad yn llywio ein gweithgarwch yn y dyfodol i raddau helaeth.

Y cyntaf yw bod newidiadau sylfaenol i natur y busnes ynni yn cael eu llywio gan dechnoleg a mesurau i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd, sef sicrhau arloesed o ran dulliau cynhyrchu, storio, trawgludo a chyflenwi.

Mae'r diwydiant yn newid mwy nawr nag erioed o'r blaen yn ystod y 50 mlynedd diwethaf. Byddwn yn canolbwyntio ar reoli natur anrhagweladwy, hyblygrwydd a modelau busnes anhraddodiadol dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. Byddwn yn hwyluso'r rhain pan fydd o fudd i ddefnyddwyr, ac yn mynd i'r afael â'r risgiau cysylltiedig.

Mae'r ail ddatblygiad, a gadarnheir gan ganfyddiadau'r CMA, yn dangos y bydd rheoleiddio prosesau manwerthu yn parhau i fod yn ganolog i'r hyn a wnawn dros yr ychydig flynyddoedd nesaf. I ddechrau, rydym yn dileu'r rheol pedwar tariff. Bydd newidiadau eraill yn dilyn. Byddwn yn rhoi camau unioni'r CMA ar waith ac, yn bwysicaf oll, byddwn yn mabwysiadu model rheoleiddio sy'n dibynnu mwy ar egwyddorion nag ar reolau manwl, rhagnodol.

Nid yw'n fwriad gennym leihau ein ffocws ar gyflawni canlyniadau da i ddefnyddiwr. Credwn fod y cam hwn yn cyd-fynd â'r newidiadau ehangach sy'n digwydd yn y farchnad. Ni allwn annog pobl i fod yn fwy hyblyg ac arloesol os yw ein dull ni o reoleiddio yn gaeth.

Yn hytrach, rhaid i ni hwyluso datblygiadau newydd, tra'n parhau i ddiogelu cwsmeriaid.

Yn ystod y flwyddyn, roedd yn bleser gennyf groesawu dau aelod newydd i Awdurdod y Marchnadoedd Nwy a Thrydan - Rachel Fletcher, uwch bartner cystadleuaeth a defnyddwyr, a Christine Farnish, sydd â hanes nodedig o weithio mewn sefydliadau defnyddwyr. Gwnaethom ffarwelio â Sarah Harrison a John Howard hefyd.

Hoffwn ddymuno'n dda iddynt a diolch iddynt am eu cyfraniadau gwych i waith yr Awdurdod.

David Gray
Cadeirydd



Cyflwyniad y Prif Weithredwr

Dermot Nolan

Rwyf wedi bod yn y rôl hon ers ychydig dros ddwy flynedd bellach. Yn ystod y cyfnod hwnnw, mae'r rhan fwyaf o filiau wedi aros fel y maent neu wedi gostwng ac mae'r nifer sy'n newid cyflenwyr wedi cynyddu.

Ni ellir dweud nad oes cysylltiad rhwng y ddau ac mae cwsmeriaid sy'n ei chael hi'n anodd wedi cael rhywfaint o ryddhad, ond dylwn roi gair o rybudd: ar ryw adeg mae'n debygol y byddant yn codi eto ac ni ddylid cymryd yn ganiataol y gellir parhau i newid cyflenwyr. Bydd mwy o heriau i'r system ynni - ac mae'n rhaid i'r diwydiant, y rheoleiddiwr, a phawb arall fod yn barod ar gyfer hyn.

Gwnaethom gyfeirio'r farchnad at yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn 2014 am resymau da: roeddem yn pryderu ynghylch y diffyg cystadleuaeth yn y farchnad ac effeithiau andwyol hyn ar ddefnyddwyr. Erbyn i chi ddarllen hwn, bydd y CMA wedi cyhoeddi ei adroddiad terfynol a'i argymhellion, sydd â'r nod o sicrhau bod y farchnad fanwerthu'n fwy cystadleuol.

Byddwn yn rhoi'r argymhellion ar waith. Mae'r CMA yn camu'n ôl, a byddwn ni'n cymryd yr awenau. Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y farchnad yn gweithio ac i gyflawni ar ran defnyddwyr. Gwnaethom weithio'n galed i helpu i sicrhau bod ymchwiliad y CMA yn llwyddo ac erbyn hyn, rydym yn ystyried beth fydd y ffordd orau o roi'r camau unioni ar waith.

Ar yr un pryd, rydym hefyd yn gweithio gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar fesuryddion deallus, sicrhau y gall defnyddwyr newid cyflenwr yn gyflymach a setliad bob hanner awr. Mae'r rhain oll yn hanfodol ar gyfer marchnad ynni sy'n gweithio i bawb. Mae parhad cyflenwad yn hanfodol ar gyfer system ynni effeithiol, a byddwn yn parhau i weithio gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r

Grid Cenedlaethol, er mwyn sicrhau bod ganddo'r adnoddau sydd ei angen arno i ateb y galw am nwy a thrydan fel ei gilydd.

Gwnaed apêl i'r CMA ar ein dull o reoli prisiau dosbarthu trydan. Roedd hon yn broses hir a chymhleth, ond sicrhawyd canlyniad da i ddefnyddwyr yn ein barn ni. Mae'n briodol ac yn bwysig cael ymchwiliad cadarn i'n prosesau - credwn fod prosesau profi a chraffu yn gwneud lles i ni.

Rydym yn ymgymryd â sawl prosiect ar hyn o bryd sy'n ystyried sut y byddwn yn rheoleiddio yn y dyfodol. Mae ein gwaith ar fodelau busnes anhraddodiadol, a'n prosiect newydd ar sganio'r gorwel oll yn canolbwyntio ar sut y mae angen i ni addasu fel rheoleiddiwr i'r newidiadau mawr sy'n digwydd yn y farchnad ehangach.

Mae ein cangen gyflawni, E-Serve, yn gweithio'n effeithlon iawn. Yn gynharach yn 2016, penderfynodd y llywodraeth mewn egwyddor i'w gwahanu oddi wrth weddill y busnes. Byddwn yn cydweithio â'r llywodraeth er mwyn sicrhau bod y broses yn gweithio'n dda i bawb dan sylw.

Mae ein gwaith gorfodi a chwynion yn parhau i fynd rhagddo'n effeithiol. Gwnaethom orchymyn i npower dalu £26 miliwn ac i ScottishPower dalu £18 miliwn am fethu â thrin cwsmeriaid yn deg. Ceir arwyddion fod cwmnïau ynni yn dechrau gwella a gwelwyd gostyngiad o 24 y cant yn nifer y cwynion yn 2015, ond mae angen gwneud mwy.

Gyda diwydiant sy'n fwy cymhleth ac yn cydblethu fwy nag erioed, mae hen rwystrau'n cael eu dileu. Credwn ei bod yn bwysig adlewyrchu hyn yn y ffordd rydym yn gweithio a'r ffordd rydym wedi cael ein strwythuro. Dyna pam y gwnaethom gynnal proses ailstrwythuro fawr eleni a diwygio ein prosesau llywodraethu.



Credwn fod y newidiadau hyn ni yn unig o fudd i staff - gan eu bod yn cymryd mwy o ran bellach - ond credwn hefyd eu bod yn sicrhau bod ein sefydliad yn fwy hyblyg.

Gwyddom ei bod yn haws dweud na gwneud, ond rydym yn dysgu o hyd.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom ffarwelio â Sarah Harrison, ein huwch barter datblygu cynaliadwy teyrngar eithriadol, a adawodd Ofgem i fod yn brif weithredwr y Comisiwn Hapchwarae. Hoffwn hefyd groesawu Sarah Cox, ein prif swyddog gweithredol newydd a Jonathan Bearly, ein huwch bartner rhwydweithiau.

Dermot Nolan
Prif weithredwr





Ein Strategaeth

Rydym am i'n dull rheoleiddio wneud gwahaniaeth cadarnhaol i bob defnyddiwr ynni.

Mae hyn yn golygu gwneud y gorau o'n hadnoddau a'n pwerau er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr drwy ein gwaith rheoleiddio, yn ogystal â'r gwaith a wnawn yn gweinyddu cynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol y llywodraeth.

Mae a wnelo rheoleiddio annibynnol â mwy na dim ond pennu a gorfodi rheolau. Mae hefyd yn cynnwys meithrin ymddiriedaeth a hyder er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn ymgysylltu a bod cwmnïau'n buddsoddi. Rydym hefyd yn pennu ac yn gorfodi safonau y gall pobl eu disgwyl o wasanaeth hanfodol.

Beth rydym yn ceisio ei gyflawni?

Mae defnyddwyr wrth wraidd popeth a wnawn. Caiff hyn ei gydnabod yn glir yn ein strategaeth sy'n amlinellu'r canlyniadau allweddol rydym am eu cyflawni i ddefnyddwyr. Y canlyniadau hyn yw:

- **Biliau is** nag y byddid yn eu gweld fel arall
- **Llai o niwed i'r amgylchedd** nawr ac yn y dyfodol
- **Dibynadwyedd a diogelwch gwell**
- **Gwasanaeth o ansawdd gwell** sy'n briodol ar gyfer gwasanaeth hanfodol
- **Buddiannau i'r gymdeithas gyfan** gyfan yn cynnwys cymorth i'r sawl sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau

Rydym hefyd yn gwneud gwahaniaeth i ddefnyddwyr drwy roi cynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol y llywodraeth ar waith drwy ein cangen gyflawni, E-Serve. Ymysg y cynlluniau hyn mae: Mentrau Gwres Adnewyddadwy Domestig ac Annomestig, y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, y Tariff Cyflenwi Trydan, y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, y Gostyngiad Cartrefi Cynnes ac Ad-daliad Trydan y Llywodraeth. Gwnawn hyn mewn partneriaeth â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd.

Tra'n ymdrechu i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr, dylem gofio ei bod yn bwysig i ni sicrhau gwerth am arian yn ein gweithgareddau ein hunain. Mae 2016-17 yn nodi dechrau cyfnod Adolygiad o Wariant newydd, pan fydd Ofgem yn ymrwymedig i leihau gwariant 15% dros y pum mlynedd nesaf. Byddwn yn parhau i osod targedau cyllidebol heriol, gwneud ymrwymadau mesuradwy i leihau gwariant a pharhau i werthuso ein heffaith.

Mae gennym ddyletswydd i ddiogelu buddiannau defnyddwyr nwy a thrydan yn y dyfodol, yn cynnwys eu buddiannau o ran lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr. Wrth wneud hyn, rhaid i ni ystyried buddiannau defnyddwyr penodol, yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r sawl sy'n anabl, yn sâl, pensïynwyr, y sawl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig neu sydd ar incwm isel. Mae hefyd yn ofynnol i ni gyfrannu at ddatblygu cynaliadwy, er mwyn ystyried canllawiau'r llywodraeth ar faterion cymdeithasol ac amgylcheddol. Bob blwyddyn yn ein Hadroddiad Blynyddol, rydym yn adolygu ein cyfraniadau yn y sector ynni.



Sut y byddwn yn cyflawni hynny?

Yn yr Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon hwn, rydym wedi grwpio'r disgrifiad o'n gweithgareddau yn ystod 2015-16 yn ôl chwe allbwn strategol. Mae chwe ffordd y gallwn effeithio'n gadarnhaol ar ganlyniadau i ddefnyddwyr fel rheoleiddiwr annibynnol.

- **Rheoleiddio** - cynllunio systemau cryf, cadarn ar gyfer rheoleiddio gweithgareddau monopoli a'r ffordd y mae marchnadoedd yn gweithredu
- **Cystadleuaeth** - hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol lle y gall fod o fudd i ddefnyddwyr drwy leihau costau a gwella ansawdd gwasanaethau
- **Safonau** - sicrhau bod canlyniadau a diogelwch i ddefnyddwyr yn cyrraedd y safonau uchel a ddisgwylir gan wasanaeth hanfodol
- **Partneriaeth** - ymgysylltu â'r llywodraeth ac eraill er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn cael y budd gorau drwy brosesau rheoleiddio annibynnol
- **Ymddiriedaeth a Hyder** - meithrin ymddiriedaeth a hyder ym mhob rhan o'r farchnad ynni drwy dryloywder, atebolrwydd a phrosesau rheoleiddio da
- **Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd** - lleihau'r costau uniongyrchol ac anuniongyrchol rydym yn gofyn i ddefnyddwyr a'r diwydiant eu hysgwyddo.

Drwy hyn, ein nod yw egluro'r cyfraniad a wnaed gennym yn ystod y flwyddyn i sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr trydan a nwy, heddiw ac yn y dyfodol.



Rheoleiddio monopoliau a phennu'r rheolau ar gyfer marchnadoedd

Rydym yn rheoleiddio rhwydweithiau trydan a nwy a busnesau monopoli eraill, drwy bennu prisiau a chymhellion.

Monopoliau yw rhwydweithiau ynni a rhai rhannau eraill o'r diwydiant. Mae'n hanfodol iddynt gael eu rheoleiddio er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio er budd defnyddwyr. Rydym yn cynllunio systemau cryf a chadarn ar gyfer rheoleiddio eu gweithgareddau, yn cynnwys RIIO, ein system rheoli prisiau ar gyfer rhwydweithiau. O ganlyniad, gall defnyddwyr fanteisio ar ynni rhatach, mwy diogel a mwy cynaliadwy.

Rheolaethau prisiau rhwydwaith

Dulliau ansicrwydd

Mae rheolaethau prisiau RIIO yn darparu dulliau ansicrwydd er mwyn mynd i'r afael â chostau na ellir eu rhagweld ar ddechrau'r broses o reoli prisiau. Ym mis Medi 2015, gwnaethom benderfyniadau yn dilyn ceisiadau gan y Grid Cenedlaethol (NGET, NGGT ac NGGD) a Scotia Gas Networks o dan y dulliau ansicrwydd ar gyfer rhwydweithiau trawsyrru trydan a nwy (RIIO-T1), a'r rhwydweithiau dosbarthu nwy (RIIO-GD1). Roedd y rhain ar gyfer costau ychwanegol uwchraddio prosesau diogelwch ffisegol, ar gyfer safleoedd y mae'r llywodraeth yn eu hystyried yn seilwaith cenedlaethol hanfodol, ar gyfer gwaith stryd, ac ar gyfer gweithredu'r Gyfarwydddeb Allyriadau Diwydiannol. Yn dilyn craffu ar y ceisiadau yma fe wnaethom ganiatau £656m o'r £833m a ofynnwyd.

Apêl RIIO-ED1

Ym mis Mawrth 2015, apeliodd British Gas a Northern Powergrid i'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) yn erbyn ein penderfyniad diweddaraf ar reoli prisiau ar gyfer dosbarthu trydan (RIIO ED1). Ym mis Medi, cyhoeddodd y CMA ei gasgliadau. Penderfynodd yn rhannol o blaid British Gas ar un sail, ond gwrthododd y pum sail arall o blaid Ofgem. Roedd CMA o blaid Northern Powergrid ar un sail, ond gwrthododd y ddwy sail arall.

DPCR5 yn dirwyn i ben

Rhedodd y cyfnod rheoli prisiau dosbarth blaenorol (DPCR5) tan ddiwedd mis Mawrth 2015. Rydym wedi bod yn gweithio ar ddirwyn y cyfnod rheoli prisiau hwn i ben, gan addasu lwfansau cwmnïau er mwyn ystyried eu perfformiad drwy'r cyfnod rheoli prisiau. Er enghraifft, am fod y galw'n is na'r rhagolwg ar ddechrau'r cyfnod rheoli prisiau, caiff lwfansau cwmnïau eu lleihau. Rydym wedi ymgynghori ar sut i wneud yr addasiadau hyn pan nad oedd hynny eisoes wedi'i nodi yn y drwydded.

Adolygiad canol cyfnod

O ganlyniad i fabwysiadu cyfnodau rheoli prisiau wyth mlynedd, darparodd rheolaethau RIIO-T1 a GD1 ar gyfer adolygiad canol cyfnod er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw newidiadau sylweddol yn yr allbynnau gofynnol. Gwnaethom ymgynghori ar b'un a wnaed newidiadau a fyddai'n cyfiawnhau adolygiad canol cyfnod, ac ym mis Ebrill 2016, cyhoeddwyd ein penderfyniad i gynnal adolygiad ar gyfer Trawsyrru Trydan a Thrawsyrru Nwy, ond nid ar gyfer Dosbarthu Nwy.

Ymgynghoriad ar werthu'r Grid Cenedlaethol

Ym mis Tachwedd 2015, cyhoeddodd y Grid Cenedlaethol ei fod am werthu cyfran fwyafrifol yn ei fusnes rhwydwaith dosbarthu nwy yn y DU, sy'n eiddo i National Grid Gas plc (NGG) ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae NGG yn berchen ar bedwar o'r wyth rhwydwaith dosbarthu nwy yn y DU, gan ddosbarthu nwy i 10.9 miliwn o ddefnyddwyr. Fel cam cyntaf y broses hon, gofynnodd NGG i ni gydsynio iddo drosglwyddo asedau'r rhwydwaith dosbarth nwy y tu hwnt i'w reolaeth weithredol i is-gwmni arall sy'n eiddo i National Grid. Rydym wedi ymgynghori ar y newidiadau y bydd angen eu gwneud i'r drwydded.



Rhyng-gysylltwyr

Mae cysylltiadau ynni â marchnadoedd cyfagos yn atgyfnerthu diogelwch ynni Prydain, ac yn ein helpu i fanteisio i'r eithaf ar fasnach ryngwladol o ran nwy a thrydan, yn enwedig drwy ostwng ein prisiau ynni.

Rydym bellach yn disgwyl mynd o 4 GW o ryng-gysylltiad trydan heddiw i tua 11 GW ar ddechrau'r 2020au. Yn 2015, gwnaethom gynnig cymorth o dan gyfnod cyntaf ein cyfundrefn capio a phennu terfyn isaf, i bum prosiect rhyng-gysylltu newydd, gan gynnig 5.3 GW o gysylltiadau i Ffrainc, Norwy, Denmarc ac Iwerddon.

Ar gyfer y prosiect Nemo Link i Wlad Belg, y cynllun peilot ar gyfer y gyfundrefn capio a phennu terfyn isaf, gwnaethom ymgynghori ar y broses o roi'r gyfundrefn ar waith a'r newidiadau i amodau trwydded, a'r newidiadau cyfatebol i drwydded Gweithredwr y System er mwyn cefnogi'r gyfundrefn.

Gwnaethom hefyd ymgynghori ar newidiadau i'r drwydded ar gyfer rhyng-gysylltwr IFA i Ffrainc, er mwyn adlewyrchu'r ffaith i ni gymeradwyo defnydd Rhyng-gysylltwyr y Grid Cenedlaethol o ddatganiadau refeniw. Gwnaethom lansio ail gyfnod ar gyfer prosiectau rhyng-gysylltwyr trydan, ymgysylltu â'r gymuned buddsoddwyr ar opsiynau cyllido, a gweithio gyda'r rhyng-gysylltydd masnachu arfaethedig, Eleclink, sy'n cysylltu â Ffrainc, er mwyn sicrhau bod y rheolau ynghylch y defnydd o'r rhyng-gysylltwr o fudd i ddefnyddwyr.

Gwnaethom gydweithio'n agos â'r llywodraeth wrth drafod â gwledydd fel Gwlad yr Iâ a Norwy (a all gynnig cyfle gwell i ryng-gysylltu yn y dyfodol), a gyda rheoleiddwyr yn y gwledydd eraill y bydd rhyng-gysylltwyr yn cysylltu â hwy yn y dyfodol.

Cwmni Data a Chysylltiadau

Y Cwmni Data a Chyfathrebu yw'r monopoli trwyddedig a reoleiddir gennym, sy'n gyfrifol am y cysylltiadau rhwng mesuryddion deallus a chyfranogwyr yn y farchnad. Drwy'r broses flynyddol o reoli prisiau, rydym yn parhau i graffu ar ei gostau, er mwyn sicrhau ei fod yn cynnig gwerth am arian wrth i adeg cyflwyno mesuryddion deallus nesáu. Daeth ei ail gyfnod rheoli prisiau blynyddol i ben ar ddechrau 2016. Gan fod disgwyl i systemau'r Cwmni Data a Chyfathrebu fynd yn fyw yn ddiweddarach eleni, rydym yn datblygu ei gymhelliant, felly fe'i hanogir i ddarparu gwasanaeth da wrth i'w weithrediadau ymsefydlogi'n raddol.

Cymhellion Gweithredwr Systemau

Yn 2015-16 gwnaethom gyflwyno Cynllun Cymhelliant Gwasanaeth Cydbwysu ar Weithredwr y System drydan. Yn unol â hyn, anogir National Grid Electricity Transmission (NGET) i leihau costau cydbwysu'r system. Eleni, ehangwyd y modelau i gynnwys yn y targed yr effaith a gaiff systemau solar ffotofoltäig ar y ffordd y mae NGET yn gweithredu'r system.

Rôl fwy i Weithredwr Systemau

Rydym wedi gwneud newidiadau i drwydded Gweithredwr y System drydan, fel bod ganddo fwy o rôl o ran nodi anghenion hirdymor y system. Bydd hefyd yn datblygu ac yn asesu opsiynau er mwyn diwallu'r anghenion hyn. Lluniodd Gweithredwr y System ei Asesiad cyntaf o Opsiynau'r Rhwydwaith ym mis Mawrth 2016. Rydym wedi ymgysylltu â Gweithredwr y System a Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarthu er mwyn ystyried sut y gellir cael pob parti i rannu gwybodaeth yn well, ac er mwyn helpu'r rhwydweithiau i ddatblygu'n effeithlon. Mae hyn yn rhan o'n gwaith ar sut y bydd angen i rolau Gweithredwr y Rhwydwaith Dosbarthu newid yn y dyfodol.

Pennu'r rheolau ar gyfer marchnadoedd

Rheolau Marchnad Gapasiti

Daethom yn gyfrifol am reoli rheolau'r Farchnad Gapasiti ym mis Ionawr 2015. Gwnaethom ymgynghori ar dros 90 o gynigion i newid rheolau gan randdeiliaid a gwnaethom lunio'r gyfres gyntaf o newidiadau i reolau ym mis Mehefin 2015. Rydym bellach yn gweithio ar yr ail gyfres. Drwy gydol hyn, rydym yn sicrhau bod NGET yn cyflawni ei rolau o ran Diwygio'r Farchnad Drydan, sicrhau bod y broses hon yn rhedeg yn ddidrafferth, a 'i helpu i gyflawni ei amcanion o ran datgarboneiddio a diogelwch y cyflenwad.

Adolygiad Cod Sylweddol Nwy

Yn 2015-16, daeth yr Adolygiad Cod Sylweddol Nwy yn weithredol. Mae hyn yn gwella'r cymhellion a gaiff cludwyr nwy ar y môr i ateb y galw a ddisgwyllir. Rydym yn gwerthuso ac yn monitro ei effaith. Mae dal yn rhy gynnar i ddod i gasgliadau, gan fod amodau marchnad nwy Prydain yn ffafriol ar hyn o bryd.

Rydym hefyd wedi cymeradwyo llwyfan ymateb yn ôl y galw y Grid Cenedlaethol, sy'n weithredol o fis Hydref 2016.

Diwygiadau llywodraethu codau

Rydym yn ymwybodol o ba mor heriol ydyw i roi newidiadau ar waith i fframwaith y diwydiant, ac o'r cymhlethdod ychwanegol y gall cyfreithiau Ewropeaidd newydd ei gyflwyno. Fodd bynnag, dros yr ychydig flynyddoedd nesaf, bydd angen llawer o newidiadau o'r fath.

Ym mis Mai 2015, gwnaethom archwilio'r diwygiadau a gyflwynwyd gennym dan ein Hadolygiad Llywodraethu Codau blaenorol. Cynhaliwyd gweithdy diwydiant ym mis Gorffennaf 2015, ac ym mis Hydref 2015, gwnaethom ymgynghori ar gynigion ar gyfer diwygiadau pellach. Roedd hyn er mwyn

sicrhau bod y trefniadau llywodraethu codau yn addas ar gyfer diwydiant y bydd cyflymder, maint a chymhlethdod ei newidiadau yn cynyddu dros y blynyddoedd i ddod. Cyflwynwyd ein cynigion terfynol ym mis Mawrth 2016.

Fel rhan o'i ymchwiliad i'r farchnad ynni, nododd yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA) fod trefniadau llywodraethu codau yn cael effaith andwyol ar gystadleuaeth. Cyflwynwyd ein safbwyntiau i'r CMA ar yr agwedd hon ar ei ymchwiliad.

Diwygio trefniadau tynnu arian

Ym mis Ebrill 2015, gwnaethom gymeradwyo diwygiadau i drefniadau tynnu arian trydan. Roedd hyn er mwyn sicrhau bod prosesau cydbwysu a chyflenwi yn fwy effeithlon drwy gymeradwyo newid i'r Cod Cydbwysu a Setliad. Cyflwynwyd y diwygiadau hynny i'r farchnad ym mis Tachwedd 2015, ac rydym bellach yn canolbwyntio ar sicrhau bod y newidiadau wedi cael eu gweithredu, ac ar fonitro pa mor effeithiol ydynt.

Codau rhwydwaith Ewropeaidd

Rydym wedi parhau â'n gwaith ar godau'r rhwydwaith Ewropeaidd. Mae'r cyfreithiau Ewropeaidd cyfrwymol hyn yn annog cystadleuaeth, gan ddefnyddio capasiti trawsyrru yn effeithlon, integreiddio marchnadoedd ynni a chysoni rheolau ar gyfer gweithredu rhwydweithiau trawsyrru a dosbarthu.

Rydym yn cydweithio â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd, y diwydiant a'n cydreoleiddwyr Ewropeaidd er mwyn gweithredu'r codau mewn modd cymesur a phrydlon. Mae hyn yn golygu rheoli sawl newid i drefniadau presennol, trwyddedau a deddfwriaeth y diwydiant ym Mhrydain Fawr, tra'n cyfleu'r newidiadau yn glir a rhoi'r cyfle i randdeiliaid fod yn rhan o'r broses o ddatblygu polisïau ar lefel Ewropeaidd.

Hyblygrwydd

Rydym wedi bod yn gweithio ar ddatblygu ymateb yn ôl y galw (e.e. annog cwsmeriaid i ddefnyddio trydan y tu allan i oriau brig), a mathau eraill o hyblygrwydd, ynghyd â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae hyn yn gysylltiedig â'n gwaith gridiau deallus a'n agenda marchnadoedd mwy deallus.

Gall system ynni mwy hyblyg leihau costau cynhyrchu, rhwydwaith a chyflenwi. Mae ein prosiect hyblygrwydd yn ystyried y system gyfan, a sut y caiff ffynonellau hyblygrwydd newydd a thraddodiadol eu defnyddio, a sut maent yn rhyngweithio. Fel y rheoleiddiwr, mae angen i ni ystyried sut y gall y fframwaith rheoleiddio gefnogi mwy o hyblygrwydd hefyd, fel ar gyfer storio trydan.

Gwnaethom gyhoeddi ein papur sefyllfa ym mis Medi 2015.

Mae'n nodi ein pum blaenoriaeth:

- annog y trawsnewid o Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu i Weithredwyr System Ddosbarthu mwy rhagweithiol ac archwilio, gyda rheoleiddwyr Ewropeaidd eraill, y gydberthynas rhwng Gweithredwyr System Ddosbarthu, y rhwydweithiau trawsyrru a Gweithredwr y System
- ymchwilio i'r ffordd y dylai tariffau dosbarthu newid o ystyried tariffau manwerthu amser y defnydd a hyblygrwydd yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cydweithio â rheoleiddwyr Ewropeaidd er mwyn ystyried dulliau gwahanol fel capasiti neu daliadau yn ôl gwasanaeth
- egluro statws cyfreithiol a masnachol storio trydan
- galluogi defnyddwyr diwydiannol a masnachol i ddefnyddio mwy o ymateb yn ôl y galw
- egluro rôl cyfunwyr ymateb yn ôl y galw a'u statws rheoleiddiol a masnachol.



Cystadleuaeth Effeithiol

Mae cystadleuaeth effeithiol o fudd i ddefnyddwyr. Mae'n cyflwyno cyfranwyr newydd i farchnadoedd, mae costau'n lleihau, ac mae'r gwasanaeth yn gwella. Mewn marchnadoedd sy'n gweithredu'n dda, bydd pwysau cystadleuol yn ysgogi cwmnïau i ragori ar ei gilydd drwy sicrhau bod eu harlwy'n well. Rydym yn hyrwyddo cystadleuaeth lle bynnag y bydd yn cyflwyno buddiannau, ac mae hynny'n cynnwys ei ehangu i feysydd sy'n agored i reoliadau prisiau ar hyn o bryd.

Gwnawn hyn drwy fonitro marchnadoedd cystadleuol yn y diwydiant ynni, a chymryd camau er mwyn sicrhau bod y marchnadoedd yn fwy effeithiol, pan fydd o fudd i'r defnyddiwr.

Yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd (CMA)

Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd y CMA ei benderfyniad dros dro ar gamau unioni er mwyn mynd i'r afael â'r problemau a nododd yn ystod ei ymchwiliad dwy flynedd o hyd i'r farchnad ynni, a geisiwyd gennym yn 2014.

Canfu fod defnyddwyr yn gyffredinol yn talu gormod am eu hynni ac awgrymodd amrywiaeth eang o gamau unioni er mwyn gwella'r gystadleuaeth. Ymysg y camau unioni mae cap diogelwch ar gyfer mesuryddion rhagdaliadau, a chronfa ddata o ddefnyddwyr sydd wedi ymddieithrio sydd wedi bod ar dariffau amrywiol safonol ers dros dair blynedd, er mwyn galluogi cyflenwyr cystadleuol i'w marchnata yn y gobaith y byddant yn newid cyflenwyr.

Rydym bellach wedi dechrau rhoi'r cynigion hyn ar waith, gan weithio gyflymaf ar y meysydd a fydd o'r budd mwyaf i ddefnyddwyr. Byddwn yn cyhoeddi cynllun gweithredu yn ystod haf 2016.

Newid cyflenwyr a'r farchnad fanwerthu

Dull cyflym a dibynadwy o newid cyflenwyr

Pan fydd defnyddwyr yn newid cyflenwyr, dylai'r broses fod yn ddibynadwy ac yn gyflym. Credwn y dylai fodloni disgwyliadau defnyddwyr, neu ragori arnynt, dylai fod yn syml ac yn reddfodol, a dylai annog defnyddwyr i ymgysylltu â'r farchnad.

Rydym wedi lansio darn o waith sylweddol er mwyn gwella profiad defnyddwyr o newid cyflenwyr. Dylent fod yn hyderus bod newid cyflenwyr yn broses ddibynadwy, gyflym a chosteffeithiol. Bydd hyn yn golygu y bydd mwy yn ymgysylltu â'r farchnad ynni manwerthu, ac yn ei dro, bydd hyn yn creu cystadleuaeth, gan sicrhau bod cyflenwyr yn cyflawni canlyniadau gwell i ddefnyddwyr.

Sefydlwyd gweithgorau er mwyn llunio glasbrint ar gyfer y trefniadau newydd, ochr yn ochr ag Adolygiad Cod Sylweddol er mwyn cyflawni'r newidiadau rheoleiddiol i'w rhoi ar waith. Mae mwy na 100 o bobl o'r diwydiant, y llywodraeth a grwpiau defnyddwyr yn cydweithio â ni. Byddwn yn ymgynghori ar y glasbrint hwn a'r achos busnes dros y cynigion.

Ymysg pethau eraill rydym yn eu gwneud mae cynllunio gwasanaeth newydd, canolog a gaiff ei redeg gan y Cwmni Data a Chysylltiadau a fydd yn sail i'r prosesau newid cyflenwyr newydd. Mae profiad y cwsmer yn ganolog i'n hegwyddorion o ran cynllunio prosesau newid cyflenwyr.

Annog defnyddwyr domestig

Mae ymgysylltu defnyddwyr â'r farchnad drwy newid tariff neu gyflenwr yn ffactor pwysig o ran sicrhau bod y farchnad yn effeithiol ac yn gystadleuol. Cafodd ein gwefan 'Bydd yn Siopwr Ynni' ei chynnwys yn ymgyrch y Pŵer i Newid ym mis Hydref, a anogodd ddefnyddwyr i gymryd rheolaeth dros eu biliau ynni cyn y gaeaf. Ers hynny, cafwyd mwy na miliwn o ymweliadau unigryw â'r wefan.



Datblygiadau yn y farchnad fanwerthu

Ym mis Medi 2015, cyhoeddwyd ein hadroddiad blynyddol ar y marchnadoedd ynni manwerthu ym Mhrydain Fawr, o ran y prif dueddiadau mewn marchnadoedd manwerthu, yn cynnwys sut maent yn cyfrannu at y canlyniadau i ddefnyddwyr sy'n rhan o'n strategaeth gorfforaethol. Disgrifiodd yr adroddiad ddatblygiadau ers ein hadroddiad ar Gyflwr y Farchnad yn 2014, gan ystyried effaith ein diwygiadau ar ymgysylltiad defnyddwyr ac ar y farchnad.

Cystadleuaeth rhwydweithiau ar y tir

Rydym yn gweithio i gyflwyno cystadleuaeth ar gyfer adeiladu a gweithredu asedau trawsyrru trydan gwerth uchel, newydd a gwahanadwy ar y tir. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar drefniadau tendro posibl ar gyfer cyflawni hyn ym mis Hydref 2015, a ddenodd ddiddordeb mawr gan y diwydiant a buddsoddwyr posibl. Byddwn yn cyhoeddi penderfyniadau ac yn ymgynghori ar ragor o fanylion yn ystod haf 2016, gyda'r nod o gynnal y broses dendro gystadleuol gyntaf ar gyfer asedau trawsyrru ar y tir yn 2017.

Cystadleuaeth o ran trawsyrru ar y môr

Rydym yn cynnal y gyfundrefn dendro gystadleuol ar gyfer cysylltiadau trawsyrru â ffermydd gwynt ar y môr. Penodwyd yr ymgynghorwyr annibynnol CEPA gennym i gyflwyno adroddiad ar fuddiannau cyffredinol y broses dendro gystadleuol ar gyfer trawsyrru ar y môr.

Edrychodd yr ymgynghorwyr ar y tri chylch tendro cyntaf, a'r arbedion sy'n cronni dros y cyfnod o 20 mlynedd pan fydd perchenogion cysylltiadau trawsyrru ar y môr a benodwyd yn gystadleuol yn gweithredu'r cysylltiadau hynny. Mae'r gyfundrefn yn torri'r costau ar gyfer cysylltu ffermydd gwynt ar y môr â grid foltedd uchel Prydain Fawr o fwy na £700m.

Hyd yma, mae'r Gyfundrefn Perchenog Trawsyrru ar y Môr (OFTO) wedi gwneud y canlynol:

- penodi 14 OFTO ers i'r drwydded trawsyrru ar y môr gyntaf gael ei rhoi yn 2011, a chaiff y 15fed ei rhoi maes o law
- denu dros £2.7bn o fuddsoddiadau newydd
- cysylltu mwy na 4.1 GW o drydan a gynhyrchwyd gan ffermydd gwynt ar y môr â'r grid ar y tir
- sicrhau arbedion costau sylweddol i ddefnyddwyr.

Cystadleuaeth o ran cysylltiadau

Ar ôl i ni adolygu'r farchnad ar gyfer cysylltiadau newydd yn y rhwydwaith dosbarthu trydan, gwelwyd bod agweddau ar rôl y gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu (DNO) a oedd yn cyfyngu ar gystadleuaeth effeithiol. Felly, penderfynwyd cyflwyno amod trwydded newydd, sy'n rhoi dyletswydd ar weithredwyr rhwydwaith dosbarthu i gydymffurfio â Chod Ymarfer gorfodadwy, a chyflwynwyd y Cod Ymarfer ei hun, sy'n nodi sut y dylai'r gweithredwyr rhwydwaith dosbarthu ddarparu gwasanaethau i gystadleuwyr yn y farchnad cysylltiadau.

Dylai cystadleuaeth effeithiol yn y maes hwn wella ansawdd y gwasanaeth a gaiff cwsmeriaid a lleihau costau cysylltu busnesau â'r grid.

Safonau uchel o allbwn a diogelwch

Dylai cwmnïau ynni gyrraedd y safonau a ddisgwylir gan ddarparwr gwasanaeth hanfodol. Ein rôl yw sicrhau bod y gofynion cywir wedi'u pennu ar gyfer cwmnïau ynni, a'u bod yn cydymffurfio â hwy. Mae llawer o'n trefniadau wedi'u hanelu at sicrhau'r diogelwch priodol ar gyfer pobl mewn sefyllfa ariannol fregus. Dros amser, ein nod yw rheoleiddio mwy drwy egwyddorion a llai drwy reolau manwl. Rydym eisoes wedi pennu Safonau Ymddygiad, sy'n ei gwneud yn ofynnol i drin cwsmeriaid yn deg.

Newid i ddilyn egwyddorion yn y farchnad fanwerthu

Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi siarad â chyflenwyr, er mwyn deall beth maent wedi'i wneud er mwyn rhoi'r Safonau Ymddygiad ar waith. Rydym yn cydweithio â chyrrff defnyddwyr er mwyn monitro cynnydd wrth fabwysiadu'r Safonau, ac wedi siarad â chwmnïau ynghylch yr hyn y gellid ei wneud er mwyn canolbwyntio mwy ar ddefnyddwyr. Rydym wedi cwblhau dau achos gorfodi gan ddefnyddio'r Safonau, ac wedi rhoi'r nifer uchaf erioed o gosbau i'r sawl a fethodd â thrin cwsmeriaid yn deg.

O dan ein strategaeth gorfforaethol rydym yn ymrwymo i archwilio sut y gallem ddiwyddo mwy ar egwyddorion wrth reoleiddio'r farchnad ynni manwerthu. Ein nod yw diogelu defnyddwyr yn well, hyrwyddo arloesedd a chystadleuaeth, ac annog cyflenwyr i feddwl eu hunain beth yw'r ffordd orau iddynt wasanaethu eu cwsmeriaid. Buom yn ymchwilio ac yn siarad â rhanddeiliaid, a chyhoeddwyd ymgynghoriad ym mis Rhagfyr 2015. Buom yn cydweithio â rheoleiddwyr eraill ac academyddion er mwyn deall eu dulliau gweithredu hefyd.

Nawr, rydym yn gweithio drwy'r meysydd a fyddai'n cael y budd mwyaf o'r newid i ddilyn egwyddorion a'r cam cysylltiedig o ddileu rhagnodi diangen. Rydym yn archwilio beth yw'r ffordd orau o weithredu'r gyfundrefn newydd hon er mwyn sicrhau bod y trawsnewid yn llwyddiant.

Cydymffurfio a gorfodi

Gorfodi

Yn 2015-16, gwnaethom gwblhau 13 o ymchwiliadau (yr un nifer â'r flwyddyn flaenorol). Ers i ni gyhoeddi ein Canllawiau Gorfodi ym mis Medi 2014, roedd achosion yn para llai na blwyddyn ar gyfartaledd.

Arweiniodd ein hymchwiliadau sydd wedi dod i ben at dalu bron i £43 miliwn mewn iawndal neu gamau unioni (ynghyd â £15 miliwn mewn dirwyon enwol), a sicrhawyd £3 miliwn ychwanegol drwy gamau gweithredu amgen. O'r arian ar gyfer talu iawndal a chamau unioni, telir £26.4 miliwn i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Telir unrhyw iawndal nas hawliwyd gan ddefnyddwyr i elusennau, yn ogystal â'r £16.3 miliwn mewn camau unioni a delir yn uniongyrchol i elusennau.

Ym mis Ionawr 2016, cwblhawyd ein hymchwiliad i faterion yn ymwneud â bilio ac yn ymdrin â chwynion npower, sef yr achos cyntaf i gael ei gwblhau o dan Safonau Ymddygiad domestig Ofgem. Yn sgil yr ymchwiliad, talodd npower becyn unioni defnyddwyr i rai o'r cwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt waethaf ac i elusen. Ym mis Gorffennaf 2015, gwnaethom sicrhau ynni am ddim i fwy na 1,000 o gwsmeriaid npower na chafodd camau unioni'r Ombwdsmon Ynni mewn perthynas â hwy eu gweithredu mewn pryd gan npower. Roedd ynni'r defnyddwyr hyn am ddim hyd nes i npower gwblhau'r broses o roi'r camau unioni ar waith.

Mae ein gwaith gorfodi wedi arwain at wneud taliadau unioni defnyddwyr i elusennau neu fuddiolwyr trydydd sector fel: Citizens Advice Scotland, Citizens Advice England a Chyngor ar Bopeth Cymru (yn cynnwys rhaglenni Cyngor ar Bopeth fel Ynni - Y Fargen Orau Ychwanegol a phrosiect mesurydd Rhagdaliad Ynni - Y Fargen Orau Ychwanegol), yr Ymddiriedolaeth Garbon, StepChange, a Llinell Dyledion Busnes.

Rydym wedi bod yn ystyried p'un a allem wella ein dulliau gorfodi er mwyn sicrhau eu bod yn parhau yn effeithiol ar gyfer y dyfodol. Gwnaethom ymgysylltu â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd mewn perthynas â'i hymgyngoriad ym mis Rhagfyr 2015 ar newidiadau arfaethedig i'n pwerau gorfodi.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi canllawiau ar ddyrannu taliadau unioni gwirfoddol, gan egluro'r broses o'u dyrannu i elusennau, ymddiriedolaethau a sefydliadau addas.

¹ Mae camau gweithredu amgen yn rhoi cyfle i gwmini unioni pethau'n ddi-oed heb i ni ddod o hyd i achos o dor-rheol



Blaenoriaethau gorfodi

Rydym am i gwmnïau ynni weithredu yn unol â'u rhwymedigaethau. Pan fyddwn yn penderfynu p'un a ddylid agor ymchwiliad gorfodi, byddwn yn cymhwyso ein hegwyddorion gorfodi blynyddol sy'n ein helpu i ganolbwyntio ar broblemau penodol a dysgu o'n gwaith.

Roedd ein blaenoriaethau gorfodi eleni fel a ganlyn:

1. Sicrhau bod cwmnïau'n darparu gwybodaeth gywir ac yn cyflwyno buddiannau i ddefnyddwyr yn brydlon
2. Gweithredu pan fydd ymddygiad cwmni yn debygol o atal dewis defnyddwyr neu ymddiriedaeth yn y farchnad
3. Gweithredu pan welwn ddiffygion difrifol yn niwylliant ac agwedd cwmni at gydymffurfiaeth

Roedd yr holl achosion a agorwyd gennym eleni yn ymwneud ag un neu fwy o'r blaenoriaethau hyn.

Cydymffurfiaeth

Rydym yn monitro cydymffurfiaeth, ac yn mynd i'r afael ag ef mewn modd cymesur, fel y gwnawn wrth benderfynu a ddylid cymryd camau gorfodi. Yn y farchnad fanwerthu ddomestig yn unig, gwnaethom nodi a rheoli mwy na 400 o faterion cydymffurfiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn wedi arwain at well canlyniadau i ddefnyddwyr drwy berfformiad gwell gan y cyflenwr.

Rydym yn hoffi rhoi'r cyfle i randdeiliaid helpu i ddatblygu ein gwaith cydymffurfiaeth a gorfodi. Rydym yn ymrwymedig i rannu arfer da, er mwyn helpu cwmnïau i ddeall eu rhwymedigaethau. Yn ystod haf 2015, gwnaethom gynnal ein trydedd gynhadledd gorfodi flynyddol. Roedd cyflenwyr ynni, cwmnïau rhwydwaith a grwpiau defnyddwyr yn bresennol, a buom yn myfyrto ar rai o'n penderfyniadau gorfodi diweddar, yn ystyried beth y gallem ei ddysgu ohonynt, a sut le fydd yr amgylchedd rheoleiddio a gorfodi yn y blynyddoedd i ddod.

Rydym hefyd wedi ystyried ein dull gweithredu o ran cydymffurfiaeth fel rhan o'n prosiect ehangach o ystyried sut y gallwn ddibynnu mwy ar egwyddorion nag ar reolau manwl er mwyn rheoleiddio'r farchnad fanwerthu (gweler y bennod 'Rheoleiddio').

Cwynion a gwasanaethau cwsmeriaid

Gwnaethom ysgrifennu at gyflenwyr er mwyn gweld a ydynt yn gwella'r modd y maent yn gofalu am eu cwsmeriaid, a sut maent yn gwerthuso llwyddiant. Rydym am ailadrodd y gwaith ymchwil a wnaethom ar b'un a yw cwsmeriaid yn fodlon ar y modd y mae eu cyflenwr yn mynd i'r afael â chwynion.

Bydd hyn yn canfod pa effeithiau a gafodd y newidiadau hyn. Byddwn yn cyhoeddi ein canfyddiadau yn ddiweddarach eleni. Gwnaethom hefyd gyhoeddi dangosyddion gwasanaeth cwsmeriaid er mwyn helpu defnyddwyr i weld sut mae cyflenwyr yn perfformio.

Ombwdsmon/dull amgen o ddatrys anghydfodau

Y llynedd gwnaethom gomisiynu adolygiad annibynnol o'r Ombwdsmon Ynni. Canfu'r adolygiad fod y cynllun yn dda am ymdrin ag achosion craidd, ond y gallai wella dimadaeth strategol a chydweithrediad. Byddwn yn cydweithio â'r Ombwdsmon er mwyn rhoi'r canfyddiadau ar waith fel y gall defnyddwyr barhau i fanteisio ar y ffordd effeithiol hon o ddatrys anghydfodau sydd heb eu datrys. Gwnaethom hefyd weithredu gofynion y Gyfarwyddeb Dull Amgen o Ddatrys Anghydfodau (ADR), ac fel yr Awdurdod Cymwys, gwnaethom benodi endid ADR yn y sector ynni i'r Ombwdsmon.

Balansau cyfrifon sydd wedi cau

Y llynedd, gwnaethom archwilio sut roedd cyflenwyr yn ad-dalu balansau credyd i gwsmeriaid pan fyddant yn cau eu cyfrifon. Gwnaethom ganfod bod gan lawer ohonynt brosesau diffygiol, a oedd yn golygu y byddai cwsmeriaid ar eu colled. Ymrwymodd cyflenwyr i ad-dalu arian a sicrhau na fydd yn digwydd eto. Gwnaethom ofyn i gyflenwyr adrodd yn rheolaidd ar gynnydd a byddant yn gweld a oes angen ymyrryd ymhellach yn ystod 2016.

Gwasanaethau ffôn

Adolygydd sut mae cyflenwyr yn darparu gwasanaethau ffôn i gwsmeriaid. Gwnaethom nodi rhywfaint o arfer da, ond hefyd, roedd rhai cyflenwyr llai yn defnyddio rhifau ffôn cost uchel. Gwnaethom sicrhau bod y rhifau hyn yn cael eu dirwyn i ben.

Safonau Perfformiad Gwarantedig

Diwygiwyd y Safonau Perfformiad Gwarantedig i gyflenwyr, gan atgyfnerthu mesurau diogelu defnyddwyr mewn meysydd gwasanaeth pwysig fel penodiadau ac atgyweirio mesuryddion rhagdalau diffygiol. Codwyd lefel y taliad awtomatig i £30, sy'n golygu bod yn rhaid i gyflenwr dalu cwsmer os bydd yn methu â chyflawni gwasanaeth penodol. Llwyddwyd hefyd i gael gwared ar faich rheoleiddiol diangen, gan helpu i wella effeithlonrwydd ac arbed costau.

Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU: fforddiadwyedd a defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus

Gwnaethom arwain Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU ar fforddiadwyedd a defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus, a chyhoeddi adroddiad newydd ar y rhain. Roedd yr adroddiad yn ystyried beth allai effeithio ar filiau a chostau ar gyfer gwasanaethau hanfodol fel ynni, dŵr, cyfathrebu a rheilffyrdd dros y deng mlynedd nesaf. Roedd yn archwilio'r ffactorau sy'n effeithio ar brisiau a galw yn y dyfodol am wasanaethau hanfodol ac yn cymharu ysgogwyr ym mhob rhan o'r sector. Roedd hefyd yn ystyried yr effaith ar grwpiau defnyddwyr gwahanol, a sut y gallai incwm aelwydydd newid mewn perthynas â biliau a chostau yn y dyfodol.

Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Ariannol Fregus

Cyhoeddwyd y Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Ariannol Fregus a'r rhaglen waith ym mis Gorffennaf 2013. Ei nod yw diogelu a grymuso defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus, i sicrhau eu bod yn llai tebygol o fod mewn sefyllfa ariannol fregus, i leihau effaith hyn os bydd yn digwydd, a sicrhau y gall pob defnyddiwr fanteisio ar fuddiannau'r farchnad.

Ym mis Medi 2015, cyhoeddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am y Strategaeth ar gyfer Defnyddwyr mewn Sefyllfa Ariannol Fregus:

1. Rhagdalau
2. Aelwydydd nad ydynt yn defnyddio nwy
3. Marchnadoedd a gwasanaethau cynhwysol
4. Fforddiadwyedd

5. Dyled a datgysylltu

6. Arloesedd a chymorth

Dyma rywfaint o'r gwaith a wnaed gennym ar ddiogelu defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus eleni.

Adolygiad a chynigion o ran rhagdaliadau: ym mis Mehefin 2015, cyhoeddwyd ein hadolygiad o arferion cyflenwyr yn y maes hwn. Dangosodd fod rhwystrau a oedd yn atal cwsmeriaid mesuryddion rhagdalau (PPM) rhag manteisio ar gynigion gwell yn y farchnad, fel anawsterau o ran ymgysylltu, a diffyg arloesedd. Ym mis Rhagfyr 2015, gwnaethom ymgynghori ar wella'r sefyllfa i'r defnyddwyr hyn, a chynlluniwyd cynigion er mwyn helpu cwsmeriaid PPM i fanteisio ar dariffau mwy cystadleuol a chael eu trin yn deg gan eu darparwyr ynni.

Sicrhau ei bod yn haws i gwsmeriaid PPM sydd mewn dyled newid cyflenwyr: yn dilyn ein hadolygiad o'r Protocol Trosglwyddo Dyledion, gwirfoddolodd 11 o gyflenwyr i wneud newidiadau i'r Protocol er mwyn sicrhau bod y broses o newid cyflenwyr yn well ar gyfer cwsmeriaid PPM sydd mewn dyled. Hyd yma, mae mwy o ddefnyddwyr wedi llwyddo i newid cyflenwyr ers i'r newidiadau gael eu rhoi ar waith.

Aelwydydd nad ydynt yn defnyddio nwy: cyhoeddwyd papur dirnadaeth ar aelwydydd â systemau gwresogi trydan a systemau gwresogi eraill nad ydynt yn defnyddio nwy. Gwnaethom hefyd gyflawni ein hymrwymiad i'r Pwyllgor Ynni a Newid Hinsawdd drwy gyhoeddi opsiynau i ddiogelu defnyddwyr yn well mewn sectorau eraill nad ydynt yn cynnwys nwy, h.y. olew gwresogi, LPG, tanwydd solet a gwres rhanbarthol.

Gwasanaethau am ddim i'r sawl sydd ag anghenion ychwanegol: o dan ein mesurau diogelwch presennol, mae'n ofynnol i gyflenwyr a rhwydweithiau dosbarthu trydan gynnal Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth o gwsmeriaid sydd ag anghenion ychwanegol, a chynnig gwasanaethau penodol iddynt am ddim. Ym mis Rhagfyr 2015, gwnaethom gyhoeddi ein Cynigion Terfynol ar gyfer yr Adolygiad o'r Gofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth ar gyfer ymgynghoriad, a oedd yn cynnwys amodau trwydded drafft. Nod y cynigion hyn yw sicrhau bod y cwsmeriaid hynny sy'n cael problemau o ran diogelwch, cyfathrebu a mynediad yn cael yr help sydd ei angen arnynt yn y farchnad ynni. Mae ein



hamodau trwydded drafft yn nodi ein disgwyliadau o ran sut y dylai'r diwydiant nodi a chynorthwyo cwsmeriaid mewn sefyllfa ariannol fregus. Mae'r ffocws ar hyrwyddo dulliau mwy hyblyg ac arloesol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i bob cwsmer.

Cyngor: parhaodd ein partneriaeth â'r Canolfannau Cyngor ar Bopeth er mwyn cyflawni'r rhaglenni Ynni - Y Fargen Orau ac Ynni - Y Fargen Orau Ychwanegol. Dangosodd gwerthusiad o raglen 2014-15 fod mwy na 9,060 o'n defnyddwyr a gafodd help uniongyrchol wedi chwilio am dariff ynni gwell, a chymerodd 57% ohonynt o leiaf un math o gam gweithredu i arbed ynni neu i geisio cyngor. Hefyd, cynhaliwyd apwyntiadau cyngor Ynni - Y Fargen Orau Ychwanegol i roi cymorth unigol gyda 6,047 o ddefnyddwyr a oedd mewn sefyllfa ariannol fregus yn bennaf.

Gweithio gyda rheoleiddwyr eraill: Fel rhan o'n rôl yn Rhwydwaith Rheoleiddwyr y DU, gwnaethom arwain tîm trawsreoleiddiol i lunio deunydd canllaw ar gyfer defnyddwyr mewn amgylchiadau bregus. Mae'n helpu defnyddwyr i fanteisio ar wasanaethau cymorth i ddefnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus yn y sectorau ynni, dŵr, telathrebu a thrafnidiaeth.

Ehangu'r Rhwydwaith Cartrefi Tlawd o ran Tanwydd

Ym mis Medi 2015, cwblhawyd y gwaith o adolygu'r newidiadau i Gynllun Ehangu'r Rhwydwaith Cartrefi Tlawd o ran Tanwydd. Caiff y cynllun ei gyflwyno fel rhan o broses rheoli prisiau RIIOGD1, ac mae'n helpu i leihau nifer yr aelwydydd sy'n wynebu tldi tanwydd drwy annog cwmnïau'r rhwydwaith nwy i gysylltu mwy o aelwydydd cymwys â'u gridiau. Daeth y newidiadau, yn cynnwys adolygiadau i'r cynllun, i rym o 1 Ebrill 2016. Byddant yn darparu 90,000 o gysylltiadau i aelwydydd tlawd o ran tanwydd cyn 2021 - sef 14,000 yn fwy na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol.

Cyfryngwyr trydydd parti

Mae safleoedd cymharu prisiau a chyfryngwyr trydydd parti yn chwarae rôl bwysig yn helpu defnyddwyr i wneud dewisiadau da, yn enwedig mewn perthynas â'u bargen ynni. Dylai defnyddwyr allu ymddiried ynddynt, felly mae'n hanfodol bod y wybodaeth a roddir ganddynt yn glir ac yn gywir.

Rydym yn parhau i weinyddu'r Cod Hyder, sef cod ymarfer gwirfoddol ar gyfer safleoedd cymharu prisiau domestig. Mae'n sicrhau bod defnyddwyr

yn cael gwasanaeth annibynnol, tryloyw, cywir a dibynadwy, fel y gallant gymharu tariffau a chyflenwyr yn hyderus.

Ar gyfer defnyddwyr busnes, rydym yn monitro cyfryngwyr trydydd parti gan ddefnyddio ein pwerau yn unol â rheoliadau Diogelu Busnesau rhag Marchnata Camarweiniol. Byddwn yn gweithredu os byddwn o'r farn bod defnyddwyr ar eu colled. Rydym hefyd yn cydweithio'n agos â rheoleiddwyr eraill drwy Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU, ac yn cynorthwyo'r Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd. Drwy'r gwaith hwn, rydym yn ystyried y rôl a gaiff ei chwarae gan safleoedd cymharu prisiau a chyfryngwyr yn y dyfodol, yn cynnwys annog arloesedd a meithrin cystadleuaeth rhwng safleoedd. Bydd hyn yn helpu rhagor o ddefnyddwyr i gymryd rhan yn y farchnad.

Penderfyniad label gwyn

Ers mis Hydref 2015, cafwyd rheolau cyson ar gyfer partneriaethau label gwyn yn y farchnad ddomestig. Cafodd pob cyflenwr y cyfle i greu partneriaethau label gwyn, gan sicrhau y gallai defnyddwyr wneud dewis hyddysg ynghylch y fargen sydd orau iddynt hwy.

Rhaid i gyflenwyr roi gwybod i gwsmeriaid ar eu biliau p'un a oes tariff rhatach iddynt, naill ai gan y rhiant gyflenwr neu'r partner papur gwyn. Rydym yn caniatáu i gyflenwyr gael sawl trefniant label gwyn er mwyn denu partneriaid yr ymddiriedir ynddynt o'r tu allan i'r diwydiant ynni i mewn i'r farchnad, yn ogystal â newydd-ddyfodiaid.

Drwy roi llwybr symlach i mewn i'r farchnad i gwmnïau nad oes ganddynt drwydded cyflenwi, rydym yn helpu cyflenwyr i gystadlu ac arloesi mwy - ac mae hyn yn rhoi mwy o ddewis i ddefnyddwyr. Gallant hefyd greu tariffau cymdeithasol arbenigol ar gyfer defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus.

Partneriaeth â'r llywodraeth a rhanddeiliaid

Mae cysylltiadau cryf yn hanfodol i ni. Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am bolisiau ynni a phennu ein fframwaith statudol, ond rydym yn dibynnu ar ein cydberthnasau â sefydliadau Ewropeaidd, cyrff defnyddwyr, a diwydiant hefyd. Maent yn ein helpu i ddangos goblygiadau ein polisiau a'n ffordd o feddwl, er mwyn rhoi dealltwriaeth well i ni o sut y gallwn wella'r hyn a wnawn. Rydym yn annibynnol, ond nid ydym ar wahân.

Gwrando ar ddefnyddwyr a rhanddeiliaid amgylcheddol

Mae ein partneriaeth â Cyngor ar Bopeth yn parhau er mwyn cyflawni'r rhaglenni Ynni - Y Fargen Orau ac Ynni - Y Fargen Orau Ychwanegol. Mae Cyngor ar Bopeth yn amcangyfrif, hyd at wanwyn 2016, bod o leiaf 400,000 o ddefnyddwyr wedi cael budd ers i ni gomisiynu'r cynllun peilot cyntaf yn 2008.

Rydym yn cymryd rhan yn y Grŵp Cyngori ar Dlodi Tanwydd, Fforymau Tlodi Tanwydd Cymru a'r Alban, a'r Rhwydwaith Mynediad i Wasanaethau Hanfodol.

Rydym hefyd wedi dechrau cymryd rhan yn Nhasglu Defnyddwyr mewn Sefyllfa Ariannol Fregus yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Mae'r grwpiau hyn yn ein helpu i ddeall mwy am gwsmeriaid mewn sefyllfa ariannol fregus, a gweithio mewn partneriaeth er mwyn sicrhau canlyniadau gwell. Rydym yn siarad â chwsmeriaid diwydiannol a masnachol yn ein Grŵp Defnyddwyr Mawr, ac yn ymchwilio i gymhellion er mwyn helpu cwsmeriaid busnes bach.

Rydym yn siarad yn barhaus â grwpiau defnyddwyr, y sawl sy'n cynrychioli aelwydydd, busnesau a grwpiau busnes. Rydym yn gwneud ein gwaith ymchwil ein hunain, ac yn defnyddio ymchwil pobl eraill, er mwyn deall agweddau, cymhellion, pryderon ac ymddygiad defnyddwyr yn ogystal â phrofi syniadau am bolisi.

Rydym yn defnyddio'r wybodaeth hon i lywio a llunio ein camau gweithredu. Mae gennym drefniadau mwy ffurfiol hefyd, fel ein grwpiau defnyddwyr ar gyfer defnyddwyr busnes bach, canolig a mawr a'n Grŵp Cyngori ar Ddatblygu Cynaliadwy.

Partneriaethau â rheoleiddwyr eraill

Rydym yn ymrwymedig o hyd i weithio'n effeithiol gyda rheoleiddwyr eraill, drwy Rwydwaith Rheoleiddwyr y DU (UKRN) ac mewn trefniadau ar y cyd lle ceir buddiannau clir ar y cyd ag eraill.

Drwy gydol 2015-16 gwnaethom chwarae rôl arweiniol yn rhaglen waith UKRN. Ym mis Medi 2015, cyhoeddwyd yr adroddiad ail gam o'r prosiect Fforddiadwyedd, sy'n edrych ar yr hyn a allai effeithio ar filiau defnyddwyr yn y sector ynni ac mewn sectorau eraill dros y deng mlynedd nesaf.

Hefyd ym mis Medi 2015, cyhoeddodd UKRN ran olaf y prosiect Seilwaith. Mesurau yw'r rhain sy'n ei gwneud yn haws i ddatblygwyr ymgysylltu â gweithredwyr rhwydwaith mewn cyfleustodau wrth adeiladu seilwaith newydd.

Ar ddechrau 2016, gwnaethom arwain gwaith ar ddefnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus ym mhob sector, yn cynnwys sicrhau cymorth gwirfoddol gan gwmnïau ynni a dŵr er mwyn amlygu gwasanaethau cymorth.

Gwnaethom hefyd edrych ar adnoddau a gwasanaethau a rennir. Ymrwymwyd yn y Gyllideb i adolygu dichonoldeb yr achos busnes o gydleoli a rhannu swyddogaethau cefn swyddfa â rheoleiddwyr eraill.

Busnesau anhraddodiadol

Rydym yn ymgysylltu mwy ag amrywiaeth o gyfranogwyr presennol, cyfranogwyr newydd a darpar gyfranogwyr yn y farchnad drwy ein gwaith ar fodolau busnes anhraddodiadol a busnesau sy'n herio.

Mae canlyniadau amgylcheddol neu gymdeithasol yn sail i fodolau busnes llawer ohonynt. Rydym wedi mynd ati mewn ffordd eang a chynhwysol, gan gydnabod llawer o randdeiliaid - busnesau, melinau trafod, academyddion, cyrff anllywodraethol, y llywodraeth (yn cynnwys Cymru a'r Alban), sylfaenwyr ac eraill. Roedd eu hallbwn yn werthfawr ac amrywiol, boed hynny drwy ymatebion



ffurfiol, trafodaeth neu gyfryngau cymdeithasol. Helpodd i lunio ein blaenraglen waith, yn cynnwys prosiectau newydd ar sganio'r gorwel ac ynni lleol. Rydym yn edrych ymlaen at wneud mwy o hyn yn 2016-17.

Mesuryddion deallus

Rydym yn cydweithio'n agos â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ar y rhaglen Mesuryddion Deallus.

Drwy gydol 2015, buom yn craffu ar gynlluniau cyflenwyr i gyflwyno mesuryddion deallus erbyn 2020, rhwymedigaeth a bennwyd gan y llywodraeth. Ymarfer ffug oedd hwn, lle roeddem am weld p'un a oedd cynlluniau cyflenwyr i gyrraedd eu targedau yn ddigonol. Ym mis Chwefror 2016, cawsom gynlluniau terfynol cyflenwyr a oedd yn cynnwys targedau ffurfiol, yr ydym wrthi'n eu hasesu.

Rydym hefyd yn rheoleiddio sut mae cyflenwyr yn cyflawni trefniadau'r llywodraeth er mwyn ymgysylltu â defnyddwyr yn ystod y broses o gyflwyno'r mesuryddion deallus. Ymysg y rhain mae cyflawni Smart Energy GB a rhwymedigaethau'r Cod Ymarfer ar gyfer Gosod Mesuryddion Deallus mewn amodau trwydded. Rydym wedi parhau â'n rôl arsylwi ar Fwrdd Smart Energy GB a Bwrdd Llywodraethu SMICOP.

Rydym yn cydweithio â gweithredwyr y rhwydwaith er mwyn deall sut i ddefnyddio data mesuryddion deallus defnyddwyr i sicrhau y gellir rheoli'r rhwydweithiau dosbarthu yn well. Fel rhan o'r Fforwm Gridiau Deallus, gwnaethom ganolbwyntio ar ddileu'r rhwystrau masnachol, rheoleiddiol a thechnegol sy'n atal sicrhau grid deallus effeithlon ym Mhrydain Fawr.

Gweithio gyda'r llywodraeth

Rheoleiddiwr economaidd annibynnol yw Ofgem, ond mae'n cydweithio ag amrywiaeth o adrannau'r llywodraeth er mwyn sicrhau bod polisiau a swyddogaeth rheoleiddio yn cydweithio mewn modd cydlynol. Cysylltiadau â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a gawn yn bennaf, yn cynnwys meysydd fel cyflawni cynlluniau a'r prosiect Mesuryddion Deallus. Fodd bynnag, rydym hefyd yn gweithio gyda Thrysorlys EM a'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ar amrywiaeth o faterion, yn cynnwys sicrhau bod cyfathrebu dwy ffordd da o ran gwella arferion rheoleiddiol, mesur costau a buddiannau ymyriadau rheoleiddiol, ac egluro rôl rheoleiddwyr economaidd o ran eu perthynas â'r gwaith o lunio polisiau.

Llais arweiniol yn Ewrop

Rydym yn chwarae rôl ganolog yn y ddau sefydliad rheoleiddiol Ewropeaidd: y Cyngor Rheoleiddwyr Ynni Ewropeaidd a'r Asiantaeth Cydweithredu Rheoleiddwyr Ynni.

Mae'r partneriaethau effeithiol rydym wedi'u meithrin drwy'r ddau sefydliad hyn yn ein galluogi i ddylanwadu ar gyfeiriad datblygiad polisi ynni Ewropeaidd er mwyn sicrhau eu bod o fudd i ddefnyddwyr ym Mhrydain. Rydym wedi gweld mentrau polisi newydd gan y Comisiwn Ewropeaidd, o ran diogelwch cyflenwadau nwy a chreu Undeb Ynni, ac rydym yn disgwyl gweld rhagor o fentrau o ran cystadleuaeth yn y farchnad fanwerthu y byddwn am ddylanwadu'n gadarnhaol arnynt. Rydym yn parhau â'n gwaith i weithredu'r Trydydd Pecyn Ynni a'r gyfres o godau rhwydwaith, gan wneud newidiadau i reolau presennol y farchnad ym Mhrydain yn ôl yr angen.

Helpu newydd-ddyfodiaid i'r farchnad

Buom yn gweithio er mwyn helpu tua 50 o newydd-ddyfodiaid ac mae cyflenwyr ynni annibynnol yn ymgysylltu â ni yn yr un modd ag y maent gyda'r cyflenwyr etifeddol. Buom yn defnyddio polisiau presennol, ac yn ymgysylltu â chyflenwyr drwy ddigwyddiadau, gweithdai a'r cyfryngau cymdeithasol. Maent yn rhydd i siarad â ni i gael cyngor. Cawsom adborth da gan gyflenwyr annibynnol: maent yn teimlo ein bod yn fwy hygyrch, ac maent yn gwerthfawrogi'r cyngor a gawsant gennym.

e-serve

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gwnaethom barhau i weinyddu a chyflawni amrywiaeth o gynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol ar ran y llywodraeth. Roedd hyn yn cynnwys cydweithio â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd er mwyn sicrhau bod y newidiadau a wneir i'r cynlluniau yn cael eu rhoi ar waith yn effeithiol a'u bod yn costio cyn lleied â phosibl. Wrth gyflawni'r cynlluniau, buom yn cydweithio ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, o gyfranogwyr yn y cynllun i gyflenwyr a defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus.

Dyma rai uchafbwyntiau.

Rydym wedi gwneud y canlynol:

- adeiladu ar y memorandwm cyd-ddealltwriaeth y cytunwyd arno â'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd ym mis Mawrth 2013, a'n galluogodd ni i ddod o hyd i ragor o ffyrdd o wella ein cydberthynas a sicrhau bod y cynlluniau amgylcheddol yn fwy effeithlon.
- cydweithio â chyflenwyr a'r gadwyn gyflenwi ECO i sicrhau gwelliannau yn ansawdd mesurau effeithlonrwydd ynni ac ym mhrofiad y cwsmer. Rydym hefyd wedi cymeradwyo mwy na 1.6 miliwn o fesurau effeithlonrwydd ynni hyd yma, yn cynnwys pecynnau inswleiddio a gwresogi, y mae llawer ohonynt bellach o fudd i gartrefi incwm isel ac aelwydydd mewn sefyllfa ariannol fregus.
- cydweithio'n agos â chyflenwyr yn unol â'r Gostyngiad Cartrefi Cynnes, ar fath newydd o fenter sy'n cynnig yr ad-daliad Gostyngiad Cartrefi Cynnes i ddefnyddwyr sy'n byw mewn cartrefi mewn parciau nad ydynt yn gymwys i gael yr ad-daliad fel arfer.
- ymgorffori newidiadau'n llwyddiannus yn y rheoliadau sy'n ymwneud â chynaliadwyedd o dan y cynlluniau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig ac Annomestig. Buom yn gweithio'n agos gyda'r Adran Ynni a Newid yn yr Hinsawdd er mwyn sicrhau bod y rheoliadau'n ymarferol i'w rhoi ar waith. Buom hefyd yn cyfathrebu â rhanddeiliaid a chwsmeriaid er mwyn egluro beth y byddai angen iddynt ei wneud yn wahanol.
- buom hefyd yn gweithio gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd er mwyn atal y cynllun Tariff Cyflenwi Trydan dros dro a chyflwyno'r cynllun capio, a hyn oll o fewn terfynau amser tynn iawn. Gwnaethom ymateb i ddymuniadau rhanddeiliaid a'r llywodraeth a llunio adroddiad wythnosol ar y capasiti sy'n weddill ym mhop cap.
- gweithio'n agos gyda'r llywodraeth ar newidiadau deddfwriaethol o dan y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, yn cynnwys cau'r cynllun yn gynnar i systemau ffotofoltäig solar ar raddfa fawr, rheolau newydd ar gyfer cynaliadwyedd ynni solet a nwyol a newidiadau mewn cyfraddau Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy ar gyfer microgynhyrchwyr.
- dechrau gweithio gyda'r Cwmni Cysylltiadau Carbon Isel, gan asesu gweithdrefnau tanwydd ar ei ran, o dan y cynllun Contractau er Gwahaniaeth.



Ymddiriedaeth a hyder

Mae gennym rôl bwysig i'w chwarae o ran sicrhau bod gan ddefnyddwyr ymddiriedaeth a hyder yn y farchnad ynni. Mae enyn yr ymddiriedaeth hon yn rhan fawr o'n gwaith fel rheoleiddiwr annibynnol. Rydym am i gyflenwyr ynni enyn ymddiriedaeth ymysg eu cwsmeriaid. Rydym yn defnyddio fframweithiau rheoleidiol sefydlog a rhagweladwy a phrosesau tryloyw ac atebol er mwyn rhoi hyder i'r sector yn ein dulliau rheoleiddio ein hunain.

Ond dim ond hyn a hyn y gallwn ei wneud. Ar ôl i'r CMA gyhoeddi ei adroddiad terfynol ar weithrediad y farchnad, byddwn yn cydweithio ag ef a'r diwydiant er mwyn rhoi'r argymhellion ar waith. Gobeithio y bydd hyn yn sail i'r broses o adfer ymddiriedaeth defnyddwyr.

Yn y cyfamser, rydym wedi parhau i sicrhau y gall defnyddwyr a'u cynrychiolwyr gael gafael ar gyngor a gwybodaeth dda a gonest. Rydym yn cyhoeddi data ein hunain, mewn partneriaeth â sefydliadau eraill, neu drwy ei gwneud yn ofynnol i'r diwydiant fod yn fwy tryloyw.

Arolygu'r farchnad

Mae monitro'r farchnad yn rhan hanfodol o'n rôl. Mae'n helpu rhanddeiliaid i gael y wybodaeth ddiweddaraf, mae'n ein helpu i ddatblygu polisïau newydd, ac asesu'r effaith y mae'r rheoliadau presennol yn ei chael.

Ym mis Medi, gwnaethom lansio siartiau rhyngweithiol newydd yn dangos sut y mae agweddau gwahanol ar y marchnadoedd manwerthu a chyfanwerthu'n gweithio, a pherfformiad cyflenwyr o ran gwasanaeth cwsmeriaid. Byddwn yn diweddarau'r siartiau hyn yn rheolaidd, ac rydym am iddynt fod yn ddefnyddiol i unrhyw un sydd am gael y darlun diweddaraf o ddatblygiadau allweddol yn y marchnadoedd ynni. Hefyd, cyhoeddwyd ein gwybodaeth monitro flynyddol am y marchnadoedd ynni manwerthu a chyfanwerthu (yr Adroddiad ar y Farchnad Ynni Manwerthu a'r Adroddiad ar y Farchnad Ynni Cyfanwerthu). Maent yn cynnwys ein safbwyntiau ar y datblygiadau pwysicaf yn y marchnadoedd dros y flwyddyn flaenorol. Maent hefyd yn nodi p'un a yw'r marchnadoedd yn cyflawni'r canlyniadau i ddefnyddwyr a nodir yn ein strategaeth.

Hylifedd marchnadoedd

Cyhoeddwyd ein hasesiad blynyddol cyntaf ar effaith Secure and Promote ym mis Medi 2015. Cyflwynwyd Secure and Promote fel amod trwydded arbennig yn nhrwyddedau cynhyrchu'r partion o dan rwymedigaeth, er mwyn gwella mynediad i'r farchnad trydan cyfanwerthu a sicrhau bod y farchnad yn darparu'r cynhyrchion a'r arwyddion prisiau sydd eu hangen i gystadlu'n effeithiol.

Nododd yr adroddiad y canlyniadau dros y pum chwarter cyntaf. Rydym wedi gweld cyflenwyr llai, annibynnol yn cael mynediad i'r farchnad. Gwellodd hylifedd yn y farchnad gyfanwerthu yn ystod y flwyddyn gyntaf, ond dirywiodd yn ystod ail hanner 2015.

Gallai sawl ffactor fod wedi cyfrannu at y canlyniadau a welwyd gennym hyd yma, gan olygu y byddai'n rhy gynnar i ddod i gasgliadau. Ond byddwn yn gallu deall effaith ymyrryd pan fydd gennym ragor o ddata o waith monitro yn y chwarterau i ddod. Byddwn yn cyhoeddi ein safbwyntiau yr haf hwn.

Rydym hefyd wedi bod yn olrhain newidiadau arfaethedig yn rheoliadau ariannol yr UE a all effeithio ar hylifedd marchnadoedd ynni. Fel rhan o'r Cyngor Rheoleiddwyr Ynni Ewropeaidd, rydym wedi ymgysylltu'n agos â rheoleiddwyr ariannol a rheoleiddwyr ynni eraill, y Senedd, a'r Comisiwn ar effeithiau negyddol posibl ar hylifedd marchnadoedd ynni.

Diogelwch cyflenwadau

Rydym yn monitro nodweddion sylfaenol y farchnad bob dydd, gan ddadansoddi goblygiadau unrhyw symudiadau yn y farchnad o ran cyflenwad diogel o nwy a thrydan. Os byddwn yn nodi problemau, byddwn yn mynd i'r afael â hwy gyda'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd a'r Grid Cenedlaethol.

Gwnaethom hefyd fonitro diogelwch cyflenwadau er mwyn sicrhau bod ein trefniadau yn y farchnad yn darparu cyflenwadau diogel i ddefnyddwyr ym Mhrydain.



Dros y flwyddyn ddiwethaf, gwnaethom barhau â'n gwaith o ddeall y rhagolygon o ran diogelwch y cyflenwad trydan dros y blynyddoedd i ddod. Mae hyn yn ystyried meysydd yn cynnwys sut y gallai rhyng-gysylltwyr gyfrannu ar adegau pan fo maint yr elw yn fach. Buom hefyd yn cydweithio â rheoleiddwyr yn ymateb i faterion yn ymwneud â chadernid y rhwydwaith.

Adrodd ar berfformiad cwmnïau yn y rhwydwaith

O dan fframwaith RIIO, rydym yn ymrwymedig i fonitro perfformiad cwmnïau yn y rhwydwaith dros y cyfnod rheoli prisiau. Dechreuodd y ddau gyfnod rheoli prisiau cyntaf, ar gyfer trawsyrru (RIIO-T1) a dosbarthu nwy (RIIO-GD1), ym mis Ebrill 2013. Dechreuodd y trydydd, ar gyfer dosbarthu trydan (RIIO-ED1), ym mis Ebrill 2015.

Cyflwynodd y cwmnïau adroddiadau ar eu hail flwyddyn o berfformiad ddiwedd mis Gorffennaf 2015. Gwnaethom ddadansoddi'r canlyniadau hyn er mwyn deall sut maent yn perfformio ac yn cynllunio i gyflawni yn unol â'u hymrwymadau rheoli prisiau.

Yn ein hail adroddiadau blynyddol ar gyfer trawsyrru a dosbarthu nwy, gwnaethom nodi bod y cwmnïau wedi parhau i ragori ar y lwfansau a bennwyd gennym, a'u bod yn cyflawni eu hymrwymadau. Canfuwyd rhai anghysondebau posibl wrth adrodd ar ganlyniadau, ac rydym yn ymchwilio i hyn.

Y rhwydwaith dosbarthu trydan a'r amgylchedd

2015 oedd blwyddyn gyntaf y cyfnod rheoli prisiau RIIO-ED1 newydd (gweler y bennod 'Rheoleiddio'). Cyflwynodd RIIO-ED1 sawl canlyniad a chymhelliant amgylcheddol newydd. Mae hefyd wedi diweddarau rhai sy'n bodoli eisoes, megis rhoi lwfans i Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu i dalu am roi ceblau rhwydwaith dan ddaear mewn Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol. Mae hyn ychydig dros £100m ar gyfer yr wyth mlynedd nesaf.

Eleni, daeth rhwymedigaeth trwyddedu newydd i rym yn ei gwneud yn ofynnol i Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu sicrhau bod y colledion dosbarthu mor isel â phosibl. Gall Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu

hefyd gymryd rhan yn ein cynllun Gwobrwyo Dewisol mewn perthynas â Cholledion, a gynlluniwyd i'w hannog i ddeall colledion trydan ar eu rhwydweithiau a'u rheoli'n well. Mae'r cynllun cyntaf, sy'n werth £8m, newydd ddechrau, a bydd yn dod i ben yr haf hwn.

Rydym hefyd wedi cyflwyno gofynion adrodd newydd ar gyfer Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu, a hynny er mwyn deall mwy am eu gweithredoedd a'u cynlluniau ar gyfer rheoli colledion a materion amgylcheddol ehangach, a'u dwyn i gyfrif os na wnânt hynny. Rhaid i Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu gyhoeddi Adroddiad Amgylcheddol er mwyn dangos beth maent wedi'i wneud ar faterion amgylcheddol (fel lleihau eu hôl-troed carbon) yn ystod y flwyddyn reoleiddio flaenorol. Ym mis Chwefror 2016, gwnaethom gyhoeddi canllawiau diwygiedig ar ofynion yr Adroddiad Amgylcheddol, a bydd yn rhaid i Weithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu gyflwyno eu hadroddiad cyntaf ar neu cyn 31 Hydref 2016.

Canllawiau Sicrhau Ansawdd ar gyfer cwmnïau'r rhwydwaith

Ym mis Ebrill 2015, gwnaethom roi'r Canllawiau Sicrhau Ansawdd ar waith. Mae'r Canllawiau yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau asesu'r data y maent yn ei gyflwyno i ni, a sicrhau ei fod yn gywir. O dan y Canllawiau, mae'n rhaid i gwmnïau rhwydwaith adrodd i'r rheoleiddiwr bob blwyddyn yn nodi eu sgôr o ran risg, manylion y gwaith sicrwydd a wnaed a chynlluniau sicrwydd data yn y dyfodol. Daeth yr adroddiadau cyntaf i law erbyn 29 Chwefror ac rydym wedi eu hasesu, gan ystyried cyflwyniadau Canllawiau Sicrhau Ansawdd blaenorol ac ansawdd y data a gyflwynwyd.

Monitro cydymffurfiaeth cyflenwyr

Rydym wedi bod yn fwy rhagweithiol ynghylch monitro cydymffurfiaeth cyflenwyr â'u rhwymedigaethau trwyddedu. Mae hyn yn sicrhau y caiff defnyddwyr eu diogelu, a'u bod yn cael budd o farchnadoedd ynni sy'n gweithredu'n dda. Rydym yn monitro canlyniadau i ddefnyddwyr o dan y Safonau Ymddygiad, er mwyn sicrhau bod cyflenwyr yn cydymffurfio â'u rhwymedigaethau i drin defnyddwyr yn deg. Mae'r bennod 'Safonau' yn dangos ein bod wedi cymryd camau gofodi pan fo angen.



Ehangu cwmipas opsiynau adeiladu OFTO

Gwnaethom ddiweddarau ein fframwaith rheoleiddio a'n fframwaith polisi er mwyn cyflwyno mwy o opsiynau adeiladu i berchenogion gweithrediadau trawsyrro ar y môr. Bydd hyn yn helpu i fodloni gofynion cynhyrchwyr ynni ar y môr yn awr ac yn y dyfodol, yn ogystal ag addasu i nodweddion prosiect-benodol.

Gweithredu REMIT

Rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod y farchnad ynni cyfanwerthu yn fwy tryloyw er mwyn atgyfnerthu'r gystadleuaeth. Rydym wedi defnyddio ein pwerau monitro ac ymchwilio i gadarnhau cydymffurfiaeth â REMIT, y rheoliadau Ewropeaidd ar uniondeb a thryloywder y farchnad ynni cyfanwerthu, ac rydym yn parhau i ymchwilio i feysydd lle mae ei angen.

Hefyd, cawsom bwerau newydd i gyflwyno sancsiynau troseddol yn erbyn achosion o ystumio'r farchnad a masnachu mewnol. Cynhaliwyd ymgynghoriad ar ein datganiad polisi erlyn a chafodd ei roi ar waith eleni.

Rydym wedi gweithio ar wella cydymffurfiaeth cwmnïau, yn unigol a thrwy fforymau cynrychiolwyr. Gwnaethom gyhoeddi llythyr agored yn nodi ein safbwyntiau ar faterion penodol a nodwyd gennym yn y farchnad. Er mwyn sicrhau y caiff y rheolau eu dehongli'n gyson ledled Ewrop, byddwn yn cwrdd yn aml â'r Asiantaeth Cydweithredu Rheoleiddwyr Ynni a rheoleiddwyr ynni Ewropeaidd eraill. Yn lleol, rydym wedi croesawu'r cydberthynasau gwaith agos sydd gennym â'r Awdurdod Ymddygiad Ariannol, yn benodol. Cyrhaeddwyd cerrig milltir allweddol o dan REMIT eleni. Cafodd ymgeiswyr eu cofrestru cyn y dyddiad cau cyntaf ar 7 Hydref. Gwnaethom barhau i gynorthwyo'r cyfranogwyr hynny yn y farchnad yr oedd angen iddynt gofrestru erbyn 7 Ebrill.

Taliadau rhwydweithiau rhanbarthol

Ym mis Hydref 2015, cyhoeddwyd papur yn egluro pam mae taliadau rhwydweithiau yn amrywio ymysg rhanbarthau ym Mhrydain Fawr. Mae'r taliadau hyn yn adennill y costau yr aed iddynt gan y sawl sy'n gweithredu'r rhwydweithiau trawsyrro a dosbarthu trydan a nwy.

Edrychwyd ar sut mae biliau cwsmeriaid gan gwmnïau cyflenwi yn adlewyrchu'r gwahaniaethau rhanbarthol hyn ac ystyriwyd tystiolaeth o ran sut y gallai'r gwahaniaethau effeithio ar gwsmeriaid mewn sefyllfa ariannol fregus. Ystyriwyd sut mae gwledydd eraill naill ai'n gadael i gostau rhanbarthol gael eu hadlewyrchu mewn biliau neu'n dewis taliadau cenedlaethol unffurf.

Gwnaethom amlinellu'r rhesymeg dros y trefniadau presennol ym Mhrydain Fawr, ond hefyd, gwnaethom ddangos effeithiau posibl symud i daliadau unffurf ledled Prydain Fawr.

e-serve

Yn 2015-16, gwnaethom barhau i wella ymddiriedaeth a hyder yn y cynlluniau a gyflwynwn drwy sicrhau eu bod hyd yn oed yn fwy tryloyw ac atebol. Gwnaethom atgyfnerthu ein prosesau trafodion a rheoleiddiol, a'u cyfuno â dull effeithiol o ymgysylltu â rhanddeiliaid. Rydym hefyd wedi gwella ein gwefan er mwyn sicrhau bod y cyfoeth o wybodaeth a gyhoeddwn yno yn haws i'w chanfod a'i hasesu.

Dyma rai uchafbwyntiau o ran sut y gwnaethom weithio er mwyn gwella ymddiriedaeth a hyder yn 2015-16.

Rydym wedi gwneud y canlynol:

- gwella ein gwefan er mwyn helpu rhanddeiliaid i ddod o hyd i'r wybodaeth sydd ei hangen arnynt. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno llyfrgelloedd cyhoeddiadau ar wefannau ar gyfer pob un o'r cynlluniau er mwyn helpu defnyddwyr i chwilio am ddogfennau, a siartiau rhyngweithiol er mwyn sicrhau bod data cynlluniau yn fwy hygyrch.
- sefydlu cyfrifon Twitter a LinkedIn E-Serve, er mwyn rhoi ffyrdd newydd i ni gysylltu â'n rhanddeiliaid. Rydym yn eu defnyddio i gyfleu negeseuon pwysig a'r wybodaeth ddiweddaraf, ac er mwyn sicrhau bod ein dulliau ymgysylltu yn fwy agored a thryloyw.
- cyhoeddi ein hadroddiad terfynol ar gyfer cam cyntaf y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni ym mis Medi, a ddangosodd bod pob cyflenwr wedi cyflawni ei rwymedigaethau'n llwyr.



Effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd

Rhaid i ni weithio mor effeithiol â phosibl, er mwyn lleihau'r costau i ddefnyddwyr a'r baich ar y diwydiant. Rhaid i ni wneud mwy am lai o gost, gan flaenoriaethu'r meysydd lle rydym o'r farn y gallwn sicrhau'r effaith fwyaf. A rhaid i ni geisio lleihau'r baich ar y diwydiant lle bynnag y gallwn, heb beryglu buddiannau defnyddwyr.

Felly, rydym yn cynnal adolygiadau cyson ac yn ailddiffinio'r ffordd rydym yn gweithio - yn fewnol mae gennym brosiectau sy'n canolbwyntio ar weithio'n fwy effeithlon, a herio ein hunain i wneud yn well. Yn allanol, rydym yn ceisio creu sefydlogrwydd i fuddsoddwyr, a sicrhau bod y gyfundrefn reoleiddio yn fwy credadwy.

Ond dim ond hyn a hyn y gallwn ei wneud - cawn ein pwerau gan y Senedd ac nid ydynt yn fythol-barhaus: mae amodau allanol yn newid ac mae angen i'r gyfundrefn reoleiddio gael ei diweddar'u'n unol â hynny.

Trawsnewid mewnol

Gwnaethom lansio rhaglen drawsnewid fewnol ym mis Ionawr 2015, sef y "Raglen Drawsnewid Strategol". Mae hyn wedi newid y ffordd rydym yn gweithio, o wella prosesau yn lleol, i fentrau ehangach a fydd yn helpu i ddatblygu sefydliad sy'n hyblyg, yn effeithlon ac yn canolbwyntio ar wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr ynni.

Mae gennym dîm portffolio canolog sy'n gweithio fel cyswllt rhwng ein strategaeth a'r broses o gyflawni ein gweithgarwch a'n prosiectau busnes craidd. Mae hyn yn ein galluogi i gynllunio a monitro ein gwaith yn well, ac ymateb i ofynion newydd neu feysydd ffocws.

Rydym wedi ailstrwythuro ein his-adrannau er mwyn ein galluogi i sicrhau ein bod mewn sefyllfa well i gyflawni strategaeth y sefydliad ac ymateb yn well i anghenion defnyddwyr, a gweithio mewn ffordd fwy hyblyg. Rydym bellach wedi trefnu'r is-adrannau canlynol: Materion Corfforaethol, Gwella Rheoleiddio, Defnyddwyr a Chystadleuaeth, Systemau Ynni, Rhwydweithiau, Swyddogaethau

Corfforaethol ac E-Serve.

Mae'r newidiadau strwythurol hyn yn cynnwys fframwaith llywodraethu diwygiedig. Mae hyn yn sicrhau bod pawb yn glir ynghylch cyfeiriad, llinellau perchenogaeth ac atebolrwydd, a bod lefelau cywir o ddirprwyo a grymuso. Cafodd y fframwaith llywodraethu diwygiedig ei roi ar waith ym mis Chwefror 2016.

Yn 2016, byddwn yn parhau i ddatblygu ein gallu i reoli gwybodaeth ac yn adeiladu ein corff o wybodaeth gorfforaethol er mwyn sicrhau ei bod yn haws adalw a chael mynediad at wybodaeth ym mhob rhan o'r sefydliad, a chaiff y gwersi a ddysgwyd o waith yn y gorffennol eu cymhwyso at fentrau yn y dyfodol.

Byddwn hefyd yn parhau i gynllunio i symud ein swyddfeydd i eiddo mwy costeffeithiol, gan ymateb i gyhoeddiad y Gyllideb ym mis Mawrth 2016 i weithio gyda rheoleiddwyr economaidd eraill i adolygu'r achos busnes dros gydleoli a rhannu swyddogaethau cefn swyddfa, er mwyn annog arbedion effeithlonrwydd. Fel rhan o hyn, byddwn yn canolbwyntio ar gyflwyno arferion gweithio mwy deallus ym mhob rhan o'r busnes, gan geisio defnyddio technoleg a fydd yn lleihau costau ac yn sicrhau ein bod hyd yn oed yn fwy effeithlon.

Siambwr Seren

Ym mis Chwefror 2016, trafododd y cadeirydd a'r prif swyddog gweithredol ein dulliau rheoleiddio gyda'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid yn yr Hinsawdd, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesi a Sgiliau, uwch weinidog o Swyddfa'r Cabinet ac uwch swyddog o Drysorlys EM. Bu'r cyfarfod hwn ar ffurf 'Siambwr Seren', ac fe'i cyhoeddwyd yng Nghynllun Cystadleuaeth y llywodraeth ym mis Tachwedd 2015. Roedd y sesiwn yn heriol, fel y'i bwriadwyd ond hefyd, rhoddodd synnwyr clir bod y llywodraeth yn cydnabod yr ymdrechion a wnawn i sicrhau canlyniadau da i aelwydydd a defnyddwyr busnes, tra'n sicrhau cyn lleied â phosibl o feichiau ar fusnesau.



Cyhoeddwyd yn y Gyllideb y caiff swyddogaethau E-Serve eu gwahanu oddi wrth Ofgem, ynghyd â newidiadau ehangach i ddull yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd o gyflawni polisiau ynni. Mae'r cam pellach pwysig hwn yn adeiladu ar yr ymreolaeth a gyflwynwyd gennym ar gyfer dulliau llywodraethu a gweithrediadau E-Serve. Croesawyd y datblygiad hwn gennym.

Gan ategu pryderon a fynegwyd gan yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd, cadarnhaodd y Gyllideb fod y llywodraeth yn bwriadu diwygio ein dyletswyddau statudol er mwyn sicrhau, lle bynnag y bo'n briodol, ein bod yn ystyried ysgogiadau cystadleuaeth yn gyntaf. Mae hyn yn cydnabod, yn yr hirdymor, mai cystadleuaeth effeithiol yw'r ysgogiad

gorau er mwyn gwneud i farchnadoedd weithio'n dda. Un o gynigion eraill yr Awdurdod Cystadleuaeth a Marchnadoedd a nodwyd yn y Gyllideb yw trwyddedu gweinyddwyr codau diwydiant. Mae gweinidogion yn rhannu ein pryderon bod trefniadau llywodraethu diwydiant ac anawsterau o ran cydgysylltu ar draws codau wedi arafu diwygiadau allweddol. Drwy roi pwerau ychwanegol i ni yn y maes hwn, mae'r llywodraeth yn sicrhau y gellir cyflawni buddiannau defnyddwyr o ran newid strategol yn effeithiol.

Mae'r Gyllideb hefyd yn cadarnhau pwysigrwydd ein rhaglenni parhaus o ran symleiddio'r drwydded gyflenwi drwy ddibynnu'n llai ar reolau manwl, a chwilio am gyfleoedd i gefnogi a chynnig cyfleoedd i arloesi.

e-serve

Yn 2015-16 gwnaethom gyflawni amrywiaeth o gynlluniau defnyddwyr a chynlluniau amgylcheddol yn llwyddiannus ar ran y llywodraeth. Ymysg y rhain roedd y Mentrau Gwres Adnewyddadwy Domestig ac Annomestig, Y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, y Tariff Cyflenwi Trydan, y Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni, y Gostyngiad Cartref Cynnes ac Ad-daliad Trydan y Llywodraeth.

Drwy ein Rhaglen Rhagoriaeth Weithredol, gwnaethom barhau i ymgorffori ein nod o 'gyflawni rhagoriaeth' yn ein holl weithgareddau craidd, gan ganolbwyntio ar atal twyll, sicrhau cydymffurfiaeth, gwella perfformiad, gwella profiad y cwsmer, a sicrhau bod cynlluniau yn fwy effeithlon.

Rydym wedi cyrraedd ein targed o arbed 10% yn ystod y flwyddyn. Mae ein prosesau effeithlon wedi ein galluogi i sicrhau gwerth £6 biliwn o gynlluniau ar sail nid er elw am gyn lleied â 0.5% o'u gwerth. Mae hyn yn dangos sut mae ein hymrwymiad i ragoriaeth weithredol yn sicrhau gwerth gwirioneddol am arian i ddefnyddwyr a'r diwydiant, tra'n sicrhau bod rhanddeiliaid yn parhau i gael y lefel uchel o wasanaeth y maent yn ei ddisgwyl bellach.

Mae'r gwelliannau yr ydym wedi gwneud dros y flwyddyn ddiewthaf yn cynnwys:

- Rydym wedi lleihau costau yn ein Rhaglen Effeithlonrwydd Ynni a'n Rhaglen Gymdeithasol, drwy wneud gwelliannau i'r broses weinyddol.

- Rydym wedi gwella systemau a phrosesau TG, o dan y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig, yn seiliedig ar brofiad gweithredol ac adborth gan gwsmeriaid. Mae hyn wedi helpu i gynyddu nifer y ceisiadau a gaiff eu cymeradwyo'n awtomatig ar y cynllun o tua 24.1% i 52.5% ers mis Ebrill 2015.
- Rydym wedi symleiddio'r broses o gyflwyno data yn rheolaidd ar gyfer cyfranogwyr drwy'r Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig. Mae wedi lleihau faint o amser y mae cyfranogwyr yn ei dreulio yn cyflwyno eu data cyfnodol, gan nad oes angen iddynt gyfrifo ac ychwanegu eu data allbwn gwres eu hunain mwyach.
- Rydym wedi symleiddio'r broses achredu ar gyfer mathau penodol o geisiadau o dan y cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan. Mae hyn wedi ein galluogi i ragori ar ein targedau achredu yn 2015-16.
- Rydym wedi lansio nifer o fentrau yn ystod y flwyddyn, o dan y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, yn cynnwys proses symlach o wneud cais ar gyfer ymgeiswyr trydan adnewyddadwy ar raddfa fach yng Ngogledd Iwerddon. Mae'r newidiadau hyn yn galluogi mwy o bobl i fanteisio ar ein systemau, ac mae'n lleihau nifer y camau cymeradwyo.



Cymru a'r Alban

Mae'r marchnadoedd nwy a thrydan rydym yn eu rheoleiddio yn gweithredu ledled Prydain Fawr. Er bod natur integredig y marchnadoedd hyn, wrth reswm, yn llywio'r ffordd rydym yn rheoleiddio a sut rydym yn adrodd, rydym yn cydnabod bod diddordeb cynyddol yn yr hyn y mae perfformiad y farchnad ynni yn ei olygu i ddefnyddwyr yng Nghymru a'r Alban.

Fel rhan o'n gwaith parhaus, rydym yn cyhoeddi adroddiadau ar y marchnadoedd nwy a thrydan. Lle y bo'n ymarferol ac yn ystyrion, mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys data ar Gymru a'r Alban. Er enghraifft, mae hyn yn cynnwys gwybodaeth am sut mae cyflenwyr ynni wedi cyflawni rhwymedigaethau cymdeithasol i gwsmeriaid sydd mewn dyled, a all fod wedi cael eu datgysylltu oddi wrth eu cyflenwad nwy neu drydan neu sydd fel arall mewn amgylchiadau bregus, ac ar y nifer sy'n cofrestru ar gyfer cynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol Llywodraeth y DU yng Nghymru a'r Alban.

Byddai rhai rhanddeiliaid yn awyddus i ni gyhoeddi rhagor o wybodaeth - a gwybodaeth fanylach - am Gymru a'r Alban a gwelwch ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn gyfle i wneud hynny. Fel corff cyhoeddus, rydym yn awyddus i hyrwyddo dealltwriaeth o'n gwaith. Mae ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon yn dangos sut rydym wedi perfformio a defnyddio ein hadnoddau yn erbyn yr amcanion yn ein Blaengynllun Gwaith, yr ydym yn ymgynghori arno bob blwyddyn.

Ceir diddordeb penodol yng Nghymru a'r Alban yn effeithiolrwydd cyfundrefnau cymorth ar gyfer ynni adnewyddadwy ac effeithlonrwydd ynni. Fel agweddau ar bolisi ynni, materion i'r llywodraeth yw'r rhain. Mae'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd yn cyhoeddi gwybodaeth reolaidd am y broses o gynhyrchu ynni ym Mhrydain Fawr, ei ddefnydd a'i gost, yn cynnwys fesul gwlad.

Rydym am archwilio sut y gallwn fynd y tu hwnt i'r hyn rydym yn ei gyhoeddi ar gyfer Cymru a'r Alban ar hyn o bryd, ond gan mai un farchnad ynni a geir ledled Prydain Fawr, nid yw bob amser yn ystyrion nac yn bosibl dadgrynhoi cost neu wybodaeth am berfformiad fel hyn. Er enghraifft, gall adeiladu neu uwchraddio llinellau trawsyrru newydd yn un rhan o Brydain Fawr gael effaith gadarnhaol ar sefydlogrwydd a pherfformiad rhwydwaith trawsyrru ehangach Prydain Fawr. O ganlyniad, gall llinell drawsyrru

newydd neu wedi'i huwchraddio yn yr Alban fod o fudd i ddefnyddwyr Prydain gyfan. Rydym yn gallu, fodd bynnag, cynnwys yn y bennod yma, ciplun o weithgareddau o dan ynni adnewyddadwy, gwres adnewyddadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni a gyflenwyd gan E-Serve yn yr Alban ac yng Nghymru.

Yn y dyfodol, byddwn yn trafod â rhanddeiliaid, yn cynnwys Senedd yr Alban a Llywodraeth yr Alban, pa wybodaeth y gallwn ei chyhoeddi a fyddai'n ystyrion a'r ffordd fwyaf priodol o wneud hynny.

Yr Alban

Ym mis Ebrill 2015, gwnaethom gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor Archwilio Cyhoeddus ar sut y dylai cyrff cyhoeddus sy'n gweithredu yn yr Alban adrodd ar eu gweithgareddau. Ym mis Mehefin 2015, gwnaethom roi tystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor yr Economi, Ynni a Thwristiaeth i Ddiogelwch Cyflenwad ac ymateb i adroddiad y Pwyllgor ym Mehefin.

Bob blwyddyn, bydd Pwyllgor Ynni a Newid Hinsawdd y DU yn gwahodd prif weithredwr Ofgem i roi tystiolaeth yn seiliedig ar ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon. Byddem yn fwy na bodlon, ynghyd â cheisiadau eraill am dystiolaeth, ymddangos mewn sesiwn adolygu flynyddol o'r fath yn Senedd yr Alban.

Yn ogystal â'n rhaglen barhaus i friffio ASau unigol, manteisiwyd ar y cyfle ym mis Medi 2015 i gyflwyno arddangosfa yn Senedd yr Alban. Ein nod oedd amlygu ein gwaith i ddiogelu buddiannau defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus, yn enwedig o ran mesuryddion rhagdal a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ASau am nifer y bobl sy'n cofrestru yn yr Alban o dan y cynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol a weinyddir gan E-Serve Ofgem, yn cynnwys y Gostyngiad Cartref Cynnes a'r Rhwymedigaeth Cwmni Ynni. Roeddem yn ddiolchgar i ASau unigol am drydar manylion ein harddangosfa a chyhoeddi datganiadau i'r wasg er mwyn dweud wrth eu hetholwyr am y cynlluniau yr oeddem yn eu hyrwyddo.



Gwnaethom barhau â'n rôl fel arsylwyr yn Fforwm Tlodi Tanwydd yr Alban, sy'n rhoi cyngor i Lywodraeth yr Alban ar effeithiolrwydd ei rhaglenni tloidi tanwydd. Gwnaethom hefyd arsylwi ar Dasglu Tlodi Tanwydd Gwledig yr Alban. Mae'r tasglu, a sefydlwyd gan Lywodraeth yr Alban, yn gweithio i ddatblygu cyfres o gamau gweithredu er mwyn ei gwneud yn haws ac yn fwy fforddiadwy i'r sawl sy'n byw mewn ardaloedd gwledig ac anghysbell o'r Alban gadw eu cartrefi'n gynnes, a bwydo i ddatblygiad pellach polisi tloidi tanwydd a rhaglenni effeithlonrwydd ynni yn yr Alban.

Hefyd, buom yn cwrdd yn rheolaidd â swyddogion o Lywodraeth yr Alban i'w hysbysu am ein gwaith a chyfnwied gwybodaeth am faterion o ddiddordeb cyffredin. Un o themâu allweddol ein trafodaethau oedd datganoli rhagor o bwerau o dan Ddeddf yr Alban 2016, yn benodol ar eiriolaeth a chyngor defnyddwyr a'r broses o ddylunio cynlluniau cymdeithasol ac amgylcheddol a'u rhoi ar waith. Rydym yn dal i fod yn ymrwymedig i ddefnyddio ein harbenigedd er mwyn helpu i roi'r pwerau newydd hyn ar waith, lle y gallwn.

Gan adeiladu ar gysylltiadau presennol â'r gymuned academiaidd yn yr Alban, gwnaethom ymuno â'r Grŵp Cynghori ar gyfer y Ganolfan ar gyfer Polisi Ynni sydd newydd ei sefydlu ym Mhrifysgol Strathclyde, sydd â'r nod o lywio'r broses o ddylunio a chyflawni polisiau ar gynhyrchu ynni, cynaliadwyedd, diogelu cyflenwad ac effeithiau economaidd ac amgylcheddol polisiau ynni.

Ym mis Tachwedd 2015, cynhaliodd yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan ei ddigwyddiad blynyddol i randdeiliaid yn yr Alban yng Nghaeredin. Mae'n gyfle i'r Awdurdod wrando ar safbwyntiau uwch gynrychiolwyr yn yr Alban o Senedd yr Alban, y diwydiant, grwpiau defnyddwyr, busnes, sefydliadau amgylcheddol a'r byd academiaidd. Rydym yn ystyried sut y gallwn ehangu'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i ragor o randdeiliaid gwrdd ag aelodau o'r Awdurdod yn yr Alban.

Cymru

Amcan Ofgem yng Nghymru yw sicrhau bod ein rhanddeiliaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac yr ymgynghorir â hwy ar waith Ofgem a bod Ofgem yn deall datblygiadau allweddol yng ngwleidyddiaeth Cymru ac mewn polisiau ynni a defnyddwyr. Er mwyn gwneud hyn, rydym yn rhyngweithio'n rheolaidd â

llawer o randdeiliaid ynni, defnyddwyr, gwleidyddion a'r llywodraeth.

Rydym yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd bob dau fis â thrawstoriad o swyddogion Llywodraeth Cymru o adrannau perthnasol er mwyn trafod gwaith Ofgem, materion sydd o bwys mawr mewn perthynas ag ynni yng Nghymru, a phennu blaenoriaethau ar y cyd. O ganlyniad, mae rhywfaint o'n gwaith eleni wedi cynnwys cwrdd â Gweithredwyr Rhwydwaith Dosbarthu o Gymru a'r Llywodraeth Cymru er mwyn helpu i ddatrys problemau yn ymwneud â chapasiti grid yng Nghymru, a chreu partneriaeth er mwyn cyflwyno pum gweithdy ledled Cymru ar fodolau busnes anhraddodiadol newydd sy'n dod i'r amlwg.

Drwy gydol y flwyddyn, cawsom sawl cyfarfod briffio gyda rhanddeiliaid o bob cwr o Gymru er mwyn trafod materion ynni allweddol yng Nghymru a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am ein gwaith. Roedd hyn yn cynnwys cyfarfod â Cyfoeth Naturiol Cymru er mwyn trafod cynigion ar gyfer rheoleiddio materion manwerthu yn y dyfodol, rydym wedi ymgysylltu â Chyngor ar Bopeth Cymru ac NEA Cymru ar gynorthwyo defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus.

Rydym yn parhau i fod yn aelod o fforymau amrywiol sy'n gysylltiedig ag ynni fel arsylwyr, yn cynnwys Grŵp Darpariaeth Strategol Ynni Cymru a'i is-grŵp gorchwyl a gorffen ar Ddatblygu Economaidd Gwledig, yr ydym wedi bod yn ymchwilio i'r hyn sy'n atal ynni adnewyddadwy rhag datblygu mewn ardaloedd gwledig gydag ef. Rydym yn parhau i gefnogi Grŵp Trawsbleidiol Llywodraeth Cymru ar dlodi tanwydd, ac wedi gwneud sawl cyflwyniad i'r grŵp eleni ar faterion yn cynnwys ein strategaeth ar gyfer defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus, mesuryddion rhagdalau a chymau unioni i ddefnyddwyr. Rydym yn aelodau o Grŵp Technegol Byw'n Glyfar Llywodraeth Cymru sydd newydd gael ei ffurfio.

Buom yn gweithio'n agos gyda phwyllgor yr Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Cynulliad i gynorthwyo ei ymchwiliad i ddyfodol ynni mwy clyfar i Gymru, gan roi cyngor a thystiolaeth reoleiddiol a thechnegol.

Rydym wedi cynnal sawl digwyddiad ar gyfer ein rhanddeiliaid yn cynnwys:

- Digwyddiadau i roi cyhoeddusrwydd i'n hymgyrch Bydd yn Siopwr Ynni yng Nghymru, sy'n annog defnyddwyr i chwilio am y fargen orau ar gyfer



eu hynni. Rydym wedi datblygu deunyddiau yng Nghymru ar gyfer yr ymgyrch hon hefyd.

- Lansiwyd ein llyfryn 'E-serve yng Nghymru mewn rhifau' yn Adeilad y Pierhead ym mis Ionawr ac mae'n egluro'r niferoedd sydd wedi cofrestru ledled Cymru ar gyfer y cynlluniau amgylcheddol a weinyddir gennym.
- Rydym yn parhau â'n partneriaeth â Chyngor ar Bopeth Cymru ar y rhaglen Ynni - Y Fargen Orau a gwnaethom werthuso hyn mewn digwyddiad yn Nhŷ Hywel, a oedd yn cynnwys trafodaeth banel gyda gwleidyddion.
- Rydym hefyd wedi manteisio ar gyfleoedd i siarad mewn llawer o'n digwyddiadau i randdeiliaid yn cynnwys siarad â chynulleidfwrdd Fforwm Polisi ar gyfer Cymru ar seilwaith ynni ac effeithlonrwydd ynni. Rydym wedi siarad yn eang ar ynni cymunedol a modelau busnes anhraddodiadol â sefydliadau fel Tai Cymunedol Cymru, Ynni Cymunedol Cymru a gwnaethom hefyd gynnal panel yng Ngŵyl y Gelli i drafod beth yw barn defnyddwyr ynghylch tarddiad eu hynni.

Ym mis Mawrth, cynhaliwyd ein cyfarfod o'r Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan yng Nghaerdydd, yn dilyn digwyddiad gyda'r nos lle gwnaethom ddwyn ynghyd lawer o'n rhanddeiliaid allweddol o bob cwr o Gymru i drafod materion yn cynnwys heriau byd ynni sy'n newid yn gyflym, materion rhwydwaith a phroblemau difrifol a pharhaus tloedi tanwydd.

Cynllun Iaith Gymraeg

Rydym wedi mabwysiadu'r egwyddor, wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru, y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal, pan fydd yn briodol ac yn ymarferol gwneud hynny. Er mai ymdrin â grwpiau diwydiant a defnyddwyr y byddwn yn bennaf, rydym yn ymrwymedig i sicrhau bod siaradwyr Cymraeg yn cael yr un safonau uchel o wasanaeth â siaradwyr Saesneg wrth ohebu â ni. Rydym wedi cyhoeddi fersiwn iaith Gymraeg o'n Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon a fydd, ynghyd â'r fersiwn Saesneg, yn cael ei gyflwyno i'r Cynulliad, a bydd ar gael i'w lawrlwytho ar ein gwefan.

Eleni, gwnaethom gyflwyno tystiolaeth i Gomisiynydd y Gymraeg mewn ymateb i'r ymchwiliad ar Safonau'r Gymraeg, sy'n rhan statudol o'r broses o bennu safonau sy'n gymwys i Ofgem ac yn disodli ein cynllun iaith Gymraeg presennol. Gwnaethom hefyd sefydlu grŵp llywio iaith Gymraeg mewnol sy'n cynnwys aelodau o bob rhan o Ofgem.



Ystadegau Yr Alban

Ciplun o weithgarwch cynyddol o dan ynni adnewyddadwy, gwres adnewyddadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni hyd at ddiwedd Mawrth 2016*.

Tariff Cyflenwi Trydan**

506,028 **54,087**

capasiti osodedig (kW) o osodiadau



Gosodiadau TCT fel % o Brydain Fawr - 7.1%

Capasiti TCT fel % o Brydain Fawr - 11.5%

Cyfran capasiti osodedig Prydain Fawr yn yr Alban:

| | |
|------------------|-------|
| Treulio Anerobig | 4.1% |
| Ynni Dŵr | 81.1% |
| CHP micro | 5.6% |
| Ffotofoltäig | 5.9% |
| Gwynt | 39.0% |

Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy**



6,066 **415**
capasiti (MW) o osodiadau

| | |
|------------------------------|-------|
| Gosodiadau RhYA fel % o'r DU | 16.7% |
| Capasiti RhYA fel % o'r DU | 26.1% |
| Gwynt ar y Tir fel % o'r DU | 60.5% |
| Ynni Dŵr fel % o'r DU | 85.6% |

Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig

9,707 **180,638**
o osodiadau allbwn gwres MWh

| | Gosodiadau | Allbwn Gwres (MWh) |
|------------------------|------------|--------------------|
| Pwmp Gwres o'r Awyr | 4,546 | 37,869 |
| Biomass | 3,301 | 124,476 |
| Pwmp Gwres o'r Ddaear | 885 | 16,509 |
| Systemau Thermol Solar | 975 | 1,784 |



20%
o'r holl osodiadau CGA Domestig ym Mhrydain Fawr

Cynllun Gwres Fforddiadwy ECO

234,507 o fesurau wedi'u gosod

12% o'r holl fesurau wedi'u gosod

Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig

459,357 **2,663**
capasiti gosodedig (kW) o geisiadau wedi'u hachredu

18.6% o geisiadau ym Mhrydain Fawr

19.5% capasiti gosodedig ym Mhrydain Fawr

* Nid yw'r ciplun yn gofnod llawn o waith darparu E-serve yn yr Alban ac nad ydy, er enghraifft, yn cynnwys gwybodaeth ar gynllun y Gostyngiad Cartrefi Cynnes.

** Yn seiliedig ar ddata wedi'i lawr lwytho o'r Gofrestr Adnewyddadwy a CHP ar 27 Ebrill 2016.



Ystadegau Cymru

Ciplun o weithgarwch cynyddol o dan ynni adnewyddadwy, gwres adnewyddadwy a chynlluniau effeithlonrwydd ynni hyd at ddiwedd Mawrth 2016*.

Tariff Cyflenwi Trydan**

292,767 **50,187**

capasiti osodedig (kW) o osodiadau



Gosodiadau TCT fel % o Brydain Fawr - 6.6%

Capasiti TCT fel % o Brydain Fawr - 6.6%

Cyfran capasiti osodedig Prydain Fawr yng Nghymru:

| | |
|------------------|------|
| Treulio Anerobig | 2.9% |
| Ynni Dŵr | 7.6% |
| CHP micro | 3.8% |
| Ffotofoltäig | 6.4% |
| Gwynt | 9.2% |

Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy**



1,695 **158**
capasiti (MW) o osodiadau

| | |
|------------------------------|-------|
| Gosodiadau RhYA fel % o'r DU | 6.4% |
| Capasiti RhYA fel % o'r DU | 7.3% |
| Gwynt ar y Tir fel % o'r DU | 6.6% |
| Ynni Dŵr fel % o'r DU | 10.7% |

Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig

3,312

o osodiadau

58,037

allbwn gwres MWh

| | Gosodiadau | Allbwn Gwres (MWh) |
|------------------------|------------|--------------------|
| Pwmp Gwres o'r Awyr | 1,009 | 12,027 |
| Biomass | 1,005 | 34,735 |
| Pwmp Gwres o'r Ddaear | 625 | 9,692 |
| Systemau Thermol Solar | 673 | 1,584 |



7%

o'r holl osodiadau CGA Domestig ym Mhrydain Fawr

Cynllun Gwres Fforddiadwy ECO

101,584 o fesurau wedi'u gosod

5% o'r holl fesurau wedi'u gosod

Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig

196,931

capasiti gosodedig (kW)

1,395

o geisiadau wedi'u hachredu



o geisiadau ym Mhrydain Fawr



capasiti gosodedig ym Mhrydain Fawr

* Nid yw'r ciplun yn gofnod llawn o waith darparu E-serve yng Nghymru ac nad ydy, er enghraifft, yn cynnwys gwybodaeth ar gynllun y Gostyngiad Cartrefi Cynnes.
** Yn seiliedig ar ddata wedi'i lawr lwytho o'r Gofrestr Adnewyddadwy a CHP ar 27 Ebrill 2016.



Adroddiad Cynaliadwyedd

Ein hymagwedd tuag at gynaliadwyedd allanol

Rydym yn hyrwyddo cynaliadwyedd, ac mae hyn yn cynnwys lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr a chyfrannu at gyflawni datblygiad cynaliadwy tra'n dilyn canllawiau'r llywodraeth ar faterion cymdeithasol ac amgylcheddol.

Mae gan gwmnïau ynni rôl hanfodol yn y broses o drawsnewid i economi carbon isel. Mae ein gwaith yn hyrwyddo cynaliadwyedd yn cynnwys mentrau i wneud y canlynol:

- diogelu defnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus
- hyrwyddo dulliau o arbed ynni ac ymateb yn ôl y galw
- cefnogi gwelliannau ym mhob agwedd ar yr amgylchedd.

Mae targedau'r UE a'r DU ar gyfer rheoli allyriadau nwy tŷ gwydr a chynyddu ynni adnewyddadwy yn rhoi'r cyfeiriad polisi cyffredinol ar gyfer y sector ynni. Gan ddefnyddio hyn fel canllaw, rydym yn canolbwyntio ar yr heriau a wynebir gan y cwmnïau trawsyrru a dosbarthu a reoleiddir gennym.

Er enghraifft, fel rhan o'n cyfnodau rheoli prisiau RIIO, rydym yn cynnal Cystadlaethau Arloesi Rhwydwaith blynyddol, i fynd i'r afael â'r heriau y maent yn eu hwynebu wrth symud i economi carbon isel.

Mae hefyd yn hanfodol ein bod yn mynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd yn ein gwaith. Ein rôl yw sicrhau bod y sector ynni yn asesu'r risg a gyflwynir gan newid yn yr hinsawdd ac yn cymryd camau gweithredu yn unol â'r fframweithiau rheoleiddiol, polisiau a mentrau.

Mae cwmnïau yn cyflwyno adroddiadau ar eu cynnydd i ni, a gallwn asesu hyn yn erbyn ein hadnoddau a'n polisiau rheoleiddio. Mae'r adnoddau a'r polisiau hyn yn rhoi rhwymedigaethau cyfreithiol clir i gwmnïau ar ddiogelwch cyflenwad a dibynadwyedd (gyda hyblygrwydd o ran sut i gyflawni'r rhwymedigaethau hyn).

Gwnaethom hefyd adolygu rhwystrau posibl, ansicrwydd a rhyngddibyniaethau sy'n gysylltiedig ag addasu i'r newid yn yr hinsawdd, ac amlinellu mesurau er mwyn mynd i'r afael â hwy nawr ac yn y dyfodol.

Cynaliadwyedd mewnol

Rydym yn lleihau ein heffaith ar yr amgylchedd gymaint â phosibl. Rydym yn ddeiliaid ISO 14001 - y safon rheoli amgylcheddol - sy'n cwmpasu ein pencadlys yn Llundain a'n swyddfa yn Glasgow.

Eleni, rydym yn adnewyddu ein hardystiad Safon Driphlyg gan yr Ymddiriedolaeth Garbon. Mae hyn yn cydnabod y gostyngiadau a wnaed gennym yn ein dŵr, ein gwastraff a'n hól-troed carbon drwy lywodraethu, mesur a rheoli. Rydym wedi lleihau ein gwastraff 23% ers 2012, ac wedi lleihau ein hól-troed carbon 29% dros yr un cyfnod.


Mae Ymrwymïadau Gwyrddu'r Llywodraeth yn dylanwadu'n fawr ar ein targedau cynaliadwyedd. Canllawiau llywodraeth ganolog yw'r rhain ar sut y dylai adrannau leihau eu heffaith ar yr amgylchedd ac adrodd ar hynny.



Lleihau allyriadau nwy tŷ gwydr

Defnyddir Tystysgrifau Ynni i'w Harddangos i ddangos effeithlonrwydd ynni adeiladau cyhoeddus. Mae ein sgôr ar gyfer ein pencadlys yn Llundain wedi gwella'n ddramatig ers i'r tystysgrifau gael eu cyflwyno yn 2008. Bryd hynny, roeddem wedi ein gosod ym mand G, gyda sgôr o 165. Bellach, mae gennym sgôr o 59, sy'n golygu ein bod ym mand C. At ddiben cymharu, mae 100 yn nodweddiadol ar gyfer y math hwn o adeilad.

Tystysgrif Ynni i'w Harddangos 9 Millbank



Rydym wedi cyflawni hyn drwy wneud y canlynol

- gwella awtomiaeth yr adeilad
- gwella ein rheolaethau ar gyfer gwresogi ac oeri
- defnyddio prosesau oeri am ddim lle y bo'n bosibl
- monitro'r defnydd beunyddiol o ynni
- cywiro problemau'n gyflym
- gosod goleuadau mwy ynni-effeithlon
- cael gwared ar gyfarpar nad ydym yn ei ddefnyddio mwyach neu ei roi o'r neilltu.




Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi gwneud y canlynol:

- diweddarau ein system rheoli adeilad er mwyn rhoi rheolaeth fwy cywain i ni
- cynyddu nifer yr unedau delweddu pen desg rhithwir yn lle cyfrifiaduron pen desg hen ac aneffeithlon

- newid paramedrau gweithredu'r adeilad er mwyn gwella ein cwmpas tymheredd gorau

Mae newidiadau fel y rhain yn golygu bod ein carbon oherwydd defnydd o ynni wedi gostwng 1% yn ystod 2015-16.

Cyfanswm y carbon





Mae nifer y teithiau busnes a oedd yn bryder mawr y llynedd wedi gostwng mwy na 10%, diolch yn rhannol i gynnydd yn y defnydd o gyfleusterau fideo-gynadledda.

- Cafwyd gostyngiad o 33% mewn teithiau awyr pellter byr
- Cafwyd gostyngiad o 10% mewn teithiau awyr domestig
- Cafwyd cynnydd o 20% mewn teithiau rheilffordd

Cafwyd gostyngiad o 3.5% yng nghyfanswm ein carbon, o ran adeiladau a theithio

| Allyriadau nwyon tŷ gwyrdd | | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|---|--|------------|------------|------------|------------|------------|
| | (Y targed oedd gostyngiad o 25%) | 853 | 806 | 758 | 711 | 711 |
| | Cyfanswm yr allyriadau gros | 759 | 1,010 | 1,228 | 1,307 | 1,263 |
| | Y pen | 1.35 | 1.33 | 1.31 | 1.27 | 1.34 |
| Dangosyddion anariannol (tCO₂e) | Cyfanswm yr allyriadau net (h.y. llai gostyngiadau - e.e. tariffau gwyrdd) | 217 | 347 | 499 | 496 | 458 |
| | Cwmpas 1: allyriadau nwy tŷ gwyrdd uniongyrchol | 150 | 147 | 144 | 121 | 118 |
| | Cwmpas 2: allyriadau nwy tŷ gwyrdd anuniongyrchol ynni | 542 | 685 | 729 | 811 | 805 |
| | Cwmpas 3: allyriadau nwy tŷ gwyrdd anuniongyrchol eraill* | 67 | 178 | 355 | 375 | 339 |
| Data defnydd cysylltiedig (kWh) | Trydan: anadnewyddadwy (k) | - | 42 | - | - | - |
| | Trydan: adnewyddadwy (k) | 1,033 | 1,274 | 1,636 | 1,613 | 1,707 |
| | Nwy (k) | 816 | 795 | 783 | 656 | 640 |
| | Gwariant ar ynni | £140,556 | £185,177 | £244,291 | £233,375 | £275,616 |
| Dangosyddion ariannol | Gwariant ar drwydded Ymrwymiad i Leihau Carbon | £1,200 | £1,290 | £1,290 | £1,290 | £1,290 |
| | Gwariant ar deithiau busnes swyddogol | £140,905 | £296,684 | £491,551 | £772,248 | £661,581 |

* Mae Cwmpas 3 yn cwmpasu data teithio yn seiliedig ar deithiau a brynwyd drwy'r darparwr teithio cymeradwy; nid yw'n cynnwys teithiau a brynwyd o ffynonellau eraill.




Lleihau'r defnydd o ddŵr

Ein nod yw gostwng ein defnydd dwr blynyddol islaw 6m³ y pen. Mae hyn yn unol â'r meincnod Gwyrddu'r Llywodraeth.

Eleni cawsom ollyngiad yn ein tanc storio thermol 100,000 liter. Er mwyn trwsio'r gollyngiad, roedd angen draenio ac ail-lenwi'r tanc, a dyna pam roedd ein defnydd o ddŵr yn uwch na'r llynedd. Fodd bynnag, ers ei drwsio, mae ein defnydd misol o ddŵr wedi gostwng 7% o gymharu â'r 12 mis blaenorol.

Dŵr fesul aelod o staff




| Dŵr | | 2010-11 | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 |
|-------------------------|----------------------------------|---------|---------|---------|---------|---------|---------|
| Dangosyddion anariannol | Defnydd o ddŵr (m ³) | | | | | | |
| | Cyflenwyd | 4,509 | 5,462 | 6,639 | 8,609 | 7,553 | 8,359 |
| | Fesul gweithwyr CALI | 9.0 | 9.5 | 8.7 | 9.2 | 7.3 | 8.9 |
| Dangosyddion ariannol | Costau cyflenwi dŵr | £9,271 | £10,562 | £12,208 | £20,517 | £18,977 | £17,601 |



Dileu gwastraff

Am y chweched flwyddyn yn olynol, ni wnaethom anfon unrhyw wastraff i safleoedd tirlenwi. Mae ein lefelau ailgylchu wedi gwella hefyd, yn rhannol am fod staff yn didoli mwy o'u gwastraff i mewn i'r biniau cywir.

Dadansoddiad o gyfanswm y gwastraff



| Gwastraff | | 2011-12 | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 | 2015-16 | |
|--|-------------------------------------|-------------------------|--------------|-----------|-------------|-------------|----|
| | Targed | 76.5 | 72.25 | 68 | 63.8 | 63.8 | |
| | Cyfanswm y gwastraff | 107 | 98 | 114 | 102 | 106 | |
| | Cyfanswm y gwastraff fesul unigolyn | 0.19 | 0.13 | 0.12 | 0.10 | 0.11 | |
| Dangosyddion anariannol (tunelli) | Gwastraff peryglus | 6 | - | - | - | 1 | |
| | Safle tirlenwi | - | - | - | - | - | |
| | Gwastraff nad yw'n beryglus | Aildefnyddio/ ailgylchu | 76 | 65 | 93 | 81 | 79 |
| | | Llosgi/ ynni o wastraff | 25 | 33 | 21 | 23 | 17 |
| Dangosyddion ariannol | Cyfanswm y gost gwaredu | £20,862 | £32,022 | £23,592 | £24,477 | £21,985 | |

Dermot Nolan

Swyddog cyfrifyddu

13 Mehefin 2016

Adroddiad ar Atebolrwydd





Adroddiad ar Atebolrwydd

Adroddiad y Cyfarwyddwyr

Aelodau gweithredol yr Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn

Penodwyd Dermot Nolan, prif weithredwr, ym mis Chwefror 2014. Nid yw'n dal swydd cyfarwyddwr mewn unrhyw gwmni eraill.

Penodwyd Rachel Fletcher, uwch bartner, Defnyddwyr a Chystadleuaeth, ym mis Ionawr 2016. Nid yw'n dal swydd cyfarwyddwr mewn unrhyw gwmni arall

Gadawodd Sarah Harrison, uwch bartner, Datblygu Cynaliadwy, ym mis Gorffennaf 2015. Nid yw'n dal swydd cyfarwyddwr mewn unrhyw gwmni.

Penodwyd Dr Andrew Wright, uwch bartner, Systemau Ynni, ym mis Ionawr 2008. Mae'n aelod bwrdd cynghorol o Sefydliad Ynni Prifysgol Caerweir.

Aelodau anweithredol o'r Awdurdod a wasanaethodd yn ystod y flwyddyn

Ymunodd David Gray ym mis Hydref 2013 fel cadeirydd anweithredol. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2018. Mae'n gyfarwyddwr anweithredol yr Awdurdod Hedfan Sifil, ac yn un o Lywodraethwyr yr Ysgol Fale Ganolog.

Ymunodd Christine Farnish ym mis Ionawr 2016. Daw ei phenodiad i ben ym mis Ionawr 2021. Hi yw Cadeirydd Cymdeithas Gyllid Peer 2 Peer, mae'n gyfarwyddwr anweithredol i Ofwat, ABTA, Ymddiriedolaeth Ysbytai Athrofaol Brighton a Sussex, aelod o banel cynghori rhanddeiliaid AXA, ac yn gyfarwyddwr anweithredol ac yn gadeirydd Llais y Defnyddiwr.

Ymunodd yr Athro David Fisk CB ym mis Gorffennaf 2009. Cafodd ei ailbenodi ym mis Mehefin 2012 i wasanaethu tan fis Mehefin 2017. Ef yw Athro Cadeiriol Laing O'Rourke mewn Peirianneg Systemau yng Ngholeg Imperial, Prifysgol Llundain

ac mae'n aelod o Gyngor Sefydliad Siartredig y Peirianwyr Gwasanaethau Adeiladu.

Ymunodd yr Athro Paul Grout ym mis Hydref 2012. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2017. Ef yw'r Uwch Gyngorydd dros Gystadleuaeth ym Manc Lloegr.

Ymunodd Dr Nicola Hodson ym mis Mawrth 2015. Daw ei phenodiad i ben ym mis Chwefror 2020. Hi yw rheolwr cyffredinol Marchnata a Gweithrediadau yn Microsoft UK. Yn ogystal, mae'n aelod bwrdd yn Tech UK, ac yn aelod o gyngor City University.

Ymunodd Jim Keohane ym mis Ionawr 2009. Cafodd ei ailbenodi ym mis Rhagfyr 2012 a daw ei benodiad i ben ym mis Rhagfyr 2017. Ef yw cadeirydd Sefydliad y Theatr Frenhinol ac Awdurdod Harwich Haven, uwch gyfarwyddwr annibynnol Low Carbon Contracts Company, ac uwch gyfarwyddwr annibynnol Electricity Settlements Company.

Ymunodd Keith Lough ym mis Hydref 2012. Daw ei benodiad i ben ym mis Medi 2017. Mae'n un o gyfarwyddwyr anweithredol Rockhopper Exploration Ltd, un o gyfarwyddwyr anweithredol Rock Solid Images, un o gyfarwyddwyr anweithredol Papua Mining plc, Cairn Energy plc, a Gulf Keystone plc, ac yn o gyfarwyddwyr Stavanger Petroleum SA.

Ystyrir bod yr aelodau anweithredol yn annibynnol ar y rheolwyr ac maent yn fwyafrif o aelodau'r Awdurdod.

Buddiannau arwyddocaol eraill a ddelir gan aelodau'r Awdurdod

Mae Jim Keohane, Keith Lough, Andrew Wright a gŵr Nicola Hodson, gan eu bod wedi gweithio i gwmnïau ynni yn y gorffennol, yn aelodau o gynlluniau pensiwn eu cyn-gyflogwyr. Caiff y cynlluniau hyn eu gweinyddu yn unol â dyfarniadau'r Rheoleiddiwr Pensiynau ac maent ar wahân i fusnes y cwmnïau a reoleiddir.



Trefniadau archwilio

Mae'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol, a benodwyd o dan statud ac sy'n atebol i Senedd y DU, wedi archwilio'r cyfrifon adnoddau. Cost dybiannol archwilio'r cyfrifon adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth oedd £52,500 (2014–15: £52,500). Ni thalwyd unrhyw gydnabyddiaeth, gwirioneddol neu dybiannol, i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.

Mae'r swyddog cyfrifyddu wedi gwneud popeth y dylai ei wneud er mwyn sicrhau ei fod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac i gadarnhau bod ein harchwilwyr yn ymwybodol o'r wybodaeth honno. Nid yw'n ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad yw ein harchwilwyr yn cael mynediad ati.

Mae ein gwasanaeth archwilio mewnol yn mesur ac yn gwerthuso'n annibynnol pa mor ddigonol, dibynadwy ac effeithiol yw ein systemau rheoli a rheolaeth ariannol. Mae'n gwneud argymhellion ac yn rhoi adroddiad sicrwydd i'r swyddog cyfrifyddu bob blwyddyn. Rydym wedi gosod y swyddogaeth archwilio mewnol ar gontract allanol er mwyn sicrhau ein bod yn cael dadansoddiad ac argymhellion annibynnol a phroffesiynol. Ailbenodwyd Deloitte i'r rôl hon ar 1 Ebrill 2015, ar ôl tendr cystadleuol. Daw'r contract presennol i ben ar 30 Mehefin 2018.

Fel rhan o'n proses sicrwydd cyflawni prosiectau, rydym yn cael sicrwydd annibynnol ar wahân ar gamau allweddol prosiect. Rydym wedi gosod y gwasanaeth hwn ar gontract allanol naill ai i Deloitte neu gwmnïau eraill sydd ar gael drwy ein fframwaith caffael.

Cyllidebau a hylifedd

Mae Senedd y DU yn cymeradwyo ein cyllideb, ar ôl i ni ymgynghori â'r diwydiant a phartïon eraill â diddordeb. Ar gyfer 2015-16 cymeradwyodd Senedd y DU drwy'r Prif Amcangyfrif:

- cyllideb adnoddau gros o £89.500 miliwn
- cyllideb cyfalaf o £1.000 miliwn
- gofyniad arian parod net o £10.290 miliwn.

Caniatawyd i ni gynyddu ein gofyniad arian parod net £5.465 miliwn i £15.755 miliwn drwy amcangyfrif atodol er mwyn cwmpasu gofynion cyfalaf gweithio.



Cysoni rhwng yr amcangyfrif a'r gyllideb

| | 2015-16 £000 | 2014-15 £000 |
|-------------------------------------|-----------------|-----------------|
| Alldro adnoddau net (amcangyfrif) | 6,165 | 6,868 |
| Costau gweithredu net (cyfrifon) | 654 | 500 |
| Alldro cyllideb adnoddau (cyllideb) | 654 | 500 |
| O'r swm hwnnw: | | |
| Terfynau gwariant adrannol | 654 | 500 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | - | - |

Gellir priodoli'r gwahaniaeth rhwng yr amcangyfrif a'r alldro i ofyniad cyllidebu Trysorlys EM i drin ryddhau'r ffi drwydded ohiriedig o £5.0 miliwn a gadwn ar y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol fel cyllid drwy bleidlais yn hytrach nag incwm gweithredu. Yn ystod 2015-16 ni chafodd unrhyw ran o'r swm hwn ei ryddhau.

Hawliwyd blaendaliad o £20.0 miliwn o'r gronfa wrth gefn ym mis Ebrill 2015 er mwyn rhoi hylifedd byrdymor nes ein bod yn dechrau cael ffioedd trwydded. Ad-dalwyd y swm hwn yn llawn gennym ym mis Awst 2015.

Mae'r alldro gofyniad arian parod net o £9.600 miliwn yn is na'r amcangyfrif o'r gofyniad arian parod net o £15.755 miliwn. O'r gwahaniaeth o £25.355 miliwn, delir £22.837 miliwn ar adnau ar gyfer y Gyfundrefn Tendrau Trawsyrro ar y Môr. Byddwn yn defnyddio'r arian hwn ar ôl cwblhau'r cylchoedd tendro unigol.

Byddwn yn cadw'n ôl £25.355 miliwn a fydd yn daladwy i'r Gronfa Gyfunol ac yn ei ddefnyddio i ariannu gweithrediadau yn 2016-17, nes ein bod yn cael digon o incwm o ffioedd trwydded.

Cyllid a darpariaethau

Roedd cyfanswm y darpariaethau yn gwneud cyfanswm o £1.001 miliwn ar 31 Mawrth 2016. Rydym wedi darparu ar gyfer costau parhaus ymddeoliadau cynnar sydd wedi digwydd mewn blynyddoedd ariannol blaenorol.

Yn 2003, gosodwyd gwasanaethau archwilio a phrofi statudol ar gontract allanol i SGS UK Ltd (ein labordai yng Nghaerlŷr a oedd wedi darparu'r gwasanaethau hynny hyd yna). Mae rhai o gostau'r newid hwn, yn enwedig costau diswyddo a rhwymedigaethau

pensiwn parhaus, wedi cael eu trosglwyddo i ni. Bu'n rhaid i ni wneud darpariaethau yn 2003-04 sydd bellach yn gwneud cyfanswm o £0.193 miliwn.

Rydym wedi darparu £0.238 miliwn i gyd gan gynnwys darpariaeth Caerlŷr, er mwyn cwmpasu costau pensiynau i bobl sydd wedi ymddeol yn gynnar. Rydym hefyd wedi neilltuo £0.763 miliwn ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn nas ariannwyd ar gyfer cyn-brif weithredwr a chyn-gyfarwyddwr cyffredinol.

Dengys ein datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2016 ecwiti trethdalwyr negyddol sy'n cyfateb i £10.901 miliwn.

Gwella ein cadwyn gyflenwi

Caffael amgylcheddol

Mae ein tîm caffael yn gwneud y rhan fwyaf o benderfyniadau prynu yn seiliedig ar werth am arian. Fodd bynnag, lle y gallai contractau effeithio ar feysydd a gwmpesir gan ein polisi amgylcheddol (megis arlwy, glanhau neu wasanaethau adeiladu eraill) rydym hefyd yn sgorio tendrau drwy ddefnyddio meini prawf amgylcheddol sy'n seiliedig ar ein polisiau ISO 14001.

Ym mis Mawrth 2010 cawsom Ardystiad Safon Rhagoriaeth gan y Sefydliad Siartredig Prynu a Chyflenwi. Mae hwn yn achrediad byd-eang dros ragoriaeth ym maes caffael. Cawsom ein hailardystio ym mis Tachwedd 2013. Mae'r Safon yn cynnwys cyfeiriad bod Ofgem wedi cyrraedd lefel pump o'r fframwaith hyblyg sy'n nodi ein bod yn sefydliad 'arweiniol' mewn perthynas â chaffael cynaliadwy.



Talu credydwyr yn gyflymach

Rydym wedi ymrwmo i'r Cod Ymarfer Talu'n Well a sefydlwyd gan y Grŵp Ymarfer Talu'n Well, sef fforwm o aelodau'r gymuned fusnes a chynrychiolwyr y llywodraeth. Mae hyn yn golygu ein bod yn talu biliau o fewn 30 diwrnod (neu gyfnod arall y cytunwyd arno) i dderbyn nwyddau neu wasanaethau, neu anfoneb, p'un bynnag sydd hwyraf. Yn 2015-16 talwyd 99.53% o'r holl filiau na fu anghydfod yn eu cylch o fewn y terfynau amser hyn.

Yn 2008, heriodd y llywodraeth adrannau i dalu pob cyflenwr o fewn 10 diwrnod gwaith. Eleni, talwyd 91.59% o'r holl filiau na fu anghydfod yn eu cylch o fewn y terfynau amser hyn. Ar gyfer symiau sy'n ddyledus yn gytundebol ac sy'n cael eu hanfonebu erbyn 31 Mawrth 2016, nifer y diwrnodau pryniannau na thalwyd amdanynt yw 2.0.

Adroddiadau i'r Ombwdsmon Seneddol

Yn 2013 (y flwyddyn fwyaf diweddar y cyhoeddwyd data mewn perthynas â hi) nid oedd unrhyw gwynion am yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan wedi cael eu cyflwyno i'r Ombwdsmon Seneddol.

Dermot Nolan

Swyddog Cyfrifyddu

13 Mehefin 2016



Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu

O dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae Trysorlys EM wedi ein cyfarwyddo i baratoi, ar gyfer pob blwyddyn ariannol, gyfrifon adnoddau yn nodi'r adnoddau a gafwyd, a ddaliwyd neu a waredwyd yn ystod y flwyddyn a'n defnydd ohonynt yn ystod y flwyddyn. Paratoir y cyfrifon ar sail croniadau a rhaid iddynt roi darlun cywir a theg o sefyllfa Ofgem a'i halldro adnoddau net, adnoddau a gymhwyswyd, newidiadau yn ecwiti trethdalwyr a'r llifau arian parod ar gyfer y flwyddyn ariannol.

Wrth baratoi'r cyfrifon, mae'n ofynnol i'r swyddog cyfrifyddu gydymffurfio â gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth. Yn benodol, mae'n rhaid iddo wneud y canlynol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol

- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wriadau materol oddi wrth y cyfrifon
- paratoi'r cyfrifon ar sail busnes gweithredol.

Mae Trysorlys EM wedi dynodi'r prif weithredwr yn swyddog cyfrifyddu i ni. Mae cyfrifoldebau ein swyddog cyfrifyddu, gan gynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae'n atebol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu ein hasedau, wedi'u nodi yn Rheoli Arian Cyhoeddus, a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM.



Datganiad Ilywodraethu

Rydym yn cael eu cyfarwyddo a'n llywodraethu gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan, sy'n gwneud pob penderfyniad mawr ac sy'n pennu blaenoriaethau polisi. Mae'r Awdurdod yn cynnwys aelodau gweithredol ac anweithredol.

Pwy sy'n rhan o'r Awdurdod?

Sut y gwneir penodiadau

Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd yn penodi aelodau anweithredol yr Awdurdod ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd. Yn unol â'r weithdrefn hon, penododd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd Christine Farnish yn un o aelodau anweithredol yr Awdurdod am bum mlynedd yn weithredol o 22 Ionawr 2016. Fe'i penodwyd ar ôl proses agored a chystadleuol.

Trefnwyd sesiynau briffio a sefydlu i Christine cyn iddi ymgymryd â'i rôl newydd. Daeth Christine i'w chyfarfod cyntaf o'r Awdurdod ym mis Chwefror 2016.

Hefyd ar 22 Ionawr 2016, penododd yr Ysgrifennydd Gwladol Rachel Fletcher, uwch bartner yn is-adran Defnyddwyr a Chystadleuaeth Ofgem yn un o aelodau Gweithredol yr Awdurdod am gyfnod o saith mlynedd. Daeth Rachel i'w chyfarfod cyntaf o'r Awdurdod fel aelod gweithredol ym mis Chwefror 2016. Penodir aelodau gweithredol yr Awdurdod yn unol â Chod Rheoli'r Gwasanaeth Sifil. Maent yn dal eu swydd am gyhyd ag y byddant yn dal eu huwch swyddi yn Ofgem, yn amodol ar yr uchafswm cyfnodau swydd a nodir yn Nhrydydd Pecyn Ynni'r UE a'i reolau ynglŷn â phenodiadau i awdurdodau rheoleiddio cenedlaethol mewn aelod-wladwriaethau.

Dangosir manylion cydnabyddiaeth aelodau'r Awdurdod a'u trefniadau pensiwn yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth sy'n dechrau ar dudalen 54.

Sut mae'r Awdurdod yn gweithio

Mae'r Awdurdod yn cyfarfod yn ffurfiol 11 o weithiau y flwyddyn. Yn ogystal â hynny, mae aelodau'r Awdurdod hefyd yn mynychu sesiynau briffio anffurfiol rheolaidd i'w galluogi i adolygu materion sy'n datblygu ar lefel uchel a gwasanaethu ar bwyllgorau'r Awdurdod, y nodir manylion isod.

Yn 2015-16, adolygodd y cadeirydd berfformiad unigol aelodau'r Awdurdod unwaith eto, gan ystyried eu cyfraniadau i waith yr Awdurdod. Pennodd yr aelodau anweithredol eraill amcanion i'r cadeirydd ar ôl trafodaeth ag ef ac adolygwyd ei berfformiad yn erbyn yr amcanion hyn ganddynt.

Mae'r Awdurdod yn adolygu gweithgareddau, cynlluniau a pherfformiad ei bedwar prif is-adran reoleiddio yn erbyn ei amcanion strategol ar gylch bob pedwar mis, ac mae'n adolygu gweithgareddau a blaenoriaethau ei brif swyddogaethau cymorth bob chwe mis neu'n flynyddol. Caiff gweithgareddau a blaenoriaethau E-Serve eu hadolygu gan yr Awdurdod ar gylch bob chwe mis. O 2015-16, mae'r Awdurdod hefyd yn adolygu risgiau strategol Ofgem, hynny yw, y risgiau hynny sydd fwyaf arwyddocaol i strategaeth Ofgem, ddwywaith y flwyddyn.

Ym mis Rhagfyr 2014 cyhoeddwyd ein strategaeth gorfforaethol a Blaenraglen Waith ddrafft gysylltiedig ar gyfer 2015-16. Ar ôl ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid ar y Flaenraglen Waith cyhoeddwyd y Flaenraglen Waith derfynol ym mis Mawrth 2015. Mae'r Awdurdod yn adolygu ei raglen gyffredinol o waith yn y tymor canolig a'r tymor hwy bob chwe mis. Yn ogystal, mae'r Awdurdod hefyd yn gwneud penderfyniadau ar brif faterion rheoleiddio penodol nad ydynt wedi cael eu dirprwyo i bwyllgorau neu swyddogion gweithredol.

Rydym yn cyhoeddi cofnodion cyfarfodydd yr Awdurdod ar ein gwefan, ynghyd â chylch gorchwyl y pwyllgorau. Rydym hefyd yn paratoi agendâu dros dro ar gyfer prif gyfarfodydd yr Awdurdod. Mae'r cadeirydd a'r aelodau anweithredol eraill yn chwarae rhan lawn ym musnes yr Awdurdod. Buont yn bresennol yng nghyfarfodydd llawn yr Awdurdod a chyfarfodydd pwyllgorau fel a ganlyn:



| | Yr Awdurdod | Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg | Bwrdd E-Serve | Pwyllgor Cydnabyddiaeth | Pwyllgor Ewrop |
|--------------------|-------------|------------------------------------|---------------|-------------------------|----------------|
| David Gray | 11/11 | - | - | - | 4/4 |
| David Fisk | 11/11 | 4/4 | - | - | 3/4 |
| Paul Grout | 11/11 | 4/4 | - | 3/3 | - |
| Nicola Hodson | 10/11 | - | - | - | - |
| Christine Farnish* | 2/2 | - | - | - | - |
| Jim Keohane | 10/11 | - | 5/5 | 3/3 | 3/4 |
| Keith Lough | 11/11 | 4/4 | 5/5 | - | - |

*Penodwyd Christine Farnish ar 22 Ionawr 2016.

Cyfarfu'r Awdurdod yn yr Alban ym mis Tachwedd 2015, ac yng Nghymru ym mis Mawrth 2016, gan ddefnyddio'r ddau achlysur i gyfarfod â chynrychiolwyr gwleidyddol a rhanddeiliaid ynni lleol yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Cynhaliwyd cyfarfodydd â phartïon â diddordeb ar ôl rhai o'r prif gyfarfodydd, gan roi cyfle i'r Awdurdod drafod pynciau cyfoes â rhanddeiliaid.

Pa bwyllgorau sydd gan yr Awdurdod?

Mae strwythur corfforaethol yr Awdurdod – gyda chylch gorchwyl clir i bwyllgorau – yn parhau i roi sicrwydd i ni fod trefniadau llywodraethu cadarn drwy'r sefydliad cyfan.

Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg

Mae'r pwyllgor hwn yn cynghori'r Awdurdod a'r swyddog cyfrifyddu, lle y bo'n berthnasol iddynt, ar unrhyw beth sy'n effeithio ar ein hiechyd ariannol, adroddiadau ariannol, gonestrwydd, rheoleiddio neu reoli risg yn fwy cyffredinol a'r system lywodraethu. Mae'r pwyllgor hefyd yn edrych ar unrhyw agwedd ar y busnes a all effeithio ar yr amcanion strategol a gweithrediad effeithiol Ofgem.

Eleni, roedd gwaith y pwyllgor yn cynnwys:

- cael adroddiadau gan archwilywyr mewnol ac allanol

- cael adroddiadau ar ddiogelwch TG yn y sefydliad

Mae'r pwyllgor hefyd yn goruchwyllo ein trefniadau rheoli cost 3%–MPM. Cyfarfu bedair gwaith yn 2015-16, a chymerodd ran hefyd mewn sesiwn gweithdy ar reoli risg, ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r Awdurdod. Caiff y pwyllgor ei gadeirio gan Keith Lough, a'r aelodau eraill yw David Fisk a Paul Grout.

Pwyllgor y Bwrdd E-Serve

Mae'r pwyllgor hwn yn cynghori'r Awdurdod ar effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd E-Serve o ran cyflawni ei weithgareddau perthnasol. Yn benodol, mae'n adolygu ac yn gwneud argymhellion i'r Awdurdod ar strategaeth a chyllideb gyffredinol E-Serve, gweithgareddau newydd arwyddocaol i'w cyflawni gan E-Serve a newidiadau mawr i weithgareddau a gyflawnir eisoes. Mae'n rhoi sicrwydd i'r Awdurdod ynglŷn â pherfformiad y gweithgareddau hynny. Caiff ei gadeirio gan y prif weithredwr ac mae ei aelodau yn cynnwys rheolwr gyfarwyddwr E-Serve, cyfarwyddwyr anweithredol a chynrychiolydd o'r Adran Ynni a Newid Hinsawdd. Cyfarfu'r Bwrdd bum gwaith yn 2015-16.

Cadarnhaodd papur polisi Cyllideb 2016 y caiff swyddogaethau E-Serve eu gwahanu oddi wrth Ofgem fel rhan o ymdrechion y llywodraeth i symleiddio'r rheoleiddwyr economaidd. Nododd y ddogfen: "The Department of Energy and Climate Change (DECC) is committed to consolidating its delivery providers and will set out the future of



consumer-facing functions, including those currently undertaken by E-Serve." Dywedodd y llywodraeth y byddai hyn yn sicrhau y gallai Ofgem ganolbwyntio ar ei swyddogaethau craidd, sef rheoleiddio economaidd a hyrwyddo cystadleuaeth effeithiol yn y farchnad ynni.

Panel Penderfyniadau Gorfodi

Mae'r Panel Penderfyniadau Gorfodi wedi cael ei sefydlu i wneud penderfyniadau pwysig mewn achosion gorfodi a ymleddir ar ran yr Awdurdod. Mae aelodau'r panel yn arbenigwyr penodedig, sy'n sicrhau gwahaniad gweladwy rhwng swyddogaethau ymchwilio a gwneud penderfyniadau. Cadeirydd y panel yw John Swift CF. Mae aelodau'r panel hefyd yn cadeirio Pwyllgorau Setliadau Gorfodi (gweler yr adran nesaf).

Pwyllgorau Setliadau Gorfodi

Gellir sefydlu Pwyllgorau Setliadau Gorfodi i benderfynu a ddylid awdurdodi gweithdrefn setliad mewn perthynas ag ymchwiliad o dan Ddeddf Cystadleuaeth 1998 neu mewn perthynas ag achosion honedig o dorri'r gyfraith o dan adrannau amrywiol o Ddeddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989 a deddfwriaeth arall. Penodir pwyllgorau ar wahân ar gyfer pob achos ac maent yn cynnwys un aelod o'r panel fel cadeirydd ac aelod gweithredol o'r Awdurdod a enwebir gan gadeirydd yr Awdurdod. Gwnaeth Pwyllgor Setliadau benderfyniadau ar wyth achos yn 2015-16. Am ragor o fanylion am y panel, gweler tudalennau'r panel ar wefan Ofgem.

Pwyllgor Ewrop

Caiff y pwyllgor hwn ei gadeirio gan gadeirydd Ofgem ac mae'n cyfarfod bedair gwaith y flwyddyn fel arfer. Mae'n cynnwys cyfarwyddwyr anweithredol, yr uwch bartner dros Systemau Ynni a'r Partner, Marchnadoedd Cyfanwerthu. Mae gan uwch bartneriaid eraill wahoddiad sefydlog i fynychu a disgwylir iddynt wneud hynny pan fydd eitem o bwys penodol i'w his-adran yn cael ei thrafod.

Mae'r Pwyllgor yn cynghori'r Awdurdod ar ddatblygiadau ynni a rheoleiddiol allweddol yr UE, a sut y gellid hyrwyddo nodau ac amcanion

yr Awdurdod, fel rheoleiddiwr Prydain Fawr a'r Awdurdod Rheoleiddio Cenedlaethol.

Gan weithio'n agos gyda'r Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop a chyrff eraill, mae'r Arglwydd Mogg, cadeirydd blaenorol yr Awdurdod, wedi parhau i fod yn gynghorydd i'r Awdurdod ac wedi parhau i helpu i ddatblygu polisi rheoleiddio'r UE ar gyfer ynni. Mae hyn wedi cynnwys ei rolau fel llywydd Cyngor y Rheoleiddwyr Ynni Ewropeaidd a chadeirydd Asiantaeth yr UE dros Gydweithrediad Rheoleiddwyr Ynni. Mae hefyd yn gadeirydd Cydffederasiwn Rhyngwladol y Rheoleiddwyr Ynni. Mae'n ymgymryd â'r rolau hyn yn ei rhinwedd ei hun tan tua diwedd 2017. Mae'n parhau i weithredu fel cynghorydd ar yr UE i'n cadeirydd ac yn gynghorydd i Bwyllgor Ewrop.

Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'r pwyllgor hwn, a gadeirir gan Jim Keohane, yn ystyried cyflog a pherfformiad uwch aelodau o staff, a hefyd gynllunio olyniaeth. Am fanylion aelodau'r pwyllgor, ei rôl, a chyflog a hawliadau pensiwn uwch aelodau o staff, gweler yr adroddiad gydnabyddiaeth yn ddiweddarach yn yr adran hon.

Sut y caiff perfformiad yr Awdurdod ei fesur?

Fel y nodwyd y llynedd, daeth adolygiad o berfformiad ac effeithiolrwydd yr Awdurdod a gynhaliwyd gan ymgynghorydd arbenigol yn 2014-15 i'r casgliad bod Bwrdd yr Awdurdod yn gweithredu mewn ffordd iach, gydag aelodau anweithredol egniol a phwrpasol yn gwneud cyfraniadau amrywiol; perthynas dda a oedd yn cynnwys her a gwranddo rhwng aelodau gweithredol ac anweithredol; ac ymrwymiad clir gan y cadeirydd, y prif weithredwr a'r Bwrdd yn ei gyfanrwydd i welliant pellach. Ym mis Gorffennaf 2015 ac unwaith eto ym mis Rhagfyr 2015, adolygodd yr Awdurdod gynnydd o ran gweithredu'r newidiadau i ddulliau gweithio a argymhellwyd gan yr ymgynghorydd er mwyn gwella effeithlonrwydd ymhellach. Cytunwyd bod cynnydd da wedi cael ei wneud mewn sawl maes, gan gynnwys trefniadau ar gyfer cynllunio busnes y Bwrdd mewn ffordd fwy systemataidd ac adolygiad cyfnodol o ddatblygiadau posibl yn y marchnadoedd ynni yn y tymor hwy. Roedd angen



i feysydd eraill, megis gwella asesiad o effaith y Bwrdd drwy'r sefydliad cyfan, gael eu datblygu ymhellach. Nodwyd y dylai'r newidiadau ehangach i drefniadau llywodraethu yn Ofgem sy'n cael eu gweithredu fel rhan o'r Rhaglen Trawsnewid Strategol leihau faint o fusnes rheolaidd a ddaw i'r Bwrdd, gan roi mwy o gyfle iddo neilltuo amser i ystyried materion strategol.

Cytunwyd y byddai aelodau'r Awdurdod a'r uwch swyddogion gweithredol sy'n mynychu cyfarfodydd y Bwrdd yn rheolaidd yn cwblhau holiadur asesu ar effeithiolrwydd y Bwrdd yn ystod chwarter olaf 2015-16 ac y gofynnid i'r ymgynghorydd allanol a gynhaliodd adolygiad 2014-15 gynnal adolygiad dilynol yn ystod gaeaf 2016-17. Trafodwyd yr ymatebion i'r holiadur asesu mewn cyfarfod anffurfiol o aelodau'r Awdurdod ac uwch swyddogion gweithredol ym mis Mai 2016 a daethpwyd i'r casgliad bod effeithiolrwydd y Bwrdd yn foddhaol ar y cyfan. Ystyriwyd nifer o newidiadau posibl i ddulliau gweithio a chytunwyd y câi'r rhain eu hadolygu ymhellach mewn digwyddiad cwrdd i ffwrdd ym mis Gorffennaf 2016.

Yn olaf, parhaodd ein harchwilwyr mewnol i adolygu a chyflwyno adroddiadau ar faterion llywodraethu. Rydym wrthi'n gweithredu ar eu hargymhellion.

Y fframwaith llywodraethu gweithredol

Uwch Dîm Rheoli

Cyn mis Chwefror 2016, roedd yr Uwch Dîm Rheoli yn cefnogi'r prif weithredwr yn y gwaith o redeg Ofgem o ddydd i ddydd. Roedd yn cynnwys pob un o'r aelodau gweithredol a ddangosir yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth. Roedd yn cyfarfod yn wythnosol ac yn penderfynu ar bob peth a oedd yn ymwneud â rheoli ac adnoddau, yn ddarostyngedig i reolaeth gyffredinol yr Awdurdod.

Y Pwyllgor Gweithredol

Cyn mis Chwefror 2016, roedd y Pwyllgor Gweithredol yn gyfrifol am ystyried ac yn rhoi cyngor a chyfarwyddyd ar bob mater polisi. Roedd hefyd yn cynghori ar bapurau

cyn iddynt gael eu cyflwyno i'r Awdurdod. Roedd yn ceisio sicrhau bod ein polisiau yn gyson ac yn ystyriol o bob mater perthnasol. Roedd yn cynnwys pob un o'r aelodau gweithredol a ddangosir yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth ac yn cael ei gadeirio gan y prif weithredwr. Cyfarfyddai bob wythnos.

Y Fframwaith Llywodraethu newydd

Lansiwyd fframwaith llywodraethu gweithredol newydd ym mis Chwefror 2016, a ganolbwyntiodd ar arweinyddiaeth a strategaeth, prosesau gwneud penderfyniadau cyflymach o ansawdd uchel a sicrhau ein bod yn defnyddio ein hadnoddau yn effeithlon ac yn effeithiol er budd defnyddwyr.

Crëwyd pedwar bwrdd newydd yn lle'r Uwch Dîm Rheoli a chyfarfodydd y Pwyllgor Gweithredol. Mae pob bwrdd yn cyfarfod yn fisol:

Bwrdd Porth GEMA

Mae Bwrdd Porth GEMA yn gyfrifol am reoli'r agenda a chymeradwyo papurau ar gyfer sesiynau briffio dydd Mercher GEMA a chyfarfodydd dydd lau. Mae'r bwrdd hwn hefyd yn sicrhau y crefir yn briodol ar brosesau gwneud penderfyniadau yn y sefydliad. Caiff y bwrdd ei gadeirio gan y prif weithredwr.

Bwrdd Rheoleiddio a Pholisi

Mae'r Bwrdd Rheoleiddio a Pholisi yn cynorthwyo'r prif weithredwr yn y gwaith o bennu cyfeiriad polisi Ofgem ac mae'n gwneud penderfyniadau ar faterion sy'n ymwneud â safbwyntiau rheoleiddio, ac yn rhoi canllawiau ar faterion polisi ar gam cynnar.

Caiff y Bwrdd ei gadeirio gan yr uwch bartner ar gyfer Gwella Rheoleiddio.

Bwrdd Gweithrediadau

Mae'r Bwrdd Gweithrediadau yn cynorthwyo'r prif weithredwr yn y gwaith o reoli a rhedeg Ofgem yn effeithiol o ddydd i ddydd. Mae'r Bwrdd hwn yn ystyried pob mater gweithredol sy'n ymwneud â rheoli ac adnoddau gan gynnwys ein perfformiad gweithredol. Caiff ei gadeirio gan y prif swyddog gweithredol.



Bwrdd Strategaeth a Risg

Mae'r Bwrdd Strategaeth a Risg yn atebol am gyflawni'r strategaeth, ac ystyried y risgiau i sicrhau ein canlyniadau strategol. Y Bwrdd sydd â pherchenogaeth o'r Flaenraglen Waith, ac mae hefyd yn gyfrifol am gyllid prosiectau a rhaglenni, a weinyddir gan y Bwrdd Buddsoddi Portffolio (is-fwrdd y Bwrdd Strategaeth a Risg). Caiff y bwrdd ei gadeirio gan y prif weithredwr.

Pwyllgor Rheoli (E-Serve)

Mae'r pwyllgor hwn yn cefnogi'r gwaith o redeg uned fusnes E-Serve o ddydd i ddydd. Caiff ei gadeirio gan reolwr gyfarwyddwr E-Serve ac mae ei aelodau yn cynnwys pob pennaeth tîm E-Serve. Mae'n penderfynu ar bob peth sy'n ymwneud â rheoli ac adnoddau E-Serve, yn ddarostyngedig i reolaeth gyffredinol yr Awdurdod. Mae'n cyfarfod yn wythnosol, ac nid effeithiwyd arno gan y fframwaith llywodraethu newydd.

Pwyllgor Risg Gweithredol

Cefnogodd y pwyllgor hwn y prif weithredwr yn y gwaith o reoli risg yn effeithiol. Roedd yn cynnwys pob un o'r aelodau gweithredol a ddangosir yn yr adroddiad ar gydnabyddiaeth a phartner cyfreithiol yr is-adran Rhwydweithiau. Cyfarfu bob chwarter. O dan y fframwaith llywodraethu gweithredol newydd, mae'r pwyllgor yn rhan o'r Bwrdd Strategaeth a Risg o fis Mai 2016.

Y Fframwaith rheoli risg

Mae ein fframwaith rheoli risg yn amlinellu sut y dylid ymgorffori rheoli risg ym mhob rhan o Ofgem; sut rydym yn nodi, yn gweinyddu ac yn rheoli risgiau.

Mae'r fframwaith hwn yn disgrifio:

- pam bod rheoli risg yn bwysig
- y systemau sydd gennym i reoli risg
- sut rydym yn nodi, yn asesu ac yn rheoli risg
- sut mae ein hawydd i fentro yn bwysig i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i ddefnyddwyr

- manylion rolau a chyfrifoldebau sy'n gwneud yn siŵr ein bod yn rheoli risg yn effeithiol
- cysylltiadau ar gyfer cyngor a chanllawiau ar reoli risg.

Fel rhan o'r fframwaith rheoli risg, rydym wedi sicrhau bod rheoli risg yn rhan annatod o brosesau gwneud polisiau, cynllunio a chyflawni. Mae gan bob uwch aelod o staff rheoli amcan personol, sef ceisio rhoi'r strategaeth ar waith yn eu maes.

Mae partneriaid a chyfarwyddwyr yn gyfrifol am weithredu'r fframwaith a sicrhau bod pawb yn ymwybodol ohono. Gall pob aelod o staff weld y fframwaith ar ein mewnrwyd.

Rydym wedi pennu awydd i fentro a bennir yng nghyd-destun ein cenhadaeth i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i ddefnyddwyr ynni. Ni allwn weithredu heb gymryd risgiau, felly mae'r fframwaith hwn yn ein helpu i nodi a mesur y risgiau hyn mewn ffordd strwythuredig sy'n eu cysylltu â'n cenhadaeth a'n strategaeth.

Risg a rheoli

Yn ystod 2015-16, bu polisi ynni unwaith eto ar frig yr agenda wleidyddol ac agenda defnyddwyr. Mae defnyddwyr yn pryderu am godiadau yn eu biliau ynni, a hynny'n ddealladwy.

Er mwyn sicrhau bod ein holl waith yn canolbwyntio ar sicrhau canlyniadau gwell i ddefnyddwyr, cyhoeddwyd ein strategaeth ym mis Rhagfyr 2014. Ar ôl ymgynghoriad, cyhoeddwyd ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2015-16 ym mis Mawrth 2015. Ein cenhadaeth strategol yw gwneud gwahaniaeth cadarnhaol dros ddefnyddwyr ynni drwy reoleiddio annibynnol.

Dechreuodd ein Rhaglen Trawsnewid Strategol yn 2014 fel ein bod yn canolbwyntio ar ddatblygu gwaith Ofgem ac yn ymateb i bob her reoleiddiol yn llwyddiannus yn y dyfodol. Nod y rhaglen drawsnewid yw sicrhau bod gennym y bobl gywir, y prosesau cywir a'r dechnoleg gywir ar waith i gyflawni ein hamcanion yn llwyddiannus a'r ystythder i ymateb i heriau yn y dyfodol. Cwblhawyd yr ail gam, a'r cam terfynol, o'r rhaglen ym mis Medi 2015 ac rydym bellach yn gwneud gwaith dilynol er mwyn sicrhau bod newidiadau yn



gynaliadwy ac yn dod yn ffordd newydd o gynnal busnes a dderbynnir yn Ofgem ac adeiladu ar lwyddiannau'r rhaglen.

Byddwn yn canolbwyntio ar sicrhau gwell canlyniadau i ddefnyddwyr, gan gynnwys biliau is, llai o ddfrod amgylcheddol, gwell dibynadwyedd a diogelwch, gwasanaeth o ansawdd gwell a buddiannau i gymdeithas gyfan.

Rydym wedi rhannu'r gwaith a gynlluniwyd gennym yn chwe thema er mwyn dangos sut mae'n cyfrannu at chwe allbwn strategol ein trefniadau rheoleiddio annibynnol:

- rheoleiddio
- cystadleuaeth
- safonau
- partneriaethau
- hyder
- effeithlonrwydd

Ochr yn ochr â'r heriau hyn daw risgiau, ac rydym yn cydnabod ac yn croesawu dulliau rheoli risg fel ffordd o fynd i'r afael â hwy. Ein nod yw pennu gweithdrefnau rheoli risg synhwyrol ym mhob maes o'n gwaith. Mae rheolwyr yn ystyried bod rheoli risg yn rhan annatod o'u gwaith, ac mae'r Uwch Dîm Rheoli a'r Pwyllgor Rheoli (dros E-Serve) yn adolygu prif risgiau Ofgem yn barhaus. Mae'r Pwyllgor Rheoli wedi paratoi proffil prif risgiau i gwmpasu E-Serve.

Cod Llywodraethu Corfforaethol

Rydym yn cydnabod gwerth trefniadau corfforaethol da ac yn cydymffurfio ag egwyddorion y Cod Llywodraethu Corfforaethol ('Corporate governance in central government departments: code of good practice 2011').

Yr unig eithriad yw bod y Cod yn ei gwneud yn ofynnol i fyrddau gael eu cadeirio gan y gweinidog arweiniol. Fel un o adrannau anweinidogol y llywodraeth ac awdurdod rheoleiddio cenedlaethol annibynnol, gydag aelodau'r Awdurdod yn cael eu penodi gan yr Ysgrifennydd Gwladol, mae gan yr Awdurdod gadeirydd anweithredol yn lle hynny.

Ansawdd data

Mae'r Awdurdod yn cael amrywiaeth eang o ddata ariannol a data eraill, er mwyn hwyluso'r broses o oruchwylio perfformiad swyddogaethau'r Awdurdod a llywio ei benderfyniadau rheoleiddio. Mae'r bwrdd o'r farn bod y wybodaeth hon o ansawdd da yn gyffredinol, ond mae newidiadau yn cael eu gwneud i'r ffordd y cyflwynir gwybodaeth reoli fewnol, yn weithredol o ddechrau'r flwyddyn ariannol 2016-17, er mwyn ei gwneud yn fwy defnyddiol o ran monitro effeithlonrwydd y sefydliad i gyflawni ei amcanion strategol. Caiff y data a ddefnyddir i lywio penderfyniadau rheoleiddio eu hadolygu'n barhaus yn erbyn cefndir o newid parhaus yn y marchnadoedd perthnasol.

Digwyddiadau data personol

Mae gennym bolisi diogelwch data er mwyn cadw pob darn o wybodaeth swyddogol yn breifat ac yn ddiogel. Ni chofnodwyd unrhyw achosion o golli data personol yn 2015-16.

Adolygiad y swyddog cyfrifyddu o effeithiolrwydd

Fel y swyddog cyfrifyddu, rwyf yn gyfrifol am adolygu effeithiolrwydd ein system lywodraethu. Rwy'n seilio fy adolygiad ar waith yr archwilyr mewnol a'r rheolwyr gweithredol sy'n gyfrifol am ddatblygu a chynnal y system lywodraethu. Rwyf hefyd yn ystyried sylwadau'r archwilyr mewnol yn eu llythyr rheoli ac adroddiadau eraill. Mae'r Awdurdod a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg wedi dweud wrthyf am oblygiadau canlyniad fy adolygiad, ac mae cynllun yn bodoli i fynd i'r afael â'r gwendidau a welwn a sicrhau ein bod yn parhau i wella'r system.

Mewn adolygiadau archwilio mewnol a gynhaliwyd yn ystod 2015-16 ac mewn blynyddoedd blaenorol, gwnaeth ein harchwilyr mewnol 57 o argymhellion y disgwylid iddynt gael eu gweithredu cyn 31 Rhagfyr 2015. O'r rhain, erbyn mis Ionawr 2016, roedd cynnydd boddhaol wedi'i wneud gyda 39 o'r 57 o argymhellion naill ai wedi'u gweithredu neu wedi'u cwblhau i raddau helaeth, 15 o argymhellion eraill yn mynd rhagddynt, a thri argymhelliad lle mae rheolwyr wedi derbyn y risg.



Eleni, cymerwyd camau i fonitro a gwella ein system lywodraethu:

- Cytunodd y Pwyllgor Risg ar ein risgiau strategol
- Adolygwyd ein risgiau strategol gan yr Uwch Dîm Rheoli, y Pwyllgor Rheoli (dros E-Serve) a'r Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg
- Cyfarfu Grŵp Rheoli Risg a Thwyll E-Serve bob mis i ddechrau ar waith a oedd yn ymwneud ag atal a chanfod twyll a'i adolygu, a sicrhau ein bod yn rheoli achosion o dwyll a amheuir, cam-ddatgan neu wyngalchu arian yn briodol
- Adolygwyd rôl yr Awdurdod o ran rheoli risg strategol, gan gynnwys yr awydd i fentro
- Cyfarfu'r cyfarwyddwr cyllid a rheoli risg cyswllt yn rheolaidd ag uwch bartneriaid a rheolwyr gyfarwyddwyr yn unigol er mwyn adolygu adnoddau a chynnydd tuag at amcanion, a nodi a gwerthuso'r risgiau cysylltiedig
- Diweddarwyd ein datganiadau llywodraethu i'w gwneud yn ofynnol i bartneriaid a chyfarwyddwyr ystyried a chyflwyno adroddiadau ar bob agwedd ar reoli ariannol a rheoli risg a materion rheoli llywodraethu eraill yn eu maes
- Cynhaliwyd archwiliad mewnol o reoli risg yn Ofgem ym mis Ionawr 2016. Canfu'r adolygiad sicrwydd boddhaol
- Ym mis Ionawr 2016 cynhaliwyd ffug ymarfer rheoli argyfwng yr arsylwyd arno gan gwmni o ymgynghorwyr sy'n arbenigo mewn parhad busnes. Ystyriwyd bod ein hymateb yn hynod lwyddiannus o gymharu â sefydliadau cymheiriaid.

Ni chododd unrhyw broblemau sylweddol gyda'n system lywodraethu yn ystod y flwyddyn ariannol.

Dermot Nolan

Swyddog Cyfrifyddu

13 Mehefin 2016



Adroddiad ar Gydnabyddiaeth a Staff

Pwyllgor Cydnabyddiaeth

Mae'r pwyllgor hwn yn cynnwys aelodau anweithredol yr Awdurdod a benodir drwy benderfyniad cyffredin yr Awdurdod. Caiff y pwyllgor ei gadeirio gan Jim Keohane. Yr aelodau eraill yw Paul Grout a (o fis Mawrth 2016) a Christine Farnish. Mae'r prif weithredwr yn bresennol fel arsylwr.

Rôl y pwyllgor yw adolygu a chymeradwyo'r dyfarniad cyflog blynyddol a lefel unrhyw fonws i aelodau'r Uwch Dîm Rheoli. Mae hefyd yn ystyried materion eraill sy'n ymwneud â chyflog a pherfformiad uwch aelodau o staff Ofgem. Dyfernir cyflog a bonysau ar sail perfformiad o fewn y terfynau a bennwyd gan Swyddfa'r Cabinet ar gyfer yr Uwch Wasanaeth Sifil yn sgîl argymhellion gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Mae'r pwyllgor hefyd yn adolygu gwaith cynllunio olyniaeth.

Polisi Cydnabyddiaeth

Nodir cydnabyddiaeth uwch aelodau yn eu contractau a chaiff ei hadolygu'n flynyddol yn unol â'r dyfarniadau a argymhellir gan y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Ar wahân i'r cadeirydd, mae pob un o'n huwch aelodau yn aelodau parhaol o staff. Nid oes gan yr un ohonynt gyfnod rhybudd sy'n hwy na chwe mis.

Gwneir trefniadau i derfynu penodiad uwch aelodau yn gynnar yn unol â chontract gwasanaeth yr unigolyn. Mae pob contract yn rhoi tâl yn lle rhybudd os caiff penodiad ei derfynu'n gynnar yn seiliedig ar ddarpariaethau Cynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil.

Mae pob aelod gweithredol yn gymwys i fod yn rhan o gynllun bonws sy'n unol ag argymhellion y Corff Adolygu Cyflogau Uwch. Mae'r bonws yn seiliedig ar berfformiad yr unigolyn. Mae taliadau bonws yn rhai ar wahân i gyflog ac nid ydynt yn bensiynadwy.

Yn ystod 2016-17 rydym yn ystyried dichonoldeb cyflwyno darpariaeth i adfachu bonysau lefel uwch yn y dyfodol.

Contractau gwasanaeth

Mae Deddf Diwygio a Llywodraethu Cyfansoddiadol 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i benodiadau'r gwasanaeth sifil gael eu gwneud ar sail teilyngdod ac ar sail cystadleuaeth deg ac agored. Mae'r egwyddorion recriwtio a gyhoeddir gan Gomisiwn y Gwasanaeth Sifil yn nodi pryd y gellir gwneud penodiadau fel arall.

Oni nodir fel arall, mae'r swyddogion a gwmpesir yn yr adroddiad hwn yn dal penodiadau sy'n ben agored. Byddai terfynu penodiad yn gynnar, ac eithrio o ganlyniad i gamymddwyn, yn arwain at roi iawndal i'r unigolyn fel y nodir yng Nghynllun lawndal y Gwasanaeth Sifil.

Ceir rhagor o wybodaeth am waith Comisiwn y Gwasanaeth Sifil yn www.civilservicecommission.org.uk.

Cydnabyddiaeth (gan gynnwys cyflog) a hawliadau pensiwn

Mae'r wybodaeth yn y tablau canlynol wedi cael eu harchwilio gan archwilwyr allanol.

Dangosir cyflog aelodau lefel uchaf Ofgem (nad yw pob un ohonynt yn aelod o'r Awdurdod), eu taliadau bonws a gwerth unrhyw fuddiannau trethadwy mewn da iddynt yn 2015-16 yn y tabl gyferbyn.



Un cyfanswm ar gyfer cydnabyddiaeth

| | Cyflog (£000) | | Taliadau bonws (£000) | | Buddiannau mewn da (i'r £100 agosaf) | | Buddiannau pensiwn (i'r £1,000 agosaf)‡ | | Cyfanswm (£000) | |
|---|---------------|-----------|-----------------------|---------|--------------------------------------|---------|---|---------|-----------------|---------|
| | 2015-16 | 2014-15 | 2015-16 | 2014-15 | 2015-16 | 2014-15 | 2015-16 | 2014-15 | 2015-16 | 2014-15 |
| Uwch aelodau gweithredol Ofgem | | | | | | | | | | |
| Dermot Nolan Prif weithredwr | 190-195 | 185-190 | 15-20 | - | - | - | 32,000 | 29,000 | 235-240 | 215-220 |
| Martin Crouch Uwch bartner (o fis Mai 2014**) | 135-140 | 125-130** | - | 10-15 | - | - | 85,000 | 39,000 | 220-225 | 175-180 |
| Rachel Fletcher Uwch bartner | 140-145 | 130-135 | - | - | - | - | 69,000 | 80,000 | 205-210 | 210-215 |
| Maxine Frerk Uwch bartner dros dro (o fis Mehefin 2014***) | 125-130 | 100-105** | - | 10-15 | - | - | 46,000 | 26,000 | 170-175 | 135-140 |
| David Gillies Prif swyddog gweithredu dros dro (o fis Ionawr 2016***) | 25-30* | - | - | - | - | - | 8,000 | - | 30-35 | - |
| Sarah Harrison Uwch bartner (hyd at fis Gorffennaf 2015***) | 45-50* | 140-145 | 15-20 | 15-20 | - | - | 30,000 | 50,000 | 90-95 | 205-210 |
| Anthony Pygram Uwch bartner dros dro (rhwng mis Gorffennaf 2015 a mis Rhagfyr 2015***) | 60-65* | - | - | - | - | - | 40,000 | - | 100-105 | - |
| Dr Andrew Wright Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp (hyd at fis Rhagfyr 2015), Uwch bartner (o fis Ionawr 2016) | 185-190 | 185-190 | - | 15-20 | - | - | 71,000 | 68,000 | 255-260 | 265-270 |
| Uwch aelodau gweithredol E-Serve Ofgem | | | | | | | | | | |
| Chris Poulton Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro (o fis Rhagfyr 2014***) | 130-135 | 45-50** | 10-15 | - | - | - | 16,000 | 5,000 | 160-165 | 50-55 |
| Aelodau anweithredol yr Awdurdod | | | | | | | | | | |
| David Gray Cadeirydd | 160-165 | 160-165 | - | - | - | - | - | - | 160-165 | 160-165 |

* Cyflog sylfaenol cyfatebol blynyddol (heb gynnwys tâl ar sail perfformiad):

David Gillies: 105-110
Sarah Harrison: 140-145
Anthony Pygram: 125-130

** Cyflog sylfaenol cyfatebol blynyddol (heb gynnwys tâl ar sail perfformiad):

Martin Crouch: 125-130
Maxine Frerk: 120-125
Chris Poulton: 125-130



*** cydnabyddiaeth yn ystod y cyfnod pan oeddent yn aelod o'r uwch dîm rheoli.

‡ Cyfrifir gwerth buddiannau pensiwn a gronwyd yn ystod y flwyddyn fel y cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn wedi'i luosi ag 20, llai'r cyfraniadau a wnaed

gan yr unigolyn. Nid yw'r cynnydd gwirioneddol yn cynnwys unrhyw gynnydd neu leihad o ganlyniad i drosglwyddo hawliau pensiwn.

| Aelodau anweithredol eraill yr Awdurdod a dalwyd | 2015-16 | | 2014-15 | |
|--|------------|--------|------------|--------|
| | Honorariwm | Lwfans | Honorariwm | Lwfans |
| Christine Farnish (o fis Ionawr 2016) | £3,333* | - | - | - |
| David Fisk | £25,000 | - | £25,000 | - |
| Paul Grout | £20,000 | £2,081 | £20,000 | £3,000 |
| Nicola Hodson (o fis Mawrth 2015) | £20,000 | - | £1,667 | - |
| John Howard (tan fis Ebrill 2015)** | - | - | £25,000 | - |
| Jim Keohane | £25,000 | £3,000 | £25,000 | £3,000 |
| Keith Lough | £20,000 | £3,000 | £20,000 | £3,000 |

* Swm cyfatebol blynyddol £20,000

**Ni chafodd John Howard unrhyw gydnabyddiaeth yn ystod mis Ebrill 2015

Mae penodiadau aelodau anweithredol am gyfnod penodol, am hyd at bum mlynedd fel arfer. Nid yw'r penodiadau hyn yn adnewyddadwy. Ceir gwybodaeth am ddyddiadau penodi ar dudalen 40. Yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ynni a Newid Hinsawdd sy'n pennu cydnabyddiaeth ac yn gwneud penodiadau, ar ôl ymgynghori â'r cadeirydd. Telir cydnabyddiaeth iddynt ar ffurf honorariwm ynghyd â lwfans ychwanegol am gadeirio unrhyw un o bwyllgorau'r Awdurdod. Nid oes ganddynt yr hawl i gael tâl ar sail perfformiad na phensiwn. Telir iawndal am derfynu penodiad yn gynnar yn ôl disgrisiwn yr Ysgrifennydd Gwladol. Dechreuodd penodiad cadeirydd anweithredol yr Awdurdod, David Gray ar 1 Hydref 2013 a bydd yn para am bum mlynedd.

Yn ogystal â honoraria, sydd wedi'u cynnwys mewn cyflogau, caiff cyfarwyddwyr anweithredol hawlio treuliau gwirioneddol, os rhoddir tystiolaeth ar ffurf derbynebaw. Cyhoeddir y treuliau a hawlr gan ein huwch aelodau a'n cyfarwyddwyr anweithredol ar ein gwefan (www.ofgem.gov.uk).

Cyflog

Mae "cyflog" yn cynnwys cyflog gros ac unrhyw lwfans arall i'r graddau y mae'n drethadwy yn y DU.

Bonysau

Mae bonysau yn seiliedig ar lefelau perfformiad a chânt eu rhoi fel rhan o'r broses arfarnu. Mae'r bonysau a

gofnodwyd yn 2015-16 yn ymwneud â pherfformiad yn 2014-15. Mae'r bonysau a gofnodwyd ar gyfer 2014-15 yn ymwneud â pherfformiad yn 2013-14.

Lluosrifau cyflog

Mae'n ofynnol i gyrff adrodd ddatgelu'r gydberthynas rhwng cydnabyddiaeth y cyfarwyddwr sy'n cael y cyflog uchaf yn eu sefydliad a chydabyddiaeth ganolrifol gweithlu'r sefydliad.

Cydnabyddiaeth wedi'i bandio ar gyfer y cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf yn 2015-16 oedd £205,000-£210,000 (2014-15: £200,000-205,000). Roedd hyn 5.21 gwaith (2014-15: 5.28) yn fwy na chydabyddiaeth ganolrifol y gweithlu, sef £39,701 (2014-15: £38,001).

Yn 2015-16 ni chafodd dim (2014-15: dim) cyflogwyr gydnabyddiaeth yn fwy na'r cyfarwyddwr a gafodd y cyflog uchaf. Roedd cydnabyddiaeth yn amrywio o £8,840 i £206,900 (2014-15: £8,840 i £200,486).

Mae cyfanswm y gydnabyddiaeth yn cynnwys cyflog, cyflog yn gysylltiedig â pherfformiad anghyfunol a buddiannau mewn da. Nid yw'n cynnwys taliadau diswyddo, cyfraniadau pensiwn y cyflogwr na gwerth trosglwyddo pensiynau sy'n gyfwerth ag arian parod.

Lleihaodd nifer gyfartalog y staff a gyflogwyd yn barhaol yn 2015-16. Mae'r lleihad yn y lluosrif cyflog yn adlewyrchu'r ffaith bod y lleihad hwn i'w weld ymhlith staff ar y graddau isaf yn bennaf, gan arwain at gydnabyddiaeth ganolrifol uwch o gymharu â 2014-15.



| | Cynnydd gwirioneddol mewn pensiwn a chyfundaliad cysylltiedig yn 60 oed. | Pensiwn cronedig yn 60 oed ar 31 Mawrth 2016 a chyfundaliad cysylltiedig | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2016 | Gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod ar 31 Mawrth 2015 | Cynnydd gwirioneddol mewn gwerth trosglwyddo sy'n gyfwerth ag arian parod | Cyfraniad cyflogwr i gyfrif pensiwn partneriaeth |
|--|--|--|---|---|---|--|
| Buddiannau pensiwn | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £100 agosaf |
| Uwch aelodau gweithredol Ofgem | | | | | | |
| Dermot Nolan Prif weithredwr | - | - | - | - | - | 31,900 |
| Martin Crouch Uwch bartner (o fis Mai 2014) | 2.5-5.0 | 30-35 | 415 | 330 | 42 | - |
| Rachel Fletcher Uwch bartner | 2.5-5.0 | 20-25 | 409 | 319 | 55 | - |
| Maxine Frerk Uwch bartner dros dro (o fis Mehefin 2014) | 0-2.5 a chyfundaliad 5.0-7.5 | 20-25 a chyfundaliad 60-65 | 432 | 358 | 42 | - |
| David Gillies Prif swyddog gweithredu dros dro (o fis Ionawr 2016) | 0-2.5 | 15-20 | 345 | 327 | 7 | - |
| Sarah Harrison Uwch bartner (hyd at fis Gorffennaf 2015) | 0-2.5 | 35-40 | 575 | 540 | 22 | - |
| Anthony Pygram Uwch bartner dros dro (rh-wng mis Gorffennaf 2015 a mis Rhagfyr 2015) | 0-2.5 a chyfundaliad 5.0-7.5 | 30-35 a chyfundaliad 90-95 | 587 | 533 | 30 | - |
| Dr Andrew Wright Cyfarwyddwr Cyllid Grŵp (hyd at fis Rhagfyr 2015), Uwch bartner (o fis Ionawr 2016) | 2.5-5.0 | 35-40 | 500 | 412 | 27 | - |
| Uwch aelodau gweithredol E-Serve Ofgem | | | | | | |
| Chris Poulton Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro (o fis Rhagfyr 2014) | - | - | - | - | - | 16,000 |

Pensiynau'r Gwasanaeth Sifil

Darperir buddiannau pensiwn drwy drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. O 1 Ebrill 2015 cyflwynwyd cynllun pensiwn newydd ar gyfer gweision sifil – Cynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill neu alpha, sy'n rhoi buddiannau ar sail cyfartaledd gyrfa gydag oedran pensiwn arferol sy'n cyfateb i Oedran Pensiwn y Wladwriaeth yr aelod (neu 65 os yw'n uwch). O'r dyddiad hwnnw ymunodd

bron bob gwas sifil newydd ei benodi a'r rhan fwyaf o'r rhai a oedd eisoes yn weision sifil ag alpha. Cyn y dyddiad hwnnw, bu gweision sifil yn rhan o Brif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS). Mae i PCSPS bedair adran: tair yn rhoi buddiannau ar sail cyflog terfynol (classic, premium neu classic plus) gydag oedran pensiwn arferol o 60 oed; ac un yn rhoi buddiannau ar sail gyrfa gyfan (nuvos) gydag oedran pensiwn arferol o 65 oed.



Ni chaiff y trefniadau statudol hyn eu hariannu a chaiff costau'r buddiannau eu talu gan arian a bleidleisir gan y Senedd bob blwyddyn. Caiff pensiynau sy'n daladwy o dan y cynlluniau classic, premium, classic plus, nuvos ac alpha eu cynyddu'n flynyddol yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Arhosodd unigolion a oedd eisoes yn aelodau o'r PCSPS a oedd o fewn 10 mlynedd i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn y PCSPS ar ôl 1 Ebrill 2015. Bydd y rhai sydd rhwng 10 mlynedd a 13 mlynedd a 5 mis i'w hoedran pensiwn arferol ar 1 Ebrill 2012 yn newid i alpha rywbrdy rhwng 1 Mehefin 2015 ac 1 Chwefror 2022. Mae buddiannau PCSPS pob aelod sy'n newid i alpha wedi'u 'bancio', gyda'r rhai sydd â buddiannau cynharach yn un o adrannau cyflog terfynol y PCSPS yn cael eu buddiannau yn seiliedig ar eu cyflog terfynol pan fyddant yn gadael alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha yn briodol. Pan fydd gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun ei fuddiannau yn y ddau gynllun). Gall aelodau sy'n ymuno o fis Hydref 2002 ddewis naill ai'r trefniant buddiannau diffiniedig priodol neu bensiwn rhanddeiliaid 'prynu arian' sy'n cynnwys cyfraniad gan y cyflogwr (cyfrif pensiwn partneriaeth).

Mae cyfraniadau cyflogeion yn seiliedig ar gyflog ac yn amrywio rhwng 3% ac 8.05% o enillion pensiynadwy i aelodau o classic (ac aelodau o alpha a fu'n aelodau o classic yn union cyn ymuno ag alpha) a rhwng 4.6% ac 8.05% i aelodau premium, classic plus, nuvos a phob aelod arall o alpha. Mae buddiannau classic yn cronni ar gyfradd o 1/80fed o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth. Yn ogystal, telir cyfandaliad sy'n gyfwerth â thair blynedd o bensiwn cychwynnol adeg ymddeol. Mae buddiannau'n cronni ar gyfradd o 1/60ain o enillion pensiynadwy terfynol ar gyfer pob blwyddyn o wasanaeth ar gyfer premium. Yn wahanol i'r cynllun classic, ni cheir unrhyw gyfandaliad awtomatig. Yn ei hanfod, mae'r cynllun classic plus yn gynllun hybrid â buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth cyn 1 Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo'n fras fel y cynllun classic a buddiannau mewn perthynas â gwasanaeth o fis Hydref 2002 yn cael eu cyfrifo fel y cynllun premium. Bydd aelod o gynllun nuvos yn cronni pensiwn yn seiliedig ar ei enillion pensiynadwy yn ystod y cyfnod y mae'n aelod o'r cynllun. Ar ddiwedd blwyddyn y cynllun (31 Mawrth) credydir cyfrif pensiwn a enillwyd yr aelod â 2.3% o'i enillion pensiynadwy yn y flwyddyn honno a chaiff y pensiwn croniedig ei uwchraddio yn unol â deddfwriaeth y Cynnydd mewn Pensiynau. Mae buddiannau yn y cynllun alpha yn

cronni mewn ffordd debyg i nuvos, ac eithrio'r ffaith y ceir cyfradd gronni o 2.32%. Ym mhob achos, gall aelodau ddewis rhoi rhan o'u pensiwn heibio (gohirio) i ddarparu cyfandaliad hyd at y terfynau a bennir gan Ddeddf Cyllid 2004.

Trefniant pensiwn rhanddeiliaid yw'r cyfrif pensiwn partneriaeth. Mae'r cyflogwr yn talu cyfraniad sylfaenol rhwng 3% a 12.5% hyd at 30 Medi 2015 ac 8% a 14.75% o 1 Hydref 2015 (yn dibynnu ar oedran yr aelod) i mewn i gynnyrch pensiwn rhanddeiliaid a ddewisir gan y cyflogai o banel o dri darparwr. Nid oes angen i'r cyflogai gyfrannu ond os bydd yn gwneud cyfraniadau, telir cyfraniad cyfatebol gan y cyflogwr hyd at derfyn o 3% o gyflog pensiynadwy (yn ychwanegol at gyfraniad sylfaenol y cyflogwr). Mae'r cyflogwyr hefyd yn cyfrannu 0.8% cant ychwanegol o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015 i dalu cost yswiriant buddiant risg a ddarperir yn ganolog (marwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeol oherwydd salwch).

Y pensiwn croniedig a nodir yw'r pensiwn y mae gan yr aelod hawl i'w gael pan fydd yn cyrraedd oedran pensiwn, neu'n syth ar ôl iddo orffen bod yn aelod gweithredol o'r cynllun os yw eisoes wedi cyrraedd oedran pensiwn neu'n hŷn na hynny. Chwe deg oed yw'r oedran pensiwn ar gyfer aelodau classic, premium a classic plus, 65 oed ar gyfer aelodau nuvos, a 65 neu Oedran Pensiwn y Wladwriaeth, p'un bynnag sydd uchaf, i aelodau alpha. (Mae'r ffigurau pensiwn a ddyfynnwyd ar gyfer swyddogion yn dangos bod pensiwn a enillwyd yn PCSPS neu alpha yn briodol. Lle mae gan y swyddog fuddiannau yn y PCSPS ac alpha, y ffigur a ddyfynnwyd yw gwerth cyfun eu buddiannau yn y ddau gynllun ond noder y gall rhan o'r pensiwn hwnnw fod yn daladwy o wahanol oeddrannau).

Ceir rhagor o fanylion am drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil ar y wefan www.civilservicepensionscheme.org.uk

Gwerthoedd Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod

Gwerth Trosglwyddo sy'n Gyfwerth ag Arian Parod (CETV) yw'r gwerth wedi'i gyfalafu a aseswyd yn actiwaraid o fuddiannau'r cynllun pensiwn sydd wedi'u cronni gan aelod ar adeg benodol. Y buddiannau a gaiff eu prisio yw buddiannau croniedig yr aelod ac unrhyw bensiwn amodol priod sy'n daladwy o'r cynllun. Mae CETV yn daliad a wneir gan gynllun neu drefniant pensiwn er mwyn diogelu



buddiannau pensiwn cynllun neu drefniant pensiwn arall pan fydd yr aelod yn gadael cynllun ac yn penderfynu trosglwyddo'r buddiannau a gronnwyd yn ei hen gynllun. Mae'r ffigurau pensiwn a ddangosir yn ymwneud â'r buddiannau a gronnwyd gan yr unigolyn o ganlyniad i'w aelodaeth lawn o'r cynllun pensiwn, nid dim ond ei wasanaeth mewn swydd ar lefel uwch y mae datgeliad yn gymwys iddo.

Mae'r ffigurau yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiant pensiwn mewn cynllun neu drefniant arall y mae'r aelod wedi'i drosglwyddo i drefniadau pensiwn y Gwasanaeth Sifil. Maent hefyd yn cynnwys unrhyw fuddiant pensiwn ychwanegol sydd wedi'i gronni i'r aelod o ganlyniad i brynu buddiannau pensiwn ychwanegol ar ei draul ei hun. Cyfrifir CETVs yn unol â Rheoliadau Cynlluniau Pensiwn Galwedigaethol (Gwerthoedd Trosglwyddo) 2008 ac nid ydynt yn ystyried unrhyw leihad gwirioneddol neu bosibl mewn buddiannau sy'n deillio o Dreth Lwfans Oes a all fod yn ddyledus pan fydd buddiannau pensiwn yn cael eu codi.

Cynnydd Gwirioneddol mewn CETV

Mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn CETV a ariennir gan y cyflogwr. Nid yw'n cynnwys y cynnydd mewn pensiwn cronedig oherwydd chwyddiant na chyfraniadau a dalwyd gan y cyflogai (yn cynnwys gwerth unrhyw fuddiannau a drosglwyddwyd o gynllun pensiwn neu drefniant arall). Mae'n defnyddio ffactorau cyffredin prisio'r farchnad ar gyfer dechrau a diwedd y cyfnod.



Adroddiad Staff

Nifer y bobl a gyflogwyd ar gyfartaledd

Roedd nifer y staff cyfwerth â llawn amser a gyflogwyd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

| | 2015-16 | | 2014-15 | |
|-----------------------------|-----------------------------|-----------|------------|--------------|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Rheoliadol | 437 | 3 | 440 | 481 |
| E-Serve | 270 | 42 | 312 | 385 |
| Swyddogaethau Corfforaethol | 127 | 28 | 155 | 166 |
| Cyfanswm | 834 | 73 | 907 | 1,032 |

Roedd 41.0 o bobl sy'n gyfwerth ag amser cyfan ar gyfartaledd ar radd SCS yn ystod y flwyddyn. O'r rhain roedd 21.7 ym mand cyflog 1, 15.0 ym mand cyflog 2, a 4.3 ym mand cyflog 3.

Adrodd ar gynlluniau'r gwasanaeth sifil a chynlluniau iawndal eraill – pecynnau ymadael

Ni chafodd unrhyw swyddi eu dileu yn ystod 2015-16 na 2014-15.

Cynnwys cyflogeon

Eleni, roedd gan ein harolwg ymgysylltu â staff gyfradd ymateb o 94%, a mynegai ymgysylltu o 58%. Er bod y ffigur ymgysylltu bedwar pwynt canrannol yn is nag yn 2015, rydym yn unol â chyfartaledd y gwasanaeth sifil.

Mae ein staff hefyd yn parhau i nodi bod eu rolau yn ddiddorol (88%) a heriol (71%), a byddent yn argymhell Ofgem fel lle gwych i weithio (61%).

Cynllun Cydraddoldebau Sengl

Yn ein rôl ddeuol fel cyflogwr a rheoleiddiwr, rydym yn ymrwymedig i gyflawni ein rhwymedigaethau

cyfreithiol a hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth ymhlith ein gweithlu, yn y ffordd rydym yn gweithio ac yn y diwydiant rydym yn ei reoleiddio. I'r perwyl hwn, yn 2013 cyhoeddwyd ein Cynllun Cydraddoldebau Sengl. Mae hwn yn nodi ein hymagwedd tuag at ein staff, prosesau mewnol, datblygu polisi a gwneud penderfyniadau. Byddwn yn adolygu'r cynllun yn 2016.

Cyfle cyfartal

Rydym yn hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn y gwaith – mewn cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu gyrfa. Ni ddylai neb wynebu gwahaniaethu oherwydd oedran, anabledd, ailbennu rhyw, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw neu gyfeiriadedd rhywiol. Nid ydym yn goddef gwahaniaethu, bwllo nac aflonyddu. Yn arolwg ymgysylltu â staff 2015 cawsom sgôr o 77% ar gyfer cynhwysiant a thriniaeth deg.

Yn 2015-16 parhawyd i ddarparu hyfforddiant ar amrywiaeth a rhagfarn anymwybodol i staff yr oedd ei angen arnynt. Mae hyn yn rhan o'n hymrwymiad i sicrhau bod staff yn deall ac yn cyflawni eu rhwymedigaethau o dan y Ddeddf Cydraddoldeb ym mhopeth a wnânt. Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol:

- gwyddys bod gan 1.9% (2014-15:1.9%) o staff anabledd
- roedd 46% (2014-15:46%) o staff yn fenywod



- roedd 45% (2014-15:44%) o staff mewn swyddi rheoli yn fenywod
- roedd 29% (2014-15:29%) o aelodau'r Uwch Wasanaeth Sifil yn Ofgem yn fenywod
- gwyddys bod 19% (2014-15:18%) o staff o darddiad lleiafrif ethnig
- gwyddys bod 64% (2014-15:67%) o staff o darddiad ethnig lleiafrif mewn swyddi rheoli.

Mae ein datganiad polisi am gyfle cyfartal ar gael i bob cyflogai.

Buddsoddi mewn dysgu a datblygu

Rydym wir yn gwerthfawrogi ein pobl. Mae rhoi cyfleoedd iddynt ddysgu sgiliau newydd a datblygu eu gyrfaedd yn ein helpu i'w cadw a denu pobl newydd mewn sawl ffordd. Fel adlewyrchiad o'r buddsoddiad hwn, yn ein Harolwg o Bobl yn 2015 cawsom ein gosod bum pwynt canrannol yn uwch na chyfartaledd y Gwasanaeth Sifil ar gyfer Dysgu a Datblygu.

Yn 2015-16, ein meysydd o ffocws oedd:

- Adolygu sut rydym yn rhoi gwell mynediad at Ddysgu a Datblygu o safon gan arwain at newid i osod ein gofynion ar gontract allanol gan Civil Service Learning o fis Ebrill 2015
- datblygu diwylliant cynhwysol.

Ymgysylltu â'r gymuned

Rydym yn mynd ati i gefnogi cyflogeion sy'n rhoi o'u hamser neu eu harian eu hunain i helpu elusennau, neu weithgareddau cymunedol neu wirfoddol eraill. Er enghraifft, efallai y byddem yn rhoi amser i ffwrdd i rywun sy'n gweithredu fel llywodraethwr ysgol, ynad heddwch, aelod o banel tribiwnlys cyflogaeth, neu rywun sy'n gwirfoddoli'n rheolaidd.

Rydym hefyd wedi rhoi caniatâd i nifer o elusennau gynnal digwyddiadau yn ein swyddfeydd.

Rydym yn parhau i weithio gyda Career Ready ac mae 60 o staff yn rhoi cymorth ac arweiniad un i un i bobl ifanc 16-19 oed drwy'r cynllun mentora. Yn 2015, cynigiwyd tri lleoliad interniaeth haf am chwe wythnos yn Llundain a dau leoliad interniaeth haf am bedair wythnos yn Glasgow.

Byddwn yn cynnig tri lleoliad arall yn Llundain a dau yn Glasgow yn ystod haf 2016. At hynny, recriwtiwyd dau brenis TG yn 2015-16.

Hyrwyddo iechyd a diogelwch yn y gwaith

Rydym yn cymryd ein cyfrifoldeb cyfreithiol am iechyd, diogelwch a lles ein cyflogeion o ddirif. Mae hyn yn cynnwys y rhai sy'n gweithio gyda ni neu i ni, ac unrhyw un arall sy'n defnyddio ein safleoedd. Ein nod yw atal unrhyw ddamwain sy'n cynnwys anaf personol, salwch neu niwed.

Rydym yn cydymffurfio â Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1974 ac unrhyw ddeddfwriaeth arall. Mae ein datganiad polisi am iechyd a diogelwch yn disgrifio ein cyfrifoldebau a'n nodau yn fanylach. Mae ar gael i bob cyflogai.

Diwrnodau a gollwyd oherwydd absenoldeb

Yn 2015-16, collwyd 6.1 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai ar gyfartaledd (2014-15: 5.1 diwrnod). Mae hyn yn cymharu'n ffafriol â chyfartaledd sector llywodraeth ganolog sef 9.0 diwrnod y flwyddyn fesul cyflogai, a'r cyfartaledd i'r sector cyfan, sef 6.9 diwrnod.

Adolygiad o drefniadau treth penodeion yn y sector cyhoeddus

Ym mis Mai 2012 cyhoeddodd y llywodraeth adolygiad o drefniadau cyhoeddus o benodeion yn y sector cyhoeddus. Nododd yr adolygiad nifer y penodiadau oddi ar y gyflogres gwerth mwy na £58,200 y flwyddyn ym mhob rhan o'r llywodraeth.

Ceir gwybodaeth am ymrwymadau presennol oddi ar y gyflogres yn Atodiad V ar dudalen 115.

Dermot Nolan
Swyddog Cyfrifyddu

13 Mehefin 2016

Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad





Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratwyd o dan Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol (IFRS), mae Llawlyfr Adroddiadau Ariannol y Llywodraeth (FRoM) yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol (SoPS) a nodiadau ategol i ddangos alldro adnoddau yn erbyn yr amcangyfrif cyflenwi a gyflwynwyd gerbron Senedd y DU, ar gyfer pob terfyn rheoli cyllidebol.

Crynodeb o'r alldro adnoddau a chyfalaf 2015-16

| | 2015-16 £000 | | | | | | 2014-15 £000 | |
|---------------------------------------|-----------------------------|---------------------------------|--------------|-----------------------------|---------------------------------|--------------|--|--------------|
| | Amcangyfrif | | | Alldro | | | Alldro | |
| | Cymeradwywyd drwy bleidlais | Nis cymeradwywyd drwy bleidlais | Cyfanswm | Cymeradwywyd drwy bleidlais | Nis cymeradwywyd drwy bleidlais | Cyfanswm | Alldro a gymeradwywyd drwy bleidlais o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbedion | Cyfanswm |
| Terfyn gwariant adrannol | | | | | | | | |
| Adnodd | 6,165 | - | 6,165 | 654 | - | 654 | 5,511 | 500 |
| Cyfalaf | 1,000 | - | 1,000 | 542 | - | 542 | 458 | 1,239 |
| Gwariant a reolir yn flynyddol | | | | | | | | |
| Adnodd | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfalaf | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm y gyllideb Adnodd | 7,165 | - | 7,165 | 1,196 | - | 1,196 | 5,969 | 1,739 |
| Nad yw'n Gyllidebol | - | - | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm | 7,165 | - | 7,165 | 1,196 | - | 1,196 | 5,969 | 1,739 |
| Cyfanswm yr adnoddau | 6,165 | - | 6,165 | 654 | - | 654 | 5,511 | 500 |
| Cyfanswm cyfalaf | 1,000 | - | 1,000 | 542 | - | 542 | 458 | 1,239 |
| Cyfanswm | 7,165 | - | 7,165 | 1,196 | - | 1,196 | 5,969 | 1,739 |

| | Nodyn SoPS | 2015-16 £000 | 2015-16 £000 | | 2014-15 £000 |
|---------------------------------|------------|-----------------|-----------------|--|-----------------|
| | | Amcangyfrif | Alldro | Alldro o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbediad | Alldro |
| Gofyniad arian parod net | SoPS3 | 15,755 | (9,600) | 25,355 | (4,320) |
| Costau gweinyddol | | | | | |
| | | 2015-16 £000 | 2015-16 £000 | | 2014-15 £000 |
| | | Amcangyfrif | Alldro | Arbediad | Alldro |
| | | 6,165 | 654 | 5,511 | 500 |

Rhoddir esboniadau o'r amrywiannau rhwng yr amcangyfrif a'r alldro yn adroddiad y Cyfarwyddwyr.



SoPS1 Alldro net

SoPS1.1 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net fesul adran

| | 2015-16 £000 | | | | | 2014-15 £000 |
|---|--------------------|-----------------|--------------|--------------|--|-----------------|
| | Alldro - Gweinyddu | | | Amcangyfrif | | Cyfanswm |
| | Gros | Incwm | Cyfanswm net | Cyfanswm net | Cyfanswm net o'i gymharu â'r amcangyfrif | |
| Gwariant mewn Terfynau | | | | | | |
| Gwariant Adrannol | | | | | | |
| A Marchnadoedd Nwy a Thrydan Awdurdod: gweinyddu | 37,238 | (37,238) | - | 5,465 | 5,465 | - |
| B E-Serve Ofgem: gweinyddu | 39,815 | (39,161) | 654 | 700 | 46 | 500 |
| Cyfanswm | 77,053 | (76,399) | 654 | 6,165 | 5,511 | 500 |

SoPS1.2 Dadansoddiad o'r alldro adnoddau net fesul adran

| | 2015-16 £000 | | | | | 2014-15 £000 |
|---|-----------------|----------|--------------|--------------|---|-----------------|
| | Alldro | | | Amcangyfrif | | Alldro |
| | Gros | Incwm | Cyfanswm net | Cyfanswm net | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif | |
| Gwariant mewn Terfynau | | | | | | |
| Gwariant Adrannol | | | | | | |
| A Marchnadoedd Nwy a Thrydan Awdurdod: gweinyddu | 542 | - | 542 | 1,000 | 458 | 1,239 |
| B E-Serve Ofgem: gweinyddu | - | - | - | - | - | - |
| Cyfanswm | 542 | - | 542 | 1,000 | 458 | 1,239 |

SoPS2 Cysoni alldro â'r gost weithredu net

| | 2015-16 £000 | 2014-15 £000 |
|---|-----------------|-----------------|
| Cyfanswm alldro adnoddau yn y Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol | 654 | 500 |
| Costau gweithredu net yn y Datganiad o Wariant Net Cynhwysfawr | 654 | 500 |



SoPS3 Cysoni alldro adnoddau net â'r gofyniad arian parod net

| | | Amcangyfrif | Alldro | Cyfanswm alldro net o'i gymharu â'r amcangyfrif: arbediad / (dros ben) |
|---|---------|---------------|----------------|--|
| | Nodyn | £000 | £000 | £000 |
| Alldro adnoddau | SoPS1.1 | 6,165 | 654 | 5,511 |
| Alldro cyfalaf | SoPS1.2 | 1,000 | 542 | 458 |
| Croniadau i addasiadau arian parod: | | | | |
| ▪ Dibrisiant | 4 | (1,500) | (1,487) | (13) |
| ▪ Darpariaethau newydd ac addasiadau i ddarpariaethau | 4 | - | (34) | 34 |
| ▪ Eitemau anariannol eraill | 4 | (60) | (53) | (7) |
| ▪ Symudiad mewn cyfalaf gwaith | | 10,000 | (11,240) | 21,240 |
| ▪ Addasiad arall | | - | - | - |
| ▪ Defnydd o ddarpariaeth | 14 | 150 | 2,018 | (1,868) |
| Gofyniad arian parod net | | 15,755 | (9,600) | 25,355 |

Rhoddir esboniadau o'r amrywiannau rhwng yr amcangyfrif a'r alldro yn adroddiad y Cyfarwyddwyr.

SoPS4 Dadansoddiad o incwm sy'n daladwy i'r gronfa gyfunol

Ni chasglwyd unrhyw incwm o'r gronfa gyfunol gennym yn 2015-16. Nid yw hyn yn cynnwys unrhyw symiau a gasglwyd gennym tra'n gweithredu fel asiant y gronfa gyfunol yn hytrach na phenadur. Ceir manylion llawn yr incwm a gasglwyd fel asiant y gronfa gyfunol yn natganiad ymddiriedaeth yr adran, a gyhoeddwyd ar wahân i'r datganiadau ariannol hyn ond ochr yn ochr â hwy.

Ardaloedd eraill o Atebolrwydd Seneddol

Nid yw'r manau dilynol yn gymwysiadol i Ofgem:

- Colledion a thaliadau arbennig
- Datgeliadau ffioedd a chodiannau
- Rhwmedigaethau atebolrwydd pell; a
- Rhediadau gwariant hir dymor.

Dermot Nolan
Swyddog Cyfrifyddu

13 Mehefin 2016



Tystysgrif ac adroddiad y Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol i Dŷ'r Cyffredin

Ardystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys: y Datganiadau o Wariant Net Cynhwysfawr, y Sefyllfa Ariannol, Llifau Arian Parod, Newidiadau yn Ecwiti Trethdalwyr; a'r nodiadau cysylltiedig, Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt. Rwyf hefyd wedi archwilio'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol a'r nodiadau cysylltiedig, a'r wybodaeth yn yr Adroddiad ar Gydnyddiaeth a Staff a'r Datganiad Atebolwydd Seneddol a ddisgrifir yn yr adroddiadau hyn fel datganiad sydd wedi cael ei archwilio.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurwyd yn llawnach yn Natganiad Cyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, y Swyddog Cyfrifyddu sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun cywir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio'r datganiadau ariannol, a chyflwyno adroddiad arnynt yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Cynhaliwyd fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol nad yw'r datganiadau ariannol yn cynnwys unrhyw gamddatganiad materol, boed drwy dwyll neu wall.

Mae hyn yn cynnwys asesiad o'r canlynol: a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau'r Swyddfa a datganiad ymddiriedaeth y Marchnadoedd Nwy a Thrydan ac wedi'u cymhwyso'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan; a'r ffordd y cyflwynwyd y datganiadau ariannol yn gyffredinol.

Darllenaf hefyd yr holl wybodaeth ariannol ac anariannol yn yr Adroddiad Blynyddol er mwyn nodi anghysondebau materol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn faterol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad, neu'n faterol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol ymddangosiadol, ystyriaif y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sydd yn ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y Datganiad Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno yn gywir y canlyniad yn erbyn cyfansymiau rheoli Seneddol etholedig ac nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau yma. Mae'r cyfansymiau rheoli seneddol etholedig yn Derfynau Gwawariant Adrannol (Adnodd a Chyfalaf), Gwariant a reolir yn flynyddol (Adnodd a Chyfalaf), Nad yw'n Gyllidebol(Adnodd), a Gofyniad Arian Parod Net.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd y DU a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob ffordd faterol:

- mae'r Datganiad ynghylch y Cyflenwad Seneddol yn cyflwyno'n briodol yr alldro yn erbyn y cyfansymiau rheoli Seneddol a gymeradwywyd drwy bleidlais ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 ac yn dangos nad aethpwyd y tu hwnt i'r cyfansymiau hyn;
- mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu.



Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i, ym mhob ffordd materol:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r Adran ar 31 Mawrth 2016, ac o gost weithredu net yr Adran ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi'u paratoi yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddwyd o dan y ddeddf honno.

Barn ar faterion eraill

In my opinion:

- mae'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff a'r Datganiad Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â chyfarwyddiadau Trysorlys EM a wnaed o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000; ac
- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol rwyf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw datganiadau ariannol na'r rhannau o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff na'r Datganiad Atebolrwydd Seneddol i'w harchwilio yn cyd-fynd â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Sir Amyas C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain SW1W 9SP

28 Mehefin 2016

Cyfrifon Adnoddau





Cyfrifon Adnoddau

Datganiad o wariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

Mae'r cyfrif hwn yn crynhoi'r gwariant a'r incwm a gynhyrchwyd ac a ddefnyddiwyd ar sail cronïadau. Mae hefyd yn nodi incwm a gwariant cynhwysfawr arall, sy'n cynnwys newidiadau i werthoedd asedau anghyfredol ac offerynnau ariannol eraill na ellir eu cydnabod fel incwm neu wariant eto.

| | | | | 2015-16 £000 | 2014-15 £000 |
|--|---------|-----------------|------------------|-----------------|-----------------|
| | Nodyn | Costau staff | Costau eraill | Incwm | |
| Costau gweinyddol | | | | | |
| Costau staff | 3 | 53,711 | | | 59,378 |
| Costau eraill | 4 | | 23,342 | | 27,908 |
| Incwm | 5 | | | (76,399) | (86,786) |
| Costau gweithredu net | | | | | |
| | SoPS1.1 | | | 654 | 500 |
| Cyfanswm y gwariant | | | | 77,053 | 87,286 |
| Cyfanswm yr incwm | | | | (76,399) | (86,786) |
| Costau gweithredu net | | | | | |
| | | | | 654 | 500 |
| Gwariant net cynhwysfawr arall | | | | | |
| Eitemau na chânt eu hailddosbarthu i gostau gweithredu net: | | | | | |
| Ennill/(colled) actiwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | | 14 | | 26 | (21) |
| Cyfanswm y gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 | | | | | |
| | | | | 680 | 479 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 71 i 86 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2016

Mae'r datganiad hwn yn cyflwyno ein sefyllfa ariannol. Mae iddo dair prif ran: asedau a berchenogir neu a reolir, rhwymedigaethau sy'n ddyledus i gyrff eraill, ac ecwiti, gwerth gweddilliol yr endid.

| | | 2016 | 2015 |
|---|-----------|-----------------|-----------------|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| Asedau anghyfredol: | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar | 6 | 2,478 | 3,423 |
| Asedau anghyfredol eraill | 12 | 1,977 | - |
| Cyfanswm yr asedau anghyfredol | | 4,455 | 3,423 |
| Asedau cyfredol: | | | |
| Symiau masnach derbyniadwy ac asedau cyfredol eraill | 12 | 8,919 | 12,844 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 11 | 25,355 | 21,178 |
| Cyfanswm yr asedau cyfredol | | 34,274 | 34,022 |
| Cyfanswm yr asedau | | 38,729 | 37,445 |
| Rhwymedigaethau cyfredol: | | | |
| Symiau masnach taladwy a symiau taladwy eraill | 13 | (48,094) | (34,768) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau cyfredol | | (48,094) | (34,768) |
| Cyfanswm asedau llai rhwymedigaethau cyfredol | | (9,365) | 2,677 |
| Rhwymedigaethau anghyfredol: | | | |
| Darpariaethau | 14.1,14.2 | (1,001) | (3,011) |
| Symiau taladwy eraill | 13 | (535) | (392) |
| Cyfanswm y rhwymedigaethau anghyfredol | | (1,536) | (3,403) |
| Cyfanswm yr asedau llai cyfanswm y rhwymedigaethau | | (10,901) | (726) |
| Ecwiti trethdalwyr: | | | |
| Cronfa gyffredinol | | (10,901) | (726) |
| Cyfanswm ecwiti trethdalwyr | | (10,901) | (726) |



Dermot Nolan
Swyddog Cyfrifyddu

13 Mehefin 2016

Mae'r nodiadau ar dudalennau 71 i 86 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



Datganiad o lifau arian parod ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

Mae'r Datganiad o Lifau Arian Parod yn dangos ein newidiadau mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod adrodd. Mae'r datganiad yn dangos sut rydym yn cynhyrchu ac yn defnyddio arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo drwy ddsbarthu llifau arian parod fel gweithgareddau gweithredu, buddsoddi ac ariannu. Mae swm y llif arian parod net sy'n deillio o weithgareddau gweithredu yn ddangosydd allweddol o gostau gwasanaeth a'r graddau y caiff y gweithrediadau hyn eu hariannu drwy incwm gan dderbynyddion gwasanaethau a ddarparwyd gan yr adran. Mae gweithgareddau buddsoddi yn cynrychioli i ba raddau y mae llifau arian parod i mewn ac allan wedi cael eu gwneud ar gyfer adnoddau y bwriedir iddynt gyfrannu at y broses o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus gan yr adran yn y dyfodol. Mae llifau arian parod sy'n deillio o weithgareddau ariannu yn cynnwys y cyflenwad seneddol a llifau arian parod eraill, gan gynnwys benthycia.

| | | 2015-16 £000 | 2014-15 £000 |
|--|--------------|-----------------|-----------------|
| | Nodyn | | |
| Llifau arian parod o weithgareddau gweithredu | | | |
| Cost gweithredu net | SoPS1.1 | (654) | (500) |
| Addasiadau ar gyfer trafodion nad ydynt yn arian parod | 4 | 1,574 | 1,467 |
| Gostyngiad mewn symiau masnach derbyniadwy a symiau derbyniadwy eraill | 12 | 1,948 | 8,517 |
| <i>llai symudiadau mewn symiau derbyniadwy eraill sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE</i> | | - | - |
| Cynnydd/(Gostyngiad) mewn symiau masnach taladwy | 13 | 13,469 | (1,749) |
| <i>llai symudiadau mewn symiau taladwy sy'n ymwneud ag eitemau nad ydynt yn mynd drwy'r SoCNE</i> | 13 | (4,177) | (2,050) |
| Addasiad arall | | - | (5) |
| Defnydd o ddarpariaethau | 14 | (2,018) | (121) |
| All-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu | | 10,142 | 5,559 |
| Llifau arian parod o weithgareddau buddsoddi | | | |
| Eiddo, offer a chyfarpar a brynwyd | 6 | (542) | (1,239) |
| Elw o waredu eiddo, offer a chyfarpar | | - | - |
| All-lif arian parod net o weithgareddau buddsoddi | | (542) | (1,239) |
| Llifau arian parod o weithgareddau cyllido | | | |
| O'r Gronfa Gyfunol (cyflenwad) – y flwyddyn gyfredol | | 15,755 | 16,858 |
| Blaendaliadau o'r gronfa wrth gefn | | 20,000 | 20,000 |
| Taliadau i'r gronfa wrth gefn | | (20,000) | (20,000) |
| Ariannu net | | 15,755 | 16,858 |
| Taliadau symiau'r gronfa gyfunol | | (21,178) | (19,128) |
| Cynnydd net mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo yn ystod y cyfnod cyn addasu ar gyfer derbyniadau a thaliadau i'r Gronfa Gyfunol | | 4,177 | 2,050 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddechrau'r cyfnod | 11 | 21,178 | 19,128 |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo ar ddiwedd y cyfnod | 11 | 25,355 | 21,178 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 71 i 86 yn rhan o'r cyfrifon hyn.

Datganiad o newidiadau mewn ecwiti trethdalwyr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | Nodyn | Cronfa gyffredinol £000 |
|--|-------|----------------------------|
| Balans ar 31 Mawrth 2014 | | 4,067 |
| Cyllid seneddol net – a hawliwyd | | 16,858 |
| Cyllid seneddol net – tybiedig | | - |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | | (21,178) |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | | (500) |
| Cydnabyddiaeth yr Archwilydd | 4 | 53 |
| Colledion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn | 14 | (21) |
| Addasiad arall | | (5) |
| Balans ar 31 Mawrth 2015 | | (726) |
| Cyllid seneddol net – a hawliwyd | | 15,755 |
| Cyllid seneddol net – tybiedig | | - |
| Addasiad taladwy i'r cyflenwad | | (25,355) |
| Gwariant net cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn | | (654) |
| Cydnabyddiaeth yr Archwilydd | 4 | 53 |
| Enillion sy'n ymwneud â rhwymedigaethau pensiwn | 14.2 | 26 |
| Balans ar 31 Mawrth 2016 | | (10,901) |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 71 i 86 yn rhan o'r cyfrifon hyn.



Nodiadau i'r cyfrifon adnoddau adrannol

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

Paratowyd y datganiadau ariannol hyn yn unol â'r Llawlyfr Adrodd Ariannol a gyhoeddwyd gan Trysorlys EM. Mae'r polisiau cyfrifyddu a nodir yn y Llawlyfr Adrodd Ariannol yn cymhwyso Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol fel y'u haddaswyd neu y'u dehonglwyd ar gyfer y sector cyhoeddus. Pan fo'r Llawlyfr yn caniatáu dewis o bolisi cyfrifyddu, rydym wedi dewis y polisi cyfrifyddu y bernir ei fod yn fwyaf priodol i'n hamgylchiadau penodol at ddiben rhoi darlun cywir a theg. Disgrifir y polisiau penodol a fabwysiadwyd gennym isod. Fe'u cymhwyswyd yn gyson wrth ymdrin ag eitemau a ystyrir yn faterol i'r cyfrifon.

Yn ogystal â'r prif ddatganiadau a baratowyd o dan IFRS, mae'r Llawlyfr Adrodd Ariannol hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi un prif ddatganiad ychwanegol. Mae'r SoPS a'r nodiadau cysylltiedig yn dangos alldro yn erbyn amcangyfrif o ran y gofyniad adnoddau net a'r gofyniad arian parod net, ac maent wedi'u cynnwys yn yr adran ar yr Adroddiad ar Atebolrwydd Seneddol ac Archwiliad sy'n dechrau ar dudalen 60.

1.1 Confensiwn cyfrifyddu

Mae'r cyfrifon hyn wedi'u paratoi o dan y confensiwn cost hanesyddol.

1.2 Eiddo, offer, cyfarpar a dibrisiant

Ni chaiff eiddo, offer a chyfarpar eu hailbriso'n flynyddol drwy ddefnyddio mynegeion mwyach. Defnyddir cost hanesyddol wedi'i ddibrisio bellach fel procsi am werth cyfredol gan fod hyn yn adlewyrchu'r defnydd o'r ased yn realistig. Ni fyddai ailbrisiadau yn achosi gwahaniaeth materol.

Darperir dibrisiant ar gyfraddau a gyfrifir i ddileu eiddo, offer a chyfarpar mewn rhandaliadau hafal dros eu hoes ddefnyddiol amcangyfrifedig, ar ôl ystyried gwerth gweddilliol. Mae oes asedau o fewn yr amrediadau canlynol:

| | |
|---------------------------------------|---------------|
| Gwelliannau lesddaliadol | Oes y brydles |
| Cyfarpar, dodrefn a ffitiadau swyddfa | Pum mlynedd |
| Cyfarpar TG | Tair blynedd |

Yr isafswm lefel ar gyfer cyfalafu eiddo, offer a chyfarpar yw £2,000. Mae grwpio asedau sydd islaw'r trothwy wedi'i gyfyngu i gyfarpar TG yn unig.

1.3 Darpariaethau

Rydym yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau pan fydd rhwymedigaeth gyfreithiol neu ddeongliadol yn bodoli ar ddyddiad y fantolen (h.y. mae rhwymedigaeth bresennol o ddigwyddiadau yn y gorffennol), a phan fydd y buddiannau economaidd yn debygol o gael eu trosglwyddo a gellir gwneud amcangyfrif rhesymol.

Pan fo gwerth arian yn faterol, rydym yn disgowntio'r ddarpariaeth i'w gwerth presennol gan ddefnyddio cyfradd ddisgowntio o 1.37%, sef cyfradd safonol y llywodraeth. Bob blwyddyn mae'r taliadau ariannol yn y datganiad o wariant net cynhwysfawr yn cynnwys yr addasiadau i amorteiddio disgownt blwyddyn ac ailddatgan rhwymedigaethau i lefelau prisiau presennol.

1.4 Incwm gweithredu

Incwm sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'n gweithgareddau gweithredu yw incwm gweithredu. Yn bennaf, mae'n cynnwys ffioedd am drwyddedau a ffioedd a thaliadau a godir am wasanaethau a ddarperir ar sail cost lawn.

Gan fod holl gostau trwyddedau yn cael eu hadennill drwy'r ffioedd am drwyddedau a chaiff y rhain eu hanfonebu mewn dwy gyfran yn ystod y flwyddyn ar seiliedig ar gostau amcangyfrifedig, caiff unrhyw gostau sy'n cael eu goradennill eu trin fel incwm gohiriedig yn y symiau taladwy ac unrhyw gostau sy'n cael eu tanadennill fel incwm cronodig yn y symiau derbyniadwy.

1.5 Cyfnewid tramor

Caiff trafodion mewn arian cyfred tramor eu trosi'n sterling ar y gyfradd gyfnewid gyfredol ar ddyddiad pob trafodyn.

1.6 Pensiynau

Cwmpesir cyn-gyflogeion a chyflogeion presennol gan ddarpariaethau Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS). Disgrifir y rhain yn Nodyn 3. Mae'r ddau gynllun yn anghyfrannol a heb eu hariannu. Mae adrannau, asiantaethau a chyrrff eraill a gwmpesir gan y ddau gynllun yn cyflawni cost pensiynau a ddarperir ar gyfer y staff a gyflogir ganddynt drwy dalu taliadau a gyfrifir ar sail cronadau. Mae rhwymedigaeth i dalu buddiannau yn y dyfodol yn arwystl ar y cynlluniau. Ceir datganiad cynllun ar wahân ar gyfer y PCSPS a'r CSOPS yn eu cyfarwydd.

Mae gan ein cyn-brif weithredwr a chyfarwyddwr cyffredinol drefniadau pensiwn ar wahân sy'n ddigon tebyg i'r PCSPS. Mae'r trefniadau yn darparu ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig heb ei ariannu. Fodd bynnag, yn wahanol i'r PCSPS, mae rhwymedigaeth pensiwn wedi'i chynnwys yn y cyfrifon fel sy'n ofynnol o dan IAS 37.

1.7 Costau gadael yn gynnar

Mae'n ofynnol i ni dalu cost buddiannau ychwanegol y tu hwnt i fuddiannau arferol y PCSPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar. Rydym yn darparu ar gyfer y gost hon yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar wedi'i chyhoeddi ac mae'n gyfrwymol arnom.

1.8 Treth ar werth

Yn ein cyfrifon, dangosir symiau yn glir o dreth ar werth (TAW), ac eithrio'r canlynol:

- codir TAW na ellir ei hadennill ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr ac mae wedi'i chynnwys o dan y pennawd sy'n berthnasol i'r math o wariant
- mae TAW na ellir ei adennill ar brynu ased wedi'i chynnwys yng nghost prynu wedi'i chyfalafu yr ased.

Mae'r swm sy'n ddyledus gan Gyllid a Thollau EM ar gyfer TAW wedi'i gynnwys yn y symiau derbyniadwy yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol.

1.9 Prydlesau gweithredu

Caiff rhenti sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu eu codi ar y datganiad o wariant net cynhwysfawr dros dymor y brydles ar sail llinell syth, neu ar sail rhenti gwirioneddol sy'n daladwy sy'n adlewyrchu'r defnydd yn deg. Ni chaiff taliadau yn y dyfodol, a ddatgelir yn Nodyn 8, 'Ymrwymadau o dan brydlesau' eu disgowntio.



1.10 Busnes gweithredol

Dengys y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2016 ecwiti trethdalwyr negyddol sy'n cyfateb i £10.901 miliwn. Yn debyg i adrannau eraill y llywodraeth, caiff ein rhwymedigaethau eu hariannu yn y dyfodol drwy grantiau cyflenwi yn y dyfodol a defnyddio incwm yn y dyfodol, y ddau i'w cymeradwyo'n flynyddol gan Senedd y DU. Mae'r symiau sydd eu hangen ar gyfer 2016-17 eisoes wedi'u cymeradwyo ac nid oes unrhyw reswm dros gredu na chaiff symiau yn y dyfodol eu cymeradwyo. Felly rydym wedi ystyried ei bod yn briodol mabwysiadu sail busnes gweithredol ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol hyn.

1.11 Rhwymedigaethau digwyddiadol

Yn ogystal â rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir yn unol ag IAS 37, at ddibenion adroddiadau ac atebolrwydd seneddol rydym yn cyflwyno adroddiad ar rhwymedigaethau digwyddiadol statudol ac anstatudol penodol. Rydym yn gwneud hyn lle mae'n annhebygol iawn y caiff budd economaidd ei drosglwyddo, ond lle mae adroddiad ar y rhwymedigaethau wedi cael ei gyflwyno i Senedd y DU yn unol â gofynion Rheoli Arian Cyhoeddus.

Lle mae gwerth amser arian yn faterol, datgenir rhwymedigaethau digwyddiadol y mae'n rhaid i ni eu datgelu o dan IAS 37 mewn symiau wedi eu disgowntio a gwneir nodyn ar wahân o'r swm y cyflwyniad adroddiad arno i Senedd y DU. Datgenir rhwymedigaethau digwyddiadol nad yw'n ofynnol i ni eu datgelu o dan IAS 37 yn y symiau y cyflwynir adroddiad arnynt i Senedd y DU.

1.12 Asedau sy'n eiddo i drydydd partïon

Ni chaiff asedau sy'n eiddo i drydydd partïon fel y'u datgelir yn Nodyn 17 (megis arian a ddelir mewn perthynas â sicrwydd Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy a chynlluniau Tariff Cyflenwi Trydan) eu cydnabod yn y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol gan nad oes gennym unrhyw fudd ynddynt.

2. Datganiad o gostau gweithredu yn ôl cylchran weithredu

| 2015-16 | | | | |
|---------------------|---------------------------------------|--------------------------|--|------------------|
| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Ofgem E-Serve £000 | Swyddogaethau Corfforaethol £000 | Cyfanswm £000 |
| Gwariant gros | 37,257 | 19,770 | 20,026 | 77,053 |
| Incwm | (37,257) | (19,116) | (20,026) | (76,399) |
| Gwariant net | - | 654 | - | 654 |

| 2014-15 | | | | |
|---------------------|---------------------------------------|--------------------------|--|------------------|
| | Gweithgareddau Rheoleiddio £000 | Ofgem E-Serve £000 | Swyddogaethau Corfforaethol £000 | Cyfanswm £000 |
| Gwariant gros | 36,101 | 26,255 | 24,930 | 87,286 |
| Incwm | (36,101) | (25,755) | (24,930) | (86,786) |
| Gwariant net | - | 500 | - | 500 |

Mae adroddiadau cylchrannol yn cael eu cyflwyno ar sail gweithgarwch, yn unol ag adroddiadau misol i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn y sefydliad.

3. Costau staff

| Mae costau staff yn cynnwys | 2015-16 £000 | | | 2014-15 £000 |
|-----------------------------|--------------------------------|--------------|---------------|-----------------|
| | Staff a gyflogir yn barhaol | Eraill | Cyfanswm | Cyfanswm |
| Cyflogau | 37,991 | 4,830 | 42,821 | 48,474 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 3,522 | - | 3,522 | 3,671 |
| Costau pensiwn eraill | 7,481 | - | 7,481 | 7,354 |
| Costau staff eraill | (113) | - | (113) | (121) |
| Cyfanswm | 48,881 | 4,830 | 53,711 | 59,378 |



Cynlluniau buddiannau diffiniedig aml-gyflogwr heb eu hariannu yw Prif Gynllun Pensiwn y Gwasanaeth Sifil (PCSPS) a Chynllun Pensiwn Gweision Sifil ac Eraill (CSOPS) – a elwir yn “alpha”, ond ni all Ofgem nodi ei gyfran o'r asedau a'r rhwymedigaethau sylfaenol. Prisiodd actiwari'r cynllun y cynllun ar 31 Mawrth 2012. Ceir manylion yng nghyfrifon adnoddau Swyddfa'r Cabinet: Pensiwn Sifil (www.civilservice-pensions.gov.uk).

Ar gyfer 2015-16 roedd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £7,215,006 yn daladwy i'r PCSPS a'r CSOPS (2014/15: £7,092,650) ar un o bedair cyfradd yn yr amrediad 20.0% i 24.5% (2014-15: 16.7% i 24.3%) o enillion pensiynadwy yn seiliedig ar fandiau cyflog. Mae actiwari'r Cynllun yn adolygu cyfraniadau'r cyflogwr bob pedair blynedd fel arfer yn dilyn prisiad llawn o'r cynllun. Pennir y cyfraddau cyfrannu i dalu cost y buddiannau sy'n cronni yn ystod 2015-16 a delir pan fydd yr aelod yn ymddeol, ac nid y buddiannau a delir yn ystod y cyfnod hwn i bensiynwyr presennol.

Gall cyflogeion ddewis agor cyfrif pensiwn partneriaeth, sef pensiwn rhanddeiliaid gyda chyfraniad gan y cyflogwr. Talwyd cyfraniadau cyflogwyr gwerth £254,465 (2014/15: £188,263) i dri darparwr pensiwn cyfranddeiliaid penodedig. Mae cyfraniadau'r cyflogwr yn gysylltiedig ag oedran ac yn amrywio o 3% i 12.5% (2014-15: 3% i 12.5%) o enillion pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 ac o 8% i 14.75% o enillion pensiynadwy o 1 Hydref 2015. Bydd cyflogwyr hefyd yn talu cyfraniad sy'n cyfateb i gyfraniad y cyflogai hyd at 3 y cant o gyflog pensiynadwy. Yn ogystal, roedd y cyflogwr yn cyfrannu £11,205 (2014/15: £18,805), 0.8 y cant o gyflog pensiynadwy hyd at 30 Medi 2015 a 0.5% o gyflog pensiynadwy o 1 Hydref 2015, i'r PCSPS a'r CSOPS i dalu cost darparu buddiannau yn y dyfodol ar ffurf cyfandaliad ar farwolaeth mewn gwasanaeth ac ymddeoliad oherwydd salwch y cyflogeion hyn.

Nid oedd unrhyw gyfraniadau yn ddyledus i'r darparwyr pensiwn partneriaeth ar ddyddiad y cyfnod adrodd. Nid oedd unrhyw gyfraniadau wedi'u rhagdalau ar y dyddiad hwnnw.

Nid ymddeolodd neb (2014-15: (dim pobl) yn gynnar oherwydd salwch.

Gellir gweld nifer y staff yn yr adroddiad ar Gydabyddiaeth a Staff ar dudalen 58.

4. Costau gweinyddol eraill

| | | 2015-16 | 2014-15 |
|---|-------|---------------|---------------|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| Rhenti o dan brydlesau gweithredu: | | | |
| Prydlesau gweithredu | | 3,195 | 5,897 |
| | | <u>3,195</u> | <u>5,897</u> |
| Eitemau nad ydynt yn rhai arian parod: | | | |
| Cydnabyddiaeth a threuliau'r Archwilwyr* | | 53 | 53 |
| Dibrisiant | 6 | 1,487 | 1,371 |
| Colled ar waredu eiddo, offer a chyfarpar | | - | - |
| | | <u>1,540</u> | <u>1,424</u> |
| Gwariant arall: | | | |
| Contractwyr | | 7,230 | 8,538 |
| Costau llety | | 4,638 | 4,177 |
| Cyflenwadau a chyfarpar swyddfa | | 2,189 | 3,291 |
| Recriwtio a hyfforddiant | | 1,562 | 1,844 |
| Gwasanaethau proffesiynol | | 761 | 476 |
| Teithio a chynhaliaeth | | 658 | 772 |
| Costau sy'n ymwneud â Staff | | 365 | 468 |
| Costau gweinyddol eraill | | 1,170 | 978 |
| | | <u>18,573</u> | <u>20,544</u> |
| Darpariaethau (nad ydynt yn rhai arian parod): | | | |
| Darparwyd yn y flwyddyn | 13 | 16 | 11 |
| Cost llog | 13 | 27 | 32 |
| Adfer darpariaeth | | (9) | - |
| Symudiad mewn darpariaeth | | 34 | 43 |
| | | <u>34</u> | <u>43</u> |
| Cyfanswm | | 23,342 | 27,908 |

* Nid oedd unrhyw gydnabyddiaeth i archwilwyr am waith nad oedd yn waith archwilio.



5. Incwm gweithredu

| | 2015-16 £000 | | | 2014-15 £000 | | |
|------------------|-----------------|---------------|------------|-----------------|---------------|------------|
| | Incwm | Costau llawn | Diffyg | Incwm | Costau llawn | Diffyg |
| Ffioedd trwydded | (49,119) | 49,119 | - | (55,686) | 55,686 | - |
| Arall | (27,280) | 27,934 | 654 | (31,100) | 31,600 | 500 |
| Cyfanswm | (76,399) | 77,053 | 654 | (86,786) | 87,286 | 500 |

| | 2015-16 £000 | 2014-15 £000 |
|--|-----------------|-----------------|
| Mae incwm arall yn cynnwys: | £000 | £000 |
| Tâl Tendr Trawsyrru ar y Môr a Ailgodir | 2,170 | 3,378 |
| Yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd (yn ymwneud â rhaglenni amgylcheddol a throsglwyddo staff) | 18,528 | 21,914 |
| Taliadau wedi'u hailgodi a ariennir gan gynlluniau | 3,134 | 2,553 |
| Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (yn ymwneud â chostau swyddfeydd wedi'u rhannu a throsglwyddo staff) | 1,673 | 2,020 |
| Adrannau eraill | 1,256 | 976 |
| Amrywiol* | 519 | 259 |
| | 27,280 | 31,100 |

*Mae incwm amrywiol yn cynnwys ffioedd ar gyfer ceisiadau am drwydded, a mân eitemau eraill.

6. Eiddo, offer a chyfarpar

| | Dodrefn £000 | Cyfarpar swyddfa £000 | Technoleg gwybodaeth £000 | Gwaith Lesddaliannol £000 | Cyfanswm £000 |
|--|-----------------|-----------------------------|---------------------------------|---------------------------------|------------------|
| Cost neu brisiad | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | 167 | 2,527 | 5,190 | 5,767 | 13,651 |
| Ychwanegiadau | - | 5 | 487 | 50 | 542 |
| Gwarediadau | - | (188) | (98) | - | (286) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 167 | 2,344 | 5,579 | 5,817 | 13,907 |
| Dibrisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2015 | 149 | 2,204 | 3,534 | 4,341 | 10,228 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 5 | 145 | 852 | 485 | 1,487 |
| Gwarediadau | - | (188) | (98) | - | (286) |
| Ar 31 Mawrth 2016 | 154 | 2,161 | 4,288 | 4,826 | 11,429 |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2016 | 13 | 183 | 1,291 | 991 | 2,478 |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2015 | 18 | 323 | 1,656 | 1,426 | 3,423 |
| Ariannu asedau: | | | | | |
| Swm cario asedau a berchenogir ar 31 Mawrth 2016 | 13 | 183 | 1,291 | 991 | 2,478 |

| | Dodrefn £000 | Cyfarpar swyddfa £000 | Technoleg gwybodaeth £000 | Gwaith Lesddaliannol £000 | Cyfanswm £000 |
|--|-----------------|-----------------------------|---------------------------------|---------------------------------|------------------|
| Cost neu brisiad | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 149 | 2,343 | 4,170 | 5,751 | 12,413 |
| Ychwanegiadau | 18 | 184 | 1,021 | 16 | 1,239 |
| Gwarediadau | - | - | (1) | - | (1) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 167 | 2,527 | 5,190 | 5,767 | 13,651 |
| Dibrisiant | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2014 | 146 | 2,049 | 2,789 | 3,874 | 8,858 |
| Tâl a godwyd yn y flwyddyn | 3 | 155 | 746 | 467 | 1,371 |
| Gwarediadau | - | - | (1) | - | (1) |
| Ar 31 Mawrth 2015 | 149 | 2,204 | 3,534 | 4,341 | 10,228 |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2015 | 18 | 323 | 1,656 | 1,426 | 3,423 |
| Swm cario ar 31 Mawrth 2014 | 3 | 294 | 1,381 | 1,877 | 3,555 |
| Ariannu asedau: | | | | | |
| Swm cario asedau a berchenogir ar 31 Mawrth 2015 | 18 | 323 | 1,656 | 1,426 | 3,423 |



7. Ymrwymiadau cyfalaf

| | 2015-16 | 2014-15 |
|--|---------|---------|
| | £000 | £000 |

Ymrwymiadau cyfalaf dan contract ar 31 Mawrth nas cynhwysir fel arall yn y datganiadau ariannol hyn

- -

8. Ymrwymiadau o dan brydlesau

Prydlesau gweithredu

Nodir cyfanswm yr isafswm taliadau prydles yn y dyfodol o dan brydlesau gweithredu yn y tabl isod ar gyfer pob un o'r cyfnodau canlynol.

| | 2015-16 | 2014-15 |
|--|---------|---------|
| | £000 | £000 |

Mae'r rhwymedigaeth o dan brydlesau gweithredu ar gyfer y cyfnodau canlynol yn cynnwys:

Adeiladau:

| | | |
|--|---------------|---------------|
| O fewn blwyddyn | 6,203 | 6,160 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 7,803 | 8,027 |
| Ar ôl pum mlynedd | - | - |
| | 14,006 | 14,187 |

Pan ymrwymwyd i'r brydles ar ein pencadlys yn Millbank yn 2000, cawsom bremiwm gwrthdro lesddaliad gan y landlord. £0.391 miliwn yw gweddill y premiwm gwrthdro. Caiff hyn ei ddefnyddio ar sail llinell syth dros dymor y brydles hyd at y dyddiad y byddwn yn gadael Millbank yn 2017-18. Datgelir hyn yn Nodyn 12.

8.1 Ymrwymiadau ariannol eraill

Ar 31 Mawrth 2016, nid oeddem wedi ymrwmo i unrhyw gontractau na ellir eu canslo (nad ydynt yn brydlesau gweithredu).

9. Incwm yn y dyfodol sy'n ddyledus o dan brydlesau gweithredu na ellir eu canslo

| | 2015-16 | 2014-15 |
|--|--------------|--------------|
| | £000 | £000 |
| Adeiladau: | | |
| O fewn blwyddyn | 1,583 | 1,583 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 1,948 | 1,948 |
| | 3,531 | 3,531 |

Mae'r wybodaeth uchod am brydlesau yn ymwneud ag is-osod lloriau yn ein pencadlys yn Llundain i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig o dan gytundeb Memorandwm o Delerau Meddiannu (MOTO).

10. Offerynnau ariannol

Gan fod gofynion arian parod yr adran yn cael eu bodloni drwy'r broses amcangyfrifon, mae offerynnau ariannol yn chwarae rhan fwy cyfyngedig wrth greu a rheoli risg nag a fyddai'n gymwys i gorff o faint tebyg nad yw yn y sector cyhoeddus. Mae'r rhan fwyaf o'r offerynnau ariannol yn ymwneud â contractau ar gyfer eitemau anariannol yn unol â gofynion prynu a defnyddio disgwylidig yr adran. Felly, nid ydym yn cael ein hamlygu i fawr ddim risg o ran credyd, hylifedd na'r farchnad.



11. Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---------------|---------------|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 21,178 | 19,128 |
| Newid net mewn balansau arian parod a'r hyn sy'n cyfateb iddo | 4,177 | 2,050 |
| Ar 31 Mawrth | 25,355 | 21,178 |
| Daliwyd y balansau canlynol ar 31 Mawrth yn: | | |
| Gwasanaeth Bancio'r Llywodraeth | 25,355 | 21,178 |
| Banciau masnachol ac arian parod mewn llaw | - | - |
| Balans ar 31 Mawrth | 25,355 | 21,178 |

12. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2015-16 | 2014-15 |
|--|--------------|---------------|
| | £000 | £000 |
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | £000 | £000 |
| Symiau masnach derbyniadwy | 656 | 1,165 |
| Incwm a gronnwyd | 4,062 | 7,645 |
| Rhagdaliadau | 3,581 | 3,480 |
| Cyllid a Thollau EM (TAW) | 389 | 340 |
| Symiau derbyniadwy staff | 231 | 214 |
| Balans ar 31 Mawrth | 8,919 | 12,844 |
| | 2015-16 | 2014-15 |
| | £000 | £000 |
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn: | £000 | £000 |
| Cymhelliant prydles a gronnwyd | 1,977 | - |
| Balans ar 31 Mawrth | 1,977 | - |

Mae symiau derbyniadwy staff yn cynnwys benthyciadau sy'n weddill, y mae £218k o'r swm hwnnw yn ymwneud â benthyciadau tocyn tymor i gyflogion, ac y mae £3k yn ymwneud â blaendal tai i gyflogai.

13. Symiau masnach taladwy a rhwymedigaethau cyfredol eraill

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---------------|---------------|
| Symiau sy'n ddyledus o fewn blwyddyn: | £000 | £000 |
| Trethiant arall a nawdd cymdeithasol | 1,035 | 1,088 |
| Symiau masnach taladwy | 133 | 30 |
| Symiau taladwy staff | 1,285 | 1,339 |
| Ffioedd trwydded gohiriedig | 14,506 | 5,465 |
| Premiwm gwrthdro lesddaliad | 316 | 316 |
| Cymhelliant lesddaliadol | 689 | - |
| Croniadau ac incwm gohiriedig arall | 4,775 | 5,352 |
| Symiau a roddwyd o'r gronfa gyfunol i'w cyflenwi ond nas gwariwyd erbyn diwedd y flwyddyn | 15,755 | 16,858 |
| Derbyniadau arian parod dros ben | 9,600 | 4,320 |
| Balans ar 31 Mawrth | 48,094 | 34,768 |

| | 2015-16 | 2014-15 |
|--|-------------|-------------|
| Symiau sy'n ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn: | £000 | £000 |
| Premiwm gwrthdro lesddaliad | 75 | 392 |
| Cymhelliant lesddaliadol | 460 | - |
| Balans ar 31 Mawrth | 535 | 392 |

Ym mis Chwefror 2015 llofnododd Ofgem gytundeb i ildio ei hawliau o dan Ddeddf Landlord a Tenant 1954, mewn perthynas â'i bencadlys yn Millbank. O dan y cytundeb bydd Ofgem yn gadael yr adeilad erbyn 23 Mehefin 2018 fan bellaf, yn hytrach nag arfer ei hawl i barhau â'r brydles tan y torbwynt nesaf ym mis Mehefin 2017.

Er mwyn cydnabod bod Ofgem wedi ildio ei hawliau, cytunodd Prudential, landlord yr eiddo, i ildio'r gofyniad ar Ofgem i dalu costau dadfeiliadau pan fydd yn gadael. Mae'r swm o £1.9 miliwn a oedd wedi'i ddarparu'n flaenorol ar gyfer dadfeiliadau wedi cael ei wrthdroi a'i drin fel cymhelliant prydles a gaiff ei ddefnyddio dros y cyfnod disgwylidig nes daw'r adeg i adael Millbank.

Yn ogystal ag ildio costau dadfeiliadau, cytunodd Berkeley Homes, yr ymrwymodd y landlord i gontract ag ef i ailddatblygu Millbank, i dalu £5.25 miliwn i Ofgem.

Mae'r swm o £5.25 miliwn yn cynnwys adnau o £0.25 miliwn a oedd yn daladwy ar adeg llofnodi (mis Chwefror 2015). Roedd y cytundeb yn ei gwneud yn ofynnol i Berkeley Homes dalu'r adnau hwn i bwy bynnag a gyfarwyddwyd gan Ofgem. Cyfarwyddodd Ofgem y dylid talu'r swm i'r asiantau a negododd y cytundeb. Ni chafodd Ofgem unrhyw daliad.

Bydd Ofgem yn derbyn y £5.0 miliwn sy'n weddill pan fydd yn gadael Millbank, ac mae wedi cael ei drin fel cymhelliant prydles dros y cyfnod disgwylidig nes iddo adael Millbank. Mae'r swm a gronnwyd yn ystod 2015-16 wedi'i gynnwys o fewn incwm a gronnwyd yn nodyn 12.



14. Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau a thaliadau

14.1 Ymddeol yn gynnar

| | 2015-16 | 2014-15 |
|--|------------|------------|
| | £000 | £000 |
| Balans ar 1 Ebrill | 332 | 424 |
| Darparwyd yn ystod y flwyddyn | 16 | 11 |
| Costau Benthycu | - | - |
| Darpariaethau diangen a adferwyd | (9) | - |
| Darpariaethau a ddefnyddiwyd yn ystod y flwyddyn | (100) | (103) |
| Balans ar 31 Mawrth | 239 | 332 |

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|------------|------------|
| | £000 | £000 |
| Dadansoddiad o amseriadau disgwylidig llifau arian parod wedi'u disgowntio | | |
| O fewn blwyddyn | 64 | 95 |
| Ar ôl blwyddyn ond cyn pen pum mlynedd | 87 | 115 |
| Ar ôl pum mlynedd | 88 | 122 |
| Balans ar 31 Mawrth | 239 | 332 |

Yr adran sy'n talu costau ychwanegol buddiannau y tu hwnt i fuddiannau arferol PCSPS i gyflogeion sy'n ymddeol yn gynnar drwy dalu'r symiau gofynnol yn fisol i'r PCSPS dros y cyfnod rhwng yr ymadawiad cynnar a'r dyddiad ymddeol arferol. Mae'r adran yn darparu ar gyfer hyn yn llawn pan fydd y rhaglen ymddeol yn gynnar yn ei rwymo drwy sefydlu darpariaeth ar gyfer y taliadau amcangyfrifedig a ddisgowntiwyd yn unol â chyfradd ddisgowntio'r Trysorlys, sef 1.37% mewn termau real.

14.2 Rhwymedigaethau pensiwn

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|------------|------------|
| | £000 | £000 |
| Darpariaeth ar 1 Ebrill | 779 | 744 |
| Cost llog | 27 | 32 |
| Taliadau buddiannau gwirioneddol (Ennill)/colled actiwaraid | (18) | (18) |
| | (26) | 21 |
| Cost gwasanaeth a roddwyd | - | - |
| Darpariaeth ar 31 Mawrth | 762 | 779 |
| Symudiad net yn ystod y flwyddyn (heb gynnwys ennill/colled actiwaraid) | 9 | 14 |

| | 2015-16 | 2014-15 |
|--|---------|---------|
| | £000 | £000 |
| Hanes colledion profiad | | |
| Ennill profiad sy'n deillio o rwymedigaethau'r cynllun | (8) | (3) |
| Y swm a gydnabuwyd fel canran gwerth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | (1.0%) | (0.4%) |
| Cyfanswm a gydnabuwyd mewn datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr | (26) | 21 |

Mae'r ddarpariaeth bensiwn ar gyfer y rhwymedigaethau pensiwn heb eu talu sy'n dod i'n rhan ar gyfer cyn-brif weithredwr a chyfarwyddwr cyffredinol. Nid yw'r ddarpariaeth bensiwn wedi'i hariannu, gyda'r buddiannau'n cael eu talu wrth iddynt ddod yn ddyledus a'u gwarantu gan Ofgem. Nid oes cronfa, ac felly nid oes gwarged na diffyg. Rydym wedi ceisio cyngor actiwaraid er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth a bennwyd ar lefel realistig.

Cynhaliwyd prisiad actiwaraid gan Adran Actiwari'r Llywodraeth ar 31 Mawrth 2016. Y prif dybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr actiwari oedd:

| | Ar 31 Mawrth 2016 | Ar 31 Mawrth 2015 |
|--|----------------------|----------------------|
| | % (y flwyddyn) | % (y flwyddyn) |
| Tybiaeth ynglŷn â chwyddiant - MPD | 2.20 | 2.20 |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 4.20 | 4.20 |
| Cyfradd y cynnydd ar gyfer pensiynau mewn taliadau ac incwm gohiriedig | 2.20 | 2.20 |

| | 2015-16 | 2014-15 | 2013-14 |
|--|---------|---------|---------|
| | £000 | £000 | £000 |
| Dadansoddi colled actiwaraid | | | |
| (Ennill)/colli profiad sy'n deillio o rwymedigaethau'r cynllun | (8) | (3) | 8 |
| Newidiadau mewn tybiaethau sy'n sail i werth presennol rhwymedigaethau'r cynllun | (18) | 24 | 35 |
| Yn unol â'r datganiad o newidiadau yn ecwiti trethdalwyr | (26) | 21 | 43 |

O 31 Mawrth 2016, newidiodd y gyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau'r cynllun pensiwn o 1.30% i 1.37%. Adlewyrchir y gyfradd hon ym mhriiad rhwymedigaeth y cynllun pensiwn ar 31 Mawrth 2016.



14.3 Dadfeiliadau

| | 2015-16 |
|---|--------------|
| | £000 |
| Darpariaeth ar 1 Ebrill | 1,900 |
| Gwrthdroi darpariaeth ar gyfer dadfeiliadau | (1,900) |
| Darpariaeth ar 31 Mawrth | - |

Ym mis Chwefror 2015 llofnododd Ofgem gytundeb i ildio ei hawliau o dan Ddeddf Landlord a Tenant 1954, mewn perthynas â'i swyddfa yn 9 Millbank. O dan y cytundeb bydd Ofgem yn gadael yr adeilad erbyn 23 Mehefin 2018 fan bellaf, yn hytrach nag arfer ei hawl i barhau â'r brydles.

Er mwyn cydnabod y ffaith bod Ofgem wedi ildio ei hawliau, ildiodd landlord yr eiddo y gofyniad ar Ofgem i dalu costau dadfeiliadau pan fydd yn gadael. O ganlyniad, cafodd y ddarpariaeth ar gyfer dadfeiliadau ei gwrthdroi a'i thrin fel cymhelliant prydles wedi'i rannu dros y cyfnod hyd at y dyddiad y disgwylir i Ofgem adael Millbank.

15. Rhwymedigaethau digwyddiadol a ddatgelir o dan IAS 37

O bryd i'w gilydd byddwn yn destun her gyfreithiol ac adolygiad barnwrol o benderfyniadau a wneir yn ystod ein busnes arferol fel rheoleiddiwr y marchnadoedd nwy a thrydan. Gallai dyfarniadau cyfreithiol arwain at atebolrwydd i dalu costau cyfreithiol ond ni ellir mesur y rhain gan y byddai canlyniad yr achos yn anhysbys. Felly, mae cryn ansicrwydd ynglŷn â natur a graddau unrhyw rwymedigaeth ganlyniadol.

Ar 31 Mawrth 2016 nid oedd unrhyw rwymedigaethau digwyddiadol yr oedd angen eu datgelu.

16. Trafodion â phartion cysylltiedig

Yn ystod y flwyddyn, trosglwyddwyd £5.8372 miliwn i'r Adran Busnes, Arloesi a Sgiliau ar gyfer costau Llais y Defnyddiwr (yn gweithredu fel Dyfodol Defnyddwyr) a Cyngor ar Bopeth a oedd yn gysylltiedig â'r sector ynni. Yn ogystal, trosglwyddwyd £0.964 miliwn i'r Swyddfa Fesur Genedlaethol ar gyfer gwasanaethau metroleg.

Rydym yn gweinyddu rhaglenni amgylcheddol ar ran yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, ac yn secondio staff i'r adran honno. Roedd yr incwm gan yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn yn gwneud cyfanswm o £18.528 miliwn.

Rydym yn is-osod rhan o'n safle yn Millbank i Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA). Rydym yn gweinyddu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran yr Adran Menter, Masnach a Buddsoddi, ac yn gweinyddu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon ar ran Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau. Yr incwm a gydnabuwyd yn ystod y flwyddyn oedd £1.727 miliwn gan DEFRA, £0.620 miliwn gan Awdurdod Gogledd Iwerddon dros Reoleiddio Cyfleustodau, a £0.327 miliwn gan yr Adran Menter, Masnach a Buddsoddi.

Yn ogystal, rydym wedi ymgymryd â nifer fach o drafodion gydag adrannau eraill o'r llywodraeth a chyrrff llywodraeth ganolog. Nid oes dim un o aelodau'r Awdurdod, staff rheoli allweddol na phartion cysylltiedig wedi ymgymryd ag unrhyw drafodion materol ag Ofgem yn ystod y flwyddyn.

17. Asedau trydydd partïon

Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy

Nod y Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy, Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yr Alban a Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy Gogledd Iwerddon yw rhoi cymhelliant i gynhyrchu ynni adnewyddadwy yn y farchnad cynhyrchu trydan. Cyflwynwyd y cynlluniau hyn gan yr Adran Masnach a Diwydiant (yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd bellach), Gweinyddiaeth yr Alban a'r Adran Menter, Masnach a Buddsoddi yn y drefn honno a chânt eu gweinyddu gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan (yr Awdurdod), y cyflawnir ei swyddogaethau o ddydd i ddydd gan Ofgem. Darperir ar gyfer y cynlluniau mewn is-ddeddfwriaeth ac maent yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr trydan trwyddedig gael cyfran benodol o'r trydan a gyflenwir ganddynt o ffynonellau adnewyddadwy neu wneud taliad i gronfa prynu cyfran, neu gyfuniad o'r ddau. Mae Tystysgrif Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn dystiolaeth bod cyflenwr wedi cael ei drydan o ffynonellau adnewyddadwy.

Mae pob taliad prynu cyfran yn mynd i mewn i'n cronfa prynu cyfran ar gyfer cyfnod cydymffurfio penodol. Yna caiff y taliadau hyn (gan gynnwys taliadau hwyr) eu hailddosbarthu i gyflenwyr erbyn canol mis Tachwedd ar ôl diwedd y cyfnod cydymffurfio (sy'n rhedeg o fis Ebrill i fis Mawrth bob blwyddyn) i'r rhai sydd wedi cyflwyno Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy. Fel arfer mae'r balans yn y gronfa prynu cyfran yn werth bach iawn ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa prynu cyfran ar 31 Mawrth 2016 oedd £362 (31 Mawrth 2015: £3,147).

Cronfeydd Lefelu Tariffau Cyflenwi Trydan

Mae'r cynllun Tariffau Cyflenwi Trydan (FIT) yn rhaglen a gyflwynwyd gan y Llywodraeth ar 1 Ebrill 2010 i annog pobl i ddefnyddio technolegau cynhyrchu trydan adnewyddadwy a charbon isel ar raddfa fach.

Mae Ofgem yn gweinyddu'r cynllun ar ran yr Adran Ynni a Newid Hinsawdd, sy'n gyfrifol am bolisi a deddfwriaeth y cynllun FIT ac mae Cyflenwyr Trydan Trwyddedig (Trwyddedeion FIT) yn gweithredu'r agwedd ar y cynllun sy'n wynebu'r cyhoedd. Os bydd gan ddeiliad tŷ, cymuned neu fusnes osodiad cymwys, telir tariff iddynt am y trydan a gynhyrchir ganddynt a thariff am y trydan a allforir ganddynt yn ôl i'r grid gan eu Trwyddedai FIT.

Mae'r broses lefelu a weithredir gan Ofgem yn ailddosbarthu cost y cynllun ymhlith yr holl Gyflenwyr Trydan Trwyddedig, yn seiliedig ar eu cyfran o Farchnad Drydan Prydain Fawr ac unrhyw Daliadau FIT a wnaed ganddynt i osodiadau achrededig. Proses chwarterol yw hon, gyda phroses gysoni flynyddol a gwblheir erbyn mis Medi bob blwyddyn. Fel arfer, mae'r balans yn y gronfa lefelu yn werth bach ar ddiwedd pob blwyddyn ariannol.

Y swm a ddaliwyd yn y gronfa lefelu ar 31 Mawrth 2016 oedd £93,289 (31 Mawrth 2015: £60,373).

18. Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Doedd dim digwyddiadau adroddadwy rhwng diwedd y cyfnod adrodd a 28 Mehefin 2016, y dyddiad cyhoeddi awdurdodedig. Nid ydyw'r datganiadau ariannol yn adlewyrchu'r digwyddiadau ar ôl y dyddiadau hynny.

Yn dilyn Refferendwm yr UE ar 23 Mehefin 2016, byddwn yn adolygu goblygiadau'r canlyniad ar gyfer y sefydliad.

Datganiad Ymddiriedaeth



Rhagair y swyddog cyfrifyddu i'r datganiad ymddiriedaeth

Cwmpas

Rheolir Ofgem gan yr Awdurdod Marchnadoedd Nwy a Thrydan. Nodir cyfrifoldebau'r Awdurdod yn Neddf Nwy 1986, Deddf Trydan 1989 fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Cyfleustodau 2000, Deddf Ynni 2004, Deddf Ynni 2008, Deddf Ynni 2010, Deddf Ynni 2011, Deddf Ynni 2013 a deddfwriaeth gysylltiedig.

Mae'r Awdurdod yn gyfrifol am orfodi a chasglu dirwyon a chosbau a osodir ar y cwmnïau ynni y mae'n eu rheoleiddio, a chasglu ardollau tanwydd ffosil Cymru a Lloegr, a'r Alban.

Mae'r datganiad ymddiriedaeth yn adrodd ar y refeniw a'r gwariant a'r asedau a'r rhwymedigaethau sy'n gysylltiedig â dirwyon, cosbau a'r ardollau tanwydd ffosil ar gyfer y flwyddyn ariannol 2015-16. Casglwn y symiau hyn er mwyn eu talu i'r gronfa gyfunol.

Paratwir y datganiad hwn hefyd i ddatgelu unrhyw wariant neu incwm materol nas cymhwyswyd at y dibenion a fwiadwyd gan y Senedd, neu drafodion materol nad ydynt wedi cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Ni fu unrhyw wariant nac incwm o'r fath yn ystod 2015-16.

Cefndir

Cosbau

O dan Ddeddf Nwy 1986 a Deddf Trydan 1989 gall yr Awdurdod osod cosb os yw'n fodlon bod deiliad trwydded wedi mynd yn groes neu yn mynd yn groes i unrhyw ofyniad neu amod perthnasol, neu wedi methu neu yn methu â chyflawni unrhyw safon ragnodedig o berfformiad.

Ni all unrhyw gosb a osodir gan yr Awdurdod fod yn fwy na 10% o drosiant deiliad y drwydded. Caiff unrhyw symiau a dderbynnir gan yr Awdurdod drwy gyfrwng cosb eu talu i mewn i'r gronfa gyfunol. Yn 2015-16, cafwyd cyfanswm o £5 miliwn a £15 mewn cosbau nominal. Defnyddir cosbau nominal lle y deir i benderfyniad ynghylch achosion a thelir taliadau unioni.

Mae'r Awdurdod yn hysbysu deiliad y drwydded ei fod yn cynnig gosod cosb ac mae'n ymgynghori ar hyn yn gyhoeddus.

Ardoll Tanwydd Ffosil

Nod Gorchmynion Rhwymedigaeth i Danwydd nad yw'n Danwydd Ffosil (NFFO) (Cymru a Lloegr) oedd creu marchnad gychwynnol ar gyfer technolegau cynhyrchu adnewyddadwy sefydledig, yn y gobaith y byddent yn y pen draw yn gallu cystadlu heb gymorth ariannol. Roedd Gorchmynion NFFO yn ei gwneud yn ofynnol i'r cyn-gyflenwyr trydan cyhoeddus (PESs) brynu swm penodol o drydan o ffynonellau adnewyddadwy. Talwyd am gostau ychwanegol cyflenwyr trydan cyhoeddus yr aethpwyd iddynt wrth brynu trydan o ffynonellau adnewyddadwy drwy gyfrwng yr Ardoll Tanwydd Ffosil.



Gyda newidiadau i Ddeddf Cyfleustodau 2000 (h.y. cyflwyno Trefniadau Masnachu Trydan Newydd (NETA)) a chyflwyno Gorchymynion Arbed NFFO, daeth yr Asiantaeth Prynu nad yw'n Gysylltiedig â Ffosil (NFFPA) yn brynu'r allbwn ar gyfer y cynhyrchwyr ynni NFFO hyn ar y pris contract gwarantedig. Mae NFFPA yn gwerthu'r allbwn i gyflenwyr trydan (drwy arwerthiannau ar-lein) ac mae ganddi hawl i gael arian ardollau i wneud iawn am unrhyw ddiffyg.

Ariannodd yr Ardoll Tanwydd Ffosil y gwahaniaeth rhwng y prisiau contract a warantwyd i'r cynhyrchwyr ynni adnewyddadwy a phris marchnad trydan. Er i bris y farchnad barhau i fod yn is na'r pris gwarantedig, gwnaed iawn am y diffyg o reffeniw yr Ardoll Tanwydd Ffosil (FFL). Casglodd cyflenwyr trydan trwyddedig FFL oddi wrth gwsmeriaid, ar gyfradd a bennwyd gennym, a thalwyd yr arian hwn i ni i'w ailddosbarthu i gynhyrchwyr ynni cymwys.

Mae gan gyflenwyr sy'n prynu allbwn oddi wrth gynhyrchwyr ynni NFFO yr hawl i gael y Tystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy (ROCs) cysylltiedig. Ar hyn o bryd, mae prinder tystysgrifau o'r fath, felly mae pris arwerthiant cyfartalog allbwn o gontractau NFFO yn fwy na'r pris cyfartalog a warentir i'r cynhyrchwyr ynni ar hyn o bryd o dan gontractau NFFO. Felly, sero yw'r gyfradd ardollau gyfredol, a bennir gennym ni. Pan fydd pris arwerthiant allbwn yn fwy na'r pris gwarantedig, telir unrhyw warged i mewn i'n cyfrifon FFL. Ceir trefniant tebyg ar gyfer gweinyddu FFL yr Alban.

Oherwydd y contractau NFFO sy'n weddill sy'n dod i ben yn ystod y tair blynedd nesaf, bydd lefel yr incwm o'r ddau gynllun FFL yn parhau i ostwng.

Creodd Deddf Ynni Cynaliadwy 2003 system lle roedd gwarged yr FFL, hyd at uchafswm o £60 miliwn, yn gallu cael ei drosglwyddo o gyfrif ardollau Cymru a Lloegr i'r gronfa gyfunol. Mae gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Fusnes, Arloesedd a Sgiliau ddyletswydd i wario'r swm at ddiben hyrwyddo'r defnydd o ynni o ffynonellau adnewyddadwy. Mae darpariaeth debyg wedi ei chynnwys ym Mil Ynni Gweithrediaeth yr Alban sy'n ymwneud â chyfrif ardollau'r Alban.

O ganlyniad i fynd y tu hwnt i'r terfyn o £60 miliwn, caiff pob derbyniad FFL arall ei thrin fel reffeniw etifeddol, gan eu bod yn dderbyniadau anstatudol. Mae Adran 1 o Ddeddf Rhestr Sifil 1952 yn ei gwneud yn ofynnol i reffeniw etifeddol gael ei dalu i mewn i'r gronfa gyfunol. Ar 30 Mawrth 2016, trosglwyddwyd £23 miliwn i'r gronfa gyfunol o gyfrif Cymru a Lloegr ar y sail hon.

Ar y cyd â'r Trysorlys EM, caiff tua £30 miliwn ei gadw fel isafswm balans ar gyfrif FFL Cymru a Lloegr. Mae'r swm hwn yn cynrychioli ardoll a dalwyd gan ddefnyddwyr cyn i'r gyfradd gael ei lleihau i 0% ar 1 Ebrill 2002, ac y cytunir y dylid ei chadw yn y cyfrif, fel cronfa wrth gefn, rhag ofn y bydd yn rhaid i ni unwaith eto wneud taliadau i gynhyrchwyr ynni cymwys.

O dan adran 187 o Ddeddf Ynni 2004, gall Llywodraeth yr Alban ein gorchymyn i dalu swm o gyfrif ardollau'r Alban i gronfa gyfunol yr Alban. Ni chafwyd gorchymyn o'r fath yn ystod 2015-16.

Adolygiad ariannol

Eleni gwnaethom osod cosbau ar gwmnïau a oedd yn ei gwneud yn ofynnol iddynt wneud iawn i gwsmeriaid yr effeithiwyd arnynt. Mae'r adolygiad ariannol hwn yn ymdrin â chosbau a arweiniodd at arian yn llifo i'r gronfa gyfunol.

Spark Energy Supply

Ar 21 Ebrill 2015 cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb o £1 a thaliadau unioni o £249,999 ar Spark Energy Supply yn dilyn ymchwiliad gan Ofgem i gydymffurfiaeth Spark â nifer o amodau a gofynion perthnasol a nodir yn yr Amodau Trwydded Safonol a'r Rheoliadau Trin Cwynion Defnyddwyr. Mae'r Amodau Trwydded Safonol yn nodi'r rheolau ar sut y gall trwyddedau weithredu o fewn telerau eu trwyddedau cyflenwi nwy a thrydan. Mae'r Rheoliadau Trin Cwynion Defnyddwyr yn rhagnodi'r safonau gofynnol y mae'n ofynnol i ddarparwyr rheoledig eu cyflawni wrth drin cwynion defnyddwyr.

Cydnabu Spark nad oedd ei arferion yn bodloni'r gofynion o ran gwrthwynebiadau, trosglwyddo cwsmeriaid, ad-daliadau, bilio a thrin cwynion. Gwnaeth Spark welliannau sylweddol yn y meysydd hyn yn ystod yr ymchwiliad a gwelodd ei berfformiad o ganlyniad i hynny.

At hynny, cynigiodd Spark dalu £250,000 (llai £1) i sefydliadau defnyddwyr priodol drwy gyfrwng setliad.

Ar ôl ystyried holl amgylchiadau'r achos, ystyriodd yr Awdurdod y byddai'r taliad unioni hwn yn fwy buddiol i ddefnyddwyr na phe bai cosb ariannol sylweddol yn cael ei gosod.

Gwnaed y taliad unioni defnyddwyr i Citizens Advice Scotland, Citizens Advice England a Cyngor ar Bopeth Cymru ar 15 Ebrill 2015 i roi cyngor a chymorth i ddefnyddwyr ynni. Rhannwyd y taliad unioni hwn o £250,000 (llai'r gosb ariannol o £1) yn gyfartal rhwng y ddwy elusen hyn.

E.ON

Ar 22 Mai 2015, cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb ariannol o £1 a thaliadau unioni o £7,749,000 ar E.ON yn dilyn ymchwiliad i gydymffurfiaeth y cwmni ag Amodau Trwydded Safonol 23.6 (amrywiadau anfanteisiol unochrog o'r contract (gan gynnwys cynnydd mewn prisiau)) a 24.3 (ffioedd terfynu) ei drwyddedau cyflenwi trydan a nwy.

Ystyriodd yr Awdurdod fod E.ON wedi cytuno i setlo'r ymchwiliad hwn drwy wneud taliad o £7,750,000 (llai £1) mewn taliadau unioni defnyddwyr; roedd £1,400,000 mewn perthynas â thorri Amodau Trwydded Safonol 23.6 a 24.3 mewn perthynas â chynnydd ym mhrisiau mis Ionawr 2013 a £6,350,000 mewn perthynas ag Amod Trwydded Safonol 23.6 mewn perthynas â chynnydd ym mhrisiau mis Ionawr 2014.

Gwnaed y taliad o £7,750,000 (llai £1) ar 20 Mai 2015 er budd prosiect Ynni - Y Fargen Orau Ychwanegol Cyngor ar Bopeth a chaiff ei ddefnyddio i roi cyngor un-i-un ar ynni i ddefnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus ledled Cymru, Lloegr a'r Alban.

Utilita Energy

Ar 12 Tachwedd 2015, cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb ariannol o £1 a thaliadau unioni o £449,999 ar Utilita Energy am dorri ei ofynion o dan Amodau Trwydded Safonol 14 sy'n rheoli pryd y gall cyflenwr rwystro cais cwsmer domestig i drosglwyddo i gyflenwr arall.

Gwnaed y taliad o £449,000 i'r elusen StepChange.

Economy Energy

Ar 17 Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb ariannol o £1 a thaliadau unioni o £249,999 ar Economy Energy am dorri ei ofynion o dan Amodau Trwydded Safonol 23 a 25 sy'n ei gwneud yn ofynnol i sicrhau cydymffurfiaeth â'r holl ofynion perthnasol sy'n ymwneud â thelerau cytundebol, rhoi gwybod am gynnydd mewn prisiau a marchnata ynni i gwsmeriaid domestig.

Gwnaed y taliad unioni defnyddwyr i Brosiect Mesurydd Rhagdalau Ynni - y Fargen Orau Ychwanegol Cyngor ar Bopeth. Nod y prosiect yw rhoi cyngor a gwybodaeth i ddefnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus â mesuryddion rhagdalau sy'n byw mewn llety a ddarperir gan Gymdeithas Dai neu dai cymdeithasol i'w galluogi i reoli a deall sut i ddefnyddio eu mesuryddion rhagdalau.



E.ON

Ar 17 Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb ariannol o £2 a thaliadau unioni o £6,999,998 i'r Ymddiriedolaeth Garbon ar E.ON UK plc ac E.ON Energy Solutions Ltd yn dilyn ymchwiliad i gydymffurfiaeth y cwmnïau ag Amod Trwydded Safonol 12 ei drwyddedau cyflenwi trydan a nwy, mewn perthynas ag uwch fesuryddion ar gyfer safleoedd annomestig.

Yn ogystal â'r uchod, cytunodd E.ON hefyd i dalu £7 miliwn arall os na fydd yn cyrraedd targed dros dro, a bennwyd gan yr Awdurdod, am ei bwyntiau mesurydd heb eu casglu erbyn 2 Tachwedd 2016.

BES

Ar 18 Rhagfyr 2015, cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb ariannol ar BES Commercial Electricity Ltd a Business Energy Solutions Ltd o £2 a thaliadau unioni o £979,998, yn cynnwys £311,000 i ddefnyddwyr yr effeithiodd y toriadau arnynt, a'r gweddill i elusen defnyddwyr briodol a nodir gan BES ac a gymeradwyir gan yr Awdurdod.

Gwnaed hyn am fod yr Amodau Trwydded Safonol a Rheoliadau Safonau Trin Cwynion Defnyddwyr wedi'u torri sawl gwaith.

Gwnaed taliad o £669,000 (llai £2) mewn taliadau unioni defnyddwyr ar 17 Rhagfyr 2015 i'r elusen The Money Advice Trust (Business Debtline). Caiff y taliad unioni ei ddefnyddio i ariannu prosiect penodol lle bydd Business Debtline yn darparu gwasanaethau cyngor ar ddyledion i gwsmeriaid busnes sy'n cael trafferth i dalu eu biliau ynni. Mae BES wedi cytuno i wneud ail daliad i'r elusen hon ar ôl cwblhau ei drefniadau ar gyfer cysylltu â chwsmeriaid a thalu iawndal iddynt.

npower

Ar 27 Ionawr 2016 cyhoeddwyd hysbysiad gennym yn cadarnhau ein penderfyniad i osod cosb ariannol o £1 yr un ar npower Direct Ltd, npower Ltd, npower Northern Ltd, npower Northern Supply Ltd, npower Yorkshire Supply Ltd, npower Yorkshire Ltd ac npower Gas Ltd am dorri Amodau Trwydded Safonol 25C - Safonau Ymddygiad, a 27.17 o Drwydded Cyflenwi Nwy a Thyrdan a'r gofynion perthnasol o dan reoliadau 3-7 a 10 o Reoliadau Nwy a Thyrdan (Safonau Trin Cwynion Defnyddwyr) 2008, ac i wneud taliadau unioni o £25,999,993 i sefydliad trydydd sector a enwebir gan npower ac a gymeradwyir gan yr Awdurdod.

Ardoll Tanwydd Ffosil

Yn ystod 2015-16, gwnaethom gasglu £22.4 miliwn mewn perthynas ag ardoll Cymru a Lloegr, a £6.2 miliwn mewn perthynas ag ardoll yr Alban. Talwyd £23 miliwn o ardoll Cymru a Lloegr i'r gronfa gyfunol. Mae'r gostyngiad yn y symiau a gasglwyd o'i gymharu â 2014-15 yn adlewyrchu gostyngiad yn nifer y contractau NFFO. Bydd y gostyngiad hwn yn parhau tan 2018-19 pan ddaw'r contractau olaf i ben. Adenillir y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu'r ddwy ardoll o'r ardoll gennym ni ac fe'u dangosir fel incwm yn ein cyfrifon adnoddau.

Archwilwyr

Archwilir y datganiad ymddiriedaeth gan y rheolwr ac archwilydd cyffredinol o dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r farn archwilio ar dudalennau 94 i 95. Cynhwysir cydnabyddiaeth dybiannol yr archwilydd ar gyfer hyn yn ein cyfrifon adnoddau.

Nid oedd dim ffioedd ar gyfer gwaith nad oedd yn waith archwilio.

Sail y paratoi

Mae Cyfarwyddyd Cyfrifon Trysorlys EM, a gyhoeddwyd o dan adran 7(2) o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, yn ei gwneud yn ofynnol i ni baratoi'r datganiad ymddiriedaeth er mwyn rhoi darlun gwir a theg o'r sefyllfa o ran derbyn a throsglwyddo arian yr FFL, a dirwyon a chosbau. Rhoddir ystyriaeth i'r holl ofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a roddir yn Rheoli Arian Cyhoeddus a chanllawiau eraill a gyhoeddir gan y Trysorlys EM.

Barnau cyfrifyddu

Fel swyddog cyfrifyddu, fy nghyfrifoldeb i yw cymhwyso polisiau cyfrifyddu addas wrth baratoi'r datganiad ymddiriedaeth. Cydnabyddir referniw yn y flwyddym y mae'r ardoll yn ymwneud ag ef.

Digwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd

Ni fu unrhyw ddigwyddiadau ar ôl y cyfnod adrodd.



Dermot Nolan
Swyddog Cyfrifyddu

13 Mehefin 2016



Datganiad o gyfrifoldebau'r swyddog cyfrifyddu mewn perthynas â'r datganiad ymddiriedaeth

O dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000, mae'r Trysorlys EM wedi cyfarwyddo Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan (Ofgem) i baratoi datganiad ymddiriedaeth ar gyfer pob blwyddyn ariannol, ar y ffurf a'r sail a nodir yn y Cyfarwyddyd Cyfrifon.

Mae'r Trysorlys EM wedi penodi'r prif weithredwr fel swyddog cyfrifyddu Ofgem, gyda chyfrifoldeb cyffredinol am baratoi'r datganiad ymddiriedaeth ac am ei drosglwyddo i'r Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol.

Mae cyfrifoldebau swyddog cyfrifyddu, yn cynnwys cyfrifoldeb am briodoldeb a rheoleidd-dra'r arian cyhoeddus y mae swyddog cyfrifyddu yn gyfrifol amdano, cadw cofnodion cywir a diogelu ein hasedau, wedi'u nodi ym Memorandwm y Swyddogion Cyfrifyddu, a gyhoeddwyd gan y Trysorlys EM ac a gyhoeddwyd yn Rheoli Arian Cyhoeddus.

Paratwir y datganiad ymddiriedaeth ar sail croniadau a rhaid iddo roi darlun gwir a theg o'r sefyllfa o ran dirwyon a chosbau a osodir gan Ofgem, a'r Ardoll Tanwydd Ffossil ar gyfer Cymru, Lloegr a'r Alban a gesglir gennym ni, ynghyd â'r symiau net a ildwyd i'r gronfa gyfunol.

Wrth baratoi'r datganiad ymddiriedaeth, rhaid i'r Swyddog Cyfrifyddu fodloni gofynion Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth a baratwir gan y Trysorlys EM ac, yn enwedig, dylai wneud y canlynol:

- dilyn y Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan Drysorlys EM, gan gynnwys y gofynion cyfrifyddu a datgelu perthnasol a chymhwyso polisiau cyfrifyddu addas yn gyson
- llunio barn ac amcangyfrifon ar sail resymol
- nodi p'un a ddilynwyd safonau cyfrifyddu cymwys, fel y'u nodwyd yn Llawlyfr Adrodd Ariannol y Llywodraeth, a datgelu ac egluro unrhyw wriadau materol oddi wrth y cyfrifon
- paratwir datganiadau ariannol ar sail busnes byw.

Datganiad llywodraethu

Mae datganiad llywodraethu Ofgem, sy'n cwmpasu cyfrifon yr adnoddau a'r datganiad ymddiriedaeth, ar dudalennau 45 i 51.

Tystysgrif ac adroddiad Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol Tŷ'r Cyffredin

Tystiaf fy mod wedi archwilio datganiadau ariannol Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thydan am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016 o dan Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Mae'r datganiadau ariannol yn cynnwys y Datganiad o Refeniw, Incwm a Gwariant Arall, y Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol, y Datganiad o Lifau Arian Parod a'r nodiadau cysylltiedig. Paratowyd y datganiadau ariannol hyn o dan y polisiau cyfrifyddu a nodir ynddynt.

Priod gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu a'r archwilydd

Fel yr eglurir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Swyddog Cyfrifyddu, mae'r Swyddog Cyfrifyddu yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am gael ei fodloni eu bod yn rhoi darlun gwir a theg. Fy nghyfrifoldeb i yw archwilio, ardystio ac adrodd ar y datganiadau ariannol yn unol â Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Cynhaliiais fy archwiliad yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU ac Iwerddon). Mae'r safonau hynny yn ei gwneud yn ofynnol i mi a'm staff gydymffurfio â Safonau Moesegol Archwilwyr y Bwrdd Arferion Archwilio.

Cwmpas yr archwiliad o'r datganiadau ariannol

Mae a wnelo archwiliad â chasglu tystiolaeth am y symiau a'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y datganiadau ariannol yn rhydd o gamddatganiad materol, boed drwy dwyll neu wall. Mae hyn yn cynnwys asesiad o: b'un a yw'r polisiau cyfrifyddu yn briodol i amgylchiadau Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thydan ac a gawsant eu cymhwysu'n gyson a'u datgelu'n ddigonol; rhesymoldeb yr amcangyfrifon cyfrifyddu sylweddol a wnaed gan Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thydan; a chyflwyniad cyffredinol y datganiadau ariannol.

Darllenaf hefyd yr holl wybodaeth ariannol a gwybodaeth nad yw'n ariannol yn yr Adroddiad Blynyddol a rhagair y Swyddog Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth er mwyn nodi anghysondebau materol â'r datganiadau ariannol a archwiliwyd a nodi unrhyw wybodaeth yr ymddengys ei bod yn faterol anghywir yn seiliedig ar y wybodaeth a gasglwyd gennyf wrth gynnal yr archwiliad, neu'n faterol anghyson â'r wybodaeth honno. Os dof yn ymwybodol o unrhyw gamddatganiadau neu anghysondebau materol amlwg, ystyriaf y goblygiadau i'm tystysgrif.

Mae hefyd yn ofynnol i mi gael tystiolaeth sy'n ddigonol i roi sicrwydd rhesymol bod y gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd a bod y trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.

Barn ar reoleidd-dra

Yn fy marn i, ym mhob achos materol, mae'r gwariant a'r incwm a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol wedi'u cymhwyso at y dibenion a fwriadwyd gan y Senedd ac mae'r trafodion ariannol a gofnodwyd yn y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu rheoli.



Barn ar y datganiadau ariannol

Yn fy marn i:

- mae'r datganiadau ariannol yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa Datganiad Ymddiriedaeth Swyddfa'r Marchnadoedd Nwy a Thrydan ar 31 Mawrth 2016, ac o'i refeniw net am y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny; ac
- mae'r datganiadau ariannol wedi eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000 a chyfarwyddiadau Trysorlys EM a gyhoeddir o dan y Ddeddf honno.

Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i:

- mae'r wybodaeth a roddir yn yr Adroddiad Blynyddol a rhagair y Swyddogion Cyfrifyddu i'r Datganiad Ymddiriedaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol.

Materion rwyf yn rhoi adroddiad arnynt drwy eithriad

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol rwyf yn cyflwyno adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni dderbyniwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad gan ganghennau nad yw fy staff wedi ymweld â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu; neu
- ni chefais yr holl wybodaeth ac esboniadau sy'n ofynnol ar gyfer fy archwiliad; neu
- nid yw'r Datganiad Llywodraethu yn adlewyrchu cydymffurfiaeth â chanllawiau Trysorlys EM.

Adroddiad

Nid oes gennyf unrhyw sylwadau i'w gwneud ar y datganiadau ariannol hyn.

Sir Amyas C E Morse

Rheolwr ac Archwilydd Cyffredinol
Swyddfa Archwilio Genedlaethol
157-197 Buckingham Palace Road
Victoria, Llundain SW1W 9SP

28 Mehefin 2016

Datganiad o refeniw, ac incwm a gwariant arall am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | | 2015-16 | 2014-15 |
|--|-------|---------------|---------------|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| Refeniw | | | |
| Dirwyon a chosbau | | | |
| Cosbau a osodwyd | 2.1 | - | 5,925 |
| Ardoll Tanwydd Ffosil | | | |
| Ardoll Tanwydd Ffosil (Cymru a Lloegr) | | 20,529 | 37,545 |
| Ardoll Tanwydd Ffosil (Yr Alban) | | 5,595 | 6,804 |
| Incwm arall | | | |
| Llog ar gosbau | | - | 4 |
| Llog ar Ardoll Tanwydd Ffosil (Cymru a Lloegr) | | 124 | 126 |
| Llog ar Ardoll Tanwydd Ffosil (Yr Alban) | | 102 | 81 |
| Cyfanswm y refeniw ac incwm arall | | 26,350 | 50,485 |
| Gwariant | | | |
| Gweinyddu'r Ardoll Tanwydd Ffosil | | (67) | (80) |
| Cyfanswm y gwariant | | (67) | (80) |
| Refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol | | 26,283 | 50,405 |

Ni fu unrhyw enillion na cholledion cydnabyddedig y cyfrifwyd amdanynt y tu allan i'r datganiad uchod o refeniw ac incwm a gwariant arall.

Mae'r nodiadau ar dudalennau 99 i 101 yn rhan o'r datganiad hwn.



Datganiad o'r sefyllfa ariannol ar 31 Mawrth 2016

| | | 2015-16 | 2014-15 |
|--|-------|---------------|---------------|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| Asedau cyfredol | | | |
| Symiau derbyniadwy a refeniw cronedig derbyniadwy | 3 | 3,773 | 11,305 |
| Arian parod yn y banc - cronfa gyfunol y DU | | 29,111 | 29,597 |
| Arian parod yn y banc - cronfa gyfunol yr Alban | | 37,291 | 30,993 |
| Asedau cyfredol net | | 70,175 | 71,895 |
| Rhwymedigaethau cyfredol | | | |
| Symiau taladwy a rhwymedigaethau gwariant cronedig | 4 | (9) | (12) |
| Cyfanswm asedau net | | 70,166 | 71,883 |
| Cynrychiolir gan: | | | |
| Balans ar gyfrif cronfa gyfunol y DU | | 32,134 | 39,534 |
| Balans ar gyfrif cronfa gyfunol yr Alban | | 38,032 | 32,349 |
| | 5 | 70,166 | 71,883 |

Dermot Nolan
Swyddog Cyfrifyddu

13 Mehefin 2016

Mae'r nodiadau ar dudalennau 99 i 101 yn rhan o'r datganiad hwn.

Datganiad o lifau arian parod am y flwyddyn a ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|----------|----------|
| | £000 | £000 |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | 33,812 | 51,309 |
| Arian parod a dalwyd i'r cronfeydd cyfunol | (28,000) | (43,929) |
| Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod | 5,812 | 7,380 |

Nodiadau i'r datganiad llif arian parod

A: Cysoni llif arian parod net â symudiad mewn cronfeydd net

| | | 2015-16 | 2014-15 |
|---|-------|---------|---------|
| | Nodyn | £000 | £000 |
| Refeniw net ar gyfer y gronfa gyfunol | | 26,283 | 50,405 |
| Gostyngiad mewn asedau nad ydynt yn arian parod | 3 | 7,532 | 911 |
| Gostyngiad mewn rhwymedigaethau | 4 | (3) | (7) |
| Llif arian parod net o weithgareddau gweithredu | | 33,812 | 51,309 |

B: Dadansoddiad o newidiadau mewn cronfeydd net

| | 2015-16 | 2014-15 |
|--------------------------------------|---------|---------|
| | £000 | £000 |
| Cynnydd mewn arian parod yn y cyfnod | 5,812 | 7,380 |
| Cronfeydd net ar 1 Ebrill | 60,590 | 53,210 |
| Cronfeydd net ar 31 Mawrth | 66,402 | 60,590 |

Mae'r nodiadau ar dudalennau 99 i 101 yn rhan o'r datganiad hwn.



Nodiadau i'r datganiad ymddiriedaeth

1. Datganiad o bolisiau cyfrifyddu

1.1 Sail cyfrifyddu

Paratwir y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r Cyfarwyddyd Cyfrifon a gyhoeddwyd gan y Trysorlys EM o dan adran 7 o Ddeddf Adnoddau a Chyfrifon y Llywodraeth 2000. Paratwir y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r polisiau cyfrifyddu a nodir isod. Cytunwyd ar y rhain rhwng Ofgem a'r Trysorlys EM ac fe'u datblygwyd drwy gyfeirio at y Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol a chanllawiau perthnasol eraill. Mae'r polisiau cyfrifyddu wedi'u cymhwyso'n gyson wrth ymdrin ag eitemau yr ystyrir eu bod yn faterol i'r cyfrifon.

Yr incwm a'r gwariant cysylltiedig a geir yn y datganiadau hyn yw'r llifau hynny o gronfeydd y mae Ofgem yn ymdrin â hwy ar ran y gronfa gyfunol a lle y mae'n gweithredu fel asiant yn hytrach na phenadur.

Caiff y wybodaeth ariannol a geir yn y datganiadau ac yn y nodiadau ei thalgrynnu i'r £1,000 agosaf.

1.2 Confensiwn cyfrifyddu

Paratwir y datganiad ymddiriedaeth yn unol â'r confensiwn cost hanesyddol.

1.3 Cydnabod refeniw

Mesurir dirwyon, cosbau ac ardollau yn unol ag IAS 18. Fe'u mesurir ar werth teg y symiau a dderbyniwyd neu sy'n dderbyniadwy. Cydnabyddir incwm pan fydd y canlynol yn berthnasol:

- gosodir dirwy neu gosb yn ddilys a bydd rhwymedigaeth i dalu yn codi
- daw taliad ardoll yn ddyledus.

2. Refeniw

2.1 Dirwyon a chosbau

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---------------------|----------|--------------|
| | £000 | £000 |
| Rhoi cosb ar npower | - | 125 |
| Rhoi cosb ar BG | - | 800 |
| Rhoi cosb ar Drax | - | 5,000 |
| Cyfanswm | - | 5,925 |

Nid yw'r cosbau nominal derbyniadwy yn dangos oherwydd talgrynnu.

3. Symiau derbyniadwy a refeniw croniedig derbyniadwy

| | Refeniw cyfartalog derbyniadwy ar 31 Mawrth 2016 | Symiau derbyniadwy ar 31 Mawrth 2016 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2015 |
|-----------------------|--|---|-------------------------------|
| | £000 | £000 | £000 |
| Dirwyon a chosbau | - | - | 5,000 |
| Ardoll Tanwydd Ffosil | 3,773 | 3,773 | 6,305 |
| Cyfanswm | 3,773 | 3,773 | 11,305 |

Symiau derbyniadwy yw'r symiau sy'n deillio o'r rhai y gosodwyd cosbau ariannol arnynt neu lle yr aseswyd ardoll ar ddyddiad y fantolen, ond lle y ceir derbyniad wedi hynny.

Nid yw'r cosbau nominal derbyniadwy yn dangos oherwydd talgrynnu.



4. Symiau taladwy a rhwymedigaethau gwariant cronedig

| | Symiau taladwy ar 31 Mawrth 2016 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2016 | Cyfanswm ar 31 Mawrth 2015 |
|------------------------|-------------------------------------|-------------------------------|-------------------------------|
| | £000 | £000 | £000 |
| Ardoll Tanwydd Ffossil | 9 | 9 | 12 |
| Cyfanswm | 9 | 9 | 12 |

Symiau taladwy yw'r symiau y cadarnhawyd eu bod yn ddyledus ar ddyddiad y fantolen, ond lle y gwneir taliad wedi hynny.

5. Balans ar gyfrifon y Gronfa Gyfunol

| | 2015-16 | 2014-15 |
|---|---------------|---------------|
| | £000 | £000 |
| Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol | 71,883 | 65,407 |
| Refeniw net ar gyfer cyfrifon y gronfa gyfunol | 26,283 | 50,405 |
| Llai swm a dalwyd i'r gronfa gyfunol | (28,000) | (43,929) |
| Balans ar gyfrifon y gronfa gyfunol ar 31 Mawrth | 70,166 | 71,883 |

Atodiadau





Atodiad I

Perfformiad yn erbyn nodau i'w cyflawni 2015–16

Roedd ein Blaenraglen Waith ar gyfer 2015-16 yn cynnwys nodau i'w cyflawni ym mhob chwarter. Strwythurodd y Flaenraglen Waith ar gyfer 2015-16 nodau i'w cyflawni yn ôl ein hallbynnau strategol.

Mae'r tabl isod a'r manylion ar y tudalennau canlynol yn dangos y nodau a gyflawnwyd gennym.

| | Nifer yn y Flaenraglen Waith | Cyfanswm a gyflawnwyd | | Gohiriwyd tan 2016-17 |
|---------------------------|------------------------------|-------------------------------|-------------------------------------|-----------------------|
| | | Bodlonwyd yn ystod y chwarter | Bodlonwyd mewn chwarter diweddarach | |
| Blwyddyn lawn | | | | |
| Cyfanswm am y flwyddyn | 44 | 39 | 3 | 2 |
| Chwarter cyntaf | | | | |
| Cyfanswm y chwarter | 10 | 10 | - | - |
| Ail chwarter | | | | |
| Cyfanswm y chwarter | 18 | 14 | 3 | 1 |
| Trydydd chwarter | | | | |
| Cyfanswm y chwarter | 8 | 8 | - | - |
| Pedwerydd chwarter | | | | |
| Cyfanswm y chwarter | 8 | 7 | - | 1 |



| Rheoleiddio monopoliau | | |
|---|-----------------------|-----------------------|
| Cam gweithredu | Chwarter Disgwyliedig | Chwarter Gwirioneddol |
| Cyhoeddi Cynllun Cymhelliant Gweithredwr System trydan newydd (2015-2017) | Q1 | Q1 |
| Cyhoeddi cymhelliant cynnal a chadw, rhagamcanu ac allyriadau nwy tŷ gwydr (GHG) arall yn lle'r un cyfredol ar gyfer Gweithredwr System Nwy (2015-2018) | Q1 | Q1 |
| Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar berfformiad y Grid Cenedlaethol ar y Dull Capasiti | Q1 | Q1 |
| Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar weithrediad y Dull Capasiti | Q1 | Q1 |
| Cyhoeddi ymgynghoriad i adolygu diwygiadau llywodraethu codau | Q1 | Q1 |
| Cyhoeddi strategaeth hyblygrwydd | Q2 | Q2 |
| Cyhoeddi penderfyniadau ar asesiad prosiect cychwynnol capio a phennu terfyn isaf ar gyfer Greenlink, Viking Link, IFA2 a FAB | Q2 | Q2 |
| Cyhoeddi llythyr penderfyniad ar newidiadau gwell i drwydded y Gweithredwr System | Q2 | Q2 |
| Cyhoeddi cynigion terfynol ar wella'r rhyngweithio ar gyfer seilwaith traws-sector (i'w gyflawni gan UKRN) | Q2 | Q2 |
| Cyhoeddi penderfyniad ar fethodoleg dirwyn i ben DPCR5 | Q2 | Gohiriwyd tan 2016-17 |
| Cyhoeddi Cyfarwyddyd Cynllun Cymhelliant Ymyriadau 2014-15 | Q2 | Q3 |
| Anfon llythyr Cysylltu a Rheoli at yr Ysgrifennydd Gwladol | Q3 | Q3 |
| Cwblhau Proses Iteriad Flynyddol | Q3 | Q3 |
| Cyhoeddi treuliau gwirioneddol a gofnodwyd gan y cwmni ar gyfer blwyddyn 2 RIIO-GD1 ar y wefan | Q3 | Q3 |
| Cyhoeddi adolygiad diwedd DPCR5 | Q4 | Gohiriwyd tan 2016-17 |
| Cyhoeddi adroddiad blynyddol blwyddyn 2 RIIO-GD1 | Q4 | Q4 |



| Cystadleuaeth Effeithiol | | |
|--|------------------------------|------------------------------|
| Cam gweithredu | Chwarter Disgwyliedig | Chwarter Gwirioneddol |
| Gweithredu rhwymedïau prosiect treigl awtomatig | Q1 | Q1 |
| Cyhoeddi ymateb ymgynghoriad i bapur trafod modelau busnes anhraddodiadol | Q2 | Q2 |
| Cyhoeddi'r adroddiad ar Gyflwr y Farchnad 2015 | Q2 | Q2 |
| Cyhoeddi'r adroddiad hylifedd | Q2 | Q2 |
| Cyhoeddi ymgynghoriad ar ymestyn cystadleuaeth yn y fframwaith tendro trwyddedau trawsyrru | Q3 | Q3 |
| Cyhoeddi adroddiad Addasu mewn ymateb i ail Bŵer Adrodd ar Addasiadau erbyn diwedd 2015 | Q3 | Q3 |
| Cyhoeddi diweddariad yn ymwneud â gwrthwynebiadau cyflenwyr | Q3 | Q3 |
| Cyhoeddi adroddiad rheoleiddio ar referniw Perchenogion Gweithrediadau Trawsyrru ar y Môr (OFTO) | Q3 | Q3 |
| Penderfyniad ar rwymedigaethau i rymuso a diogelu defnyddwyr | Q4 | Q4 |

| Safonau uchel o Allbynnau a Diogelwch | | |
|--|------------------------------|------------------------------|
| Cam gweithredu | Chwarter Disgwyliedig | Chwarter Gwirioneddol |
| Adolygiad cychwynnol cyflawn o hygyrchedd gwasanaethau ffôn | Q1 | Q1 |
| Cyhoeddi canfyddiadau a champau nesaf ar daliadau symud mesuryddion rhagdal | Q1 | Q1 |
| Cymeradwyo gwasanaethau cydbwysu newydd ar gyfer gaeaf 2015-16 | Q1 | Q1 |
| Cyhoeddi Adroddiad Rhwymedigaeth Gymdeithasol ar ddyledion, datgysylltu a rhagdal | Q2 | Q2 |
| Cyhoeddi asesiad traws-sector o effeithiau biliau yn y dyfodol (i'w gyflawni gan UKRN) | Q2 | Q2 |
| Ymgynghori ar amodau trwydded drafft newydd ar gyfer Cofrestru Gwasanaethau â Blaenoriaeth yn dilyn diweddariad Gwanwyn 2015 ar bolisi | Q3 | Q3 |
| Cyhoeddi diweddariad o'r strategaeth ar ddefnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus | Q4 | Q4 |
| Cyhoeddi diweddariad ar gysoni strategaethau ar ddefnyddwyr mewn sefyllfa ariannol fregus (i'w gyflawni gan UKRN) | Q4 | Q4 |



| Partneriaeth | | |
|---|-----------------------|-----------------------|
| Cam gweithredu | Chwarter Disgwyliedig | Chwarter Gwirioneddol |
| Adroddiad ar daliadau dosbarthu rhanbarthol | Q2 | Q3 |
| Cwblhau ymgynghoriad ar ganllaw Camau Diogelu Cliriach a Symlach ar fesuryddion rhagdalau i ddarparwyr cyngor | Q4 | Q4 |

| Ymddiriedaeth a Hyder | | |
|--|-----------------------|-----------------------|
| Cam gweithredu | Chwarter Disgwyliedig | Chwarter Gwirioneddol |
| Sefydlu model ar gyfer cyhoeddi dangosyddion allweddol ar wasanaeth cwsmeriaid pob cyflenwr yn rheolaidd | Q1 | Q1 |
| Cwblhau adroddiad blynyddol ar gynllun y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig | Q2 | Q2 |
| Cwblhau adroddiad blynyddol ar gynllun y Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig | Q2 | Q2 |
| Cwblhau proses lefelu flynyddol y Tariff Cyflenwi Trydan | Q2 | Q2 |
| Cwblhau adroddiad blynyddol ar gynllun y Gostyngiad Cartrefi Cynnes | Q2 | Q3 |
| Cyhoeddi adroddiad penderfyniad terfynol ar gyfer Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni 1 | Q2 | Q2 |

| Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd | | |
|--|-----------------------|-----------------------|
| Cam gweithredu | Chwarter Disgwyliedig | Chwarter Gwirioneddol |
| Cyhoeddi Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2014-15 | Q2 | Q1 |
| Cwblhau Cofrestriad REMIT fel sy'n ofynnol gan REMIT | Q4 | Q4 |
| Cyhoeddi Cynllun Symleiddio 2016-17 | Q4 | Q4 |



Atodiad II

Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2015-16

| Cystadleuaeth Effeithiol | | | |
|---|---|--------------------------|------------------|
| Metrig (DPAau) | Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur | Targed blynyddol 2015-16 | Gwirioneddol |
| Ceisiadau am Randdirymiad o reolau'r Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu | Gwneud penderfyniadau ar geisiadau am randdirymiad o reolau'r Adolygiad o'r Farchnad Fanwerthu o fewn 60 diwrnod gwaith i dderbyn cais (oni fydd angen ymgynghoriad ffurfiol) | 90% | 100% |
| Proses Trawsyrru ar y Môr | Rhoi trwydded o fewn 70 diwrnod i ddechrau ymgynghoriad Adran 8a | 70 diwrnod gwaith | N/A ¹ |
| Proses Trawsyrru ar y Môr | Detholiad Cynigydd a Ffefrir o fewn 120 diwrnod i gyflwyno ITT (ac eithrio Cynnig Gorau a Therfynol) | 120 diwrnod gwaith | N/A ² |

| Safonau uchel o Allbynnau a Diogelwch | | | |
|---|---|---|--------------------|
| Metrig (DPAau) | Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur | Targed blynyddol 2015-16 | Gwirioneddol |
| Ceisiadau am Drwydded | Gwneud penderfyniadau ar geisiadau am drwydded o fewn 45 diwrnod | 100% | 100% |
| Addasiadau i'r Cod | Gwneud penderfyniadau ar addasiadau i'r cod o fewn 25 diwrnod gwaith i dderbyn yr Adroddiad Addasu Terfynol (neu, lle y bo'n gymwys, ymatebion terfynol i Asesiad Terfynol o'r Effaith neu ymgynghoriad arall gan Ofgem) a, lle y bo'n gymwys, gyhoeddi Asesiad o'r Effaith ar addasiadau i'r cod (neu ymgynghoriad arall gan Ofgem) o fewn 3 mis i dderbyn yr Adroddiad Addasu Terfynol. | 90% | 88% ³ |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig | Ymgeiswyr i gael penderfyniad o fewn 30 diwrnod gwaith | 90% o gwsmeriaid i gael penderfyniad o fewn 30 diwrnod gwaith i gyflwyno cais | 68% ⁴ |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig | Darparu gwasanaeth cwsmeriaid o safon i ymgeiswyr Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig | Cyflawni Sgôr Hyrwyddo Net o +50% | 46.8% ⁵ |

¹ Dim trwyddedau OFTO wedi eu cyhoeddi yn ystod 2015-16

² Dim trwyddedau OFTO wedi eu cyhoeddi yn ystod 2015-16

³ Cafwyd naw penderfyniad ynghylch addasiadau i'r cod lle y methwyd â chyflawni'r DPA, yn bennaf o ganlyniad i oedi yn gysylltiedig â Phrosiect Nexus

⁴ Gwnaeth cynnydd sylweddol mewn ceisiadau wrth i'r cynllun gau i geisiadau etifeddol arwain at geisiadau yn cymryd mwy o amser i'w prosesu

⁵ Arweiniodd y ffaith ei bod yn cymryd mwy o amser i brosesu at leihad mewn boddhad cwsmeriaid



| Safonau uchel o Allbynnau a Diogelwch | | | |
|---|--|------------------------------|--------------------|
| Metrig (DPAau) | Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur | Targed blynyddol 2015-16 | Gwirioneddol |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig | Argaeledd system gwneud cais ar-lein yn ystod oriau busnes â chymorth rhwng 08:00-17:30 o ddydd Llun i ddydd Gwener ac eithrio gwyliau banc (ac eithrio amser segur a gynlluniwyd) | 99% o argaeledd | 99.9% |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig | Ymatebion i ymholiadau e-bost a gwaith dilynol gyda chynhyrchwyr ynni ar faterion heb eu datrys ynghylch eu ceisiadau am achrediad | 90% o fewn 10 diwrnod gwaith | 87.7% ⁶ |
| Prosesu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Gwaith dilynol gyda chynhyrchwyr ynni ar faterion heb eu datrys ynghylch eu ceisiadau am achrediad | 90% o fewn 10 diwrnod gwaith | 97.5% |
| Prosesu Tariff Cyflenwi Trydan | Gwaith dilynol gyda chynhyrchwyr ynni ar faterion heb eu datrys ynghylch eu ceisiadau am achrediad | 90% o fewn 10 diwrnod gwaith | 75.5% ⁷ |
| Prosesu Gostyngiad Cartrefi Cynnes | Ymateb i gynlluniau Gostyngiad Cartrefi Cynnes y parti gorfodol am gymeradwyaeth | 100% o fewn 28 diwrnod | 100% |

| Ymddiriedaeth a Hyder | | | |
|------------------------------------|--|--|--------------|
| Metrig (DPAau) | Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur | Targed blynyddol 2015-16 | Gwirioneddol |
| Cysylltiadau Cwsmeriaid | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb sylweddol cyntaf i gysylltiadau cwsmeriaid | 93% o fewn 10 diwrnod gwaith | 99.7% |
| Chwythwyr Chwiban | Yr amser y mae'n ei gymryd am ymateb cyntaf i gysylltiadau chwythwr chwiban | 90% i gael ymgysylltiad cychwynnol o fewn 1 diwrnod gwaith | 100% |
| Prosesu Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni | Cyhoeddi adroddiadau misol ar gynnydd cydymffurfiaeth yn erbyn rhwymedigaethau ECO | 100% o fewn 28 diwrnod | 100% |

⁶ Arweiniodd cyhoeddiadau'r Llywodraeth am ostyngiadau i'r tariff chwarterol at niferoedd mawr o geisiadau annisgwyl, gan arwain at fethu â chyflawni'r DPA

⁷ Dyblu ceisiadau ar ôl i'r Llywodraeth ddileu'r gallu i gynhyrchwyr ynni wneud cais am achrediad rhagarweiniol o dan gynllun y Tariff Cyflenwi Trydan, gan arwain at fethu â chyflawni'r DPA



| Effeithlonrwydd ac Effeithiolrwydd | | | |
|---|--|--|---------------------|
| Metrig (DPAau) | Manylion am yr hyn sy'n cael ei fesur | Targed blynyddol 2015-16 | Gwirioneddol |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Annomestig | Gwnaed taliadau ar ôl cyflwyno data cyfnodol chwarterol cywir | 95% o fewn 30 diwrnod gwaith | 97.8% |
| Prosesu Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig | Taliadau Cymhelliant Gwres Adnewyddadwy Domestig Amserol | Talu 95% o daliadau o fewn 5 diwrnod gwaith i'r dyddiad talu dyledus | 97.8% |
| Prosesu Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy | Cyhoeddi'r prif sypiau o Dystysgrifau Rhwymedigaeth Ynni Adnewyddadwy yn dilyn dyddiad cau adrodd y cynhyrchwyr ynni ar eu data allbwn | 95% o fewn 17 diwrnod gwaith (Ebrill - Mehefin) 95% o fewn 12 diwrnod gwaith (Gorffennaf -Mawrth) | 98.4% |
| Prosesu Tariff Cyflenwi Trydan | Proses Iefelu Tariffau Cyflenwi Trydan i'w chwblhau yn brydlon ar ôl derbyn data gan gyflenwyr | 95% o fewn 22 diwrnod gwaith | 100% |



Atodiad III

Asesiadau effaith a gynhaliwyd yn 2015-16

Cyhoeddwyd 6 asesiad effaith gennym rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016. Ceir rhagor o wybodaeth am y dogfennau canlynol yn www.ofgem.gov.uk.

| Dyddiad | Teitl |
|------------|--|
| 20/05/2015 | Asesiad o effaith addasiadau UNC 0501V, 0501AV, 0501BV a 0501CV Triniaeth o Hawliau Capasiti Mynediad Presenol yn ASEP Bacton i gydymffurfio â Rheoliadau Capasiti'r UE |
| 23/07/2015 | Diwygio rhwymedigaethau archwilio mesuryddion cyflenwyr |
| 23/07/2015 | Cyfundrefn capio a phennu terfyn isaf: Diweddariad ar ein Hasesiad Cychwynnol o Brosiect rhyng-gysylltydd Greenlink |
| 15/09/2015 | Addasu Cysylltiad a Defnydd o God System (CUSC) 227 (CMP227): Newid y rhaniad cynhyrchu a galw o daliadau'r Defnydd o System Rhwydwaith Trawsyrro (TNUoS), er enghraifft i 15:85 |
| 17/12/2015 | Adolygiad Cofrestr Gwasanaethau â Blaenoriaeth - Cynigion Terfynol |
| 17/12/2015 | Cynigion i wella canlyniadau i gwsmeriaid sy'n rhagdalau |

Crynodeb o gamau gweithredu y mae Asesiadau Effaith yn ymwneud â hwy

Mae'r tabl hwn yn dangos y penderfyniadau a wnaed yn ystod blwyddyn ariannol 2015-16 sy'n cynnwys cynigion lle y cyflawnwyd asesiadau effaith o'r blaen.

| Dyddiad | Penderfyniad | Teitl a dyddiad yr Asesiad Effaith blaenorol |
|------------|---|---|
| 02/04/2015 | Cod Cydbwysu a Setliad (BSC) P305: Datblygiadau Adolygu Cod Sylweddol Cydbwysu Trydan | Adolygu Cod Sylweddol Cydbwysu Trydan: Asesiad Effaith ar gyfer y Penderfyniad Polisi Terfynol (15/05/2014) |
| 15/05/2015 | Adolygiad pellach o ddull llywodraethu codau'r diwydiant | Adolygiad o'r Dull Llywodraethu Codau - Cynigion Terfynol (31/03/2010) |
| 29/05/2015 | Meini prawf ar gyfer proses dendro gystadleuol trawsyrro ar y tir | Prosiect Cynllunio a Rheoleiddio Trawsyrro Integredig: casgliadau terfynol (17/03/2015) |
| 03/06/2015 | Trin darparwyr label gwyn yn y farchnad fanwerthu ddomestig | Cynigion terfynol ar drin darparwyr label gwyn yn y farchnad fanwerthu ddomestig (20/02/2015) |



| Dyddiad | Penderfyniad | Teitl a dyddiad yr Asesiad Effaith blaenorol |
|------------|--|---|
| 07/07/2015 | Penderfyniad ar yr ymgynghoriad Statudol ar ddiwygiadau i Reolau Marchnad Gapasiti | Diwygio'r Farchnad Drydan - y Farchnad Gapasiti - Adran Ynni a Newid Hinsawdd Asesiad Effaith (23/06/2014) |
| 21/07/2015 | Penderfyniad ar yr Asesiad Cychwynnol o Brosiect rhyng-gysylltwyr FAB Link, IFA2 a Viking Link | Cyfundrefn capio a phennu terfyn isaf: Asesiad Cychwynnol o Brosiect rhyng-gysylltwyr FAB Link, IFA2 a Viking Link |
| 03/09/2015 | Penderfyniad ar addasiadau trwydded i wella rôl Gweithredwr y System | Prosiect Cynllunio a Rheoleiddio Trawsyrro Integredig: casgliadau terfynol (17/03/2015) |
| 30/09/2015 | Penderfyniad ar yr Asesiad Cychwynnol o Brosiect rhyng-gysylltydd Greenlink | Cyfundrefn capio a phennu terfyn isaf: Diweddariad ar ein Hasesiad Cychwynnol o Brosiect rhyng-gysylltydd Greenlink (10/08/2015) |
| 17/11/2015 | Symud i system newid cyflenwr sy'n ddibynadwy a chyflym: Model Gweithredu Targed a Dull Cyflawni wedi'u diweddarau | Penderfyniad ar symud i system newid cyflenwr diwrnod canlynol ddibynadwy (10/02/2015) |
| 23/11/2015 | Penderfyniad i barhau â threfniadau adennill costau y Gronfa Gydbwyso Atodol a'r Gronfa Gydbwyso Ochr Galw ar gyfer 2016-17 a 2017-18. | Penderfyniad i dderbyn cais National Grid Electricity Transmission plc i gyflwyno dau wasanaeth cydbwyso newydd a dull ymgynghori ffurfiol dilynol ar drefniadau cyllido (19/12/2013) |
| 04/02/2016 | Penderfyniad ar ddiwygio rhwymedigaethau archwilio mesuryddion cyflenwyr | Diwygio rhwymedigaethau archwilio mesuryddion cyflenwyr (23/07/2015) |



Atodiad IV

Ymchwiliadau a chamau gorfodi 2015-16

Mae manylion ein hachosion ar gael ar ein gwefan⁸ yn unol â'n polisi fel y'i nodir yn ein Canllawiau Gorfodi.⁹ Byddwn fel arfer yn cyhoeddi manylion byr y ffeithiau a natur yr ymchwiliadau ar ein gwefan¹⁰, er bod polisi yn wahanol ar gyfer y Rheoliad ar Uniondeb a Thryloywder y Farchnad Ynni Cyfanwerthu (REMIT).

Isod ceir manylion yr ymchwiliadau a gwblhawyd gennym eleni. Mewn ymchwiliadau lle rydym wedi sicrhau taliadau unioni, gwnaeth y cwmnïau daliadau naill ai'n uniongyrchol i ddefnyddwyr a/neu i raglenni a chronfeydd a fyddai'n elwa arnynt.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|----------------|--|---|------------------------|
| DD/G | Cydymffurfiaeth â Phennod I o Ddeddf Cystadleuaeth 1998 a/neu Erthygl 101 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd | Wedi cau. Penderfynodd yr Awdurdod gau'r ymchwiliad hwn ar sail blaenoriaeth weinyddol ac anfonodd lythyrau cynghori i'r cwmnïau perthnasol. | Mawrth 2016 |
| npower | Cydymffurfiaeth â Safonau Ymddygiad i gwsmeriaid domestig (Amod Trwydded Safonol 25C), Amod Trwydded Safonol 27 mewn perthynas â darparu biliau terfynol, a Rheoliadau Nwy a Thrydan (Safonau Trin Cwynion Defnyddwyr) 2008. | Setliad. Cytunodd npower i dalu cosb o £7 a £26 miliwn (llai £7) mewn taliadau unioni i gwsmeriaid y mae methiannau npower wedi effeithio arnynt, ac i sefydliadau elusenol er budd cwsmeriaid ynni domestig. | Ionawr 2016 |
| BES | Cydymffurfiaeth â Safonau Ymddygiad i Ddefnyddwyr Microfusnesau (amod Trwydded Safonol 7B), Amodau Trwydded Safonol 7A, 7.6A(c) a 14 mewn perthynas â chontractau Microfusnesau a rhwystro cwsmeriaid rhag trosglwyddo, a Rheoliadau Nwy a Thrydan (Safonau Trin Cwynion Defnyddwyr) 2008. | Setliad. Cytunodd BES i dalu cosb o £2, iawndal i gwsmeriaid gwerth £311,000 ¹¹ a thaliadau unioni o £669,000 (llai £2) i The Money Advice Trust (Business Debtline). | Rhagfyr 2015 |
| Economy Energy | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 23, 24 a 25 mewn perthynas â thelerau contract cyflenwi domestig, codi ffioedd ymadael a marchnata nwy a thrydan i gwsmeriaid domestig. | Setliad. Cytunodd Economy Energy i dalu cosb o £1 a thaliadau unioni o £250,000 (llai £1) i brosiect Mesurydd Rhagdalu Ynni - y Fargen Orau Ychwanegol Cyngor ar Bopeth. | Rhagfyr 2015 |

⁸ <https://www.ofgem.gov.uk/investigations>

⁹ <https://www.ofgem.gov.uk/ofgem-publications/89753/enforcementguidelines12september2014publishedversion.pdf>

¹⁰ Mewn perthynas ag achosion agored, nid yw'r ffaith ein bod wedi agor ymchwiliad yn awgrymu bod y cwmnïau dan sylw wedi torri amodau'r drwydded neu rwymedigaethau eraill.

¹¹ Noder bod y ffigur hwn o £311,000, fel y nodwyd yn yr Hysbysiad Cosb, wedi'i ddiwygio i £648,379 yn dilyn adolygiad o'r taliadau iawndal gan BES.



| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|-----------------------------|---|--|------------------------|
| E.ON | Cydymffurfiaeth ag Amod Trwydded Safonol 12 mewn perthynas â gosod uwch fesuryddion ar gyfer safleoedd annomestig. | Setliad. Cytunodd E.ON i dalu cosb o £2 a thaliadau unioni o £7 miliwn (llai £2) i'r Ymddiriedolaeth Garbon. | Rhagfyr 2015 |
| Adret Ltd and Berangere Ltd | Cydymffurfiaeth â gofynion Rheol 5.13.1(b) o Reolau'r Farchnad Gapasiti mewn perthynas â chyflwyno gwybodaeth sy'n ffug neu'n gamarweiniol. | Setliad. Rhoddodd yr Awdurdod gyfarwyddyd i'r Corff Cyflawni derfynu'r cytundeb capasiti a ddyfarnwyd mewn perthynas ag un o unedau cynhyrchu Berangere: G15MAT. Hefyd, caiff G15MAT ei anghymhwyso rhag cymryd rhan mewn arwerthiannau capasiti a gynhelir yn ystod y ddwy flwyddyn gyflawni nesaf. | Rhagfyr 2015 |
| Utilita Energy | Cydymffurfiaeth ag Amod Trwydded Safonol 14 mewn perthynas â rhwystro cwsmeriaid rhag trosglwyddo. | Setliad. Cytunodd Utilita Energy i dalu cosb o £1 a thaliadau unioni o £450,000 (llai £1) i StepChange. Bydd Utilita hefyd yn ad-dalu hyd at £110,000 i gwsmeriaid a wynebodd golled ariannol am eu bod wedi cael eu rhwystro rhag trosglwyddo. Bydd unrhyw arian nas hawlir yn mynd i StepChange. | Tachwedd 2015 |
| Alkane Energy UK | Cydymffurfiaeth â gofynion Rheol 5.13.1(b) o Reolau'r Farchnad Gapasiti mewn perthynas â chyflwyno gwybodaeth sy'n ffug neu'n gamarweiniol. | Wedi cau. Darparodd Alkane Energy UK wybodaeth i Ofgem sy'n cadarnhau na thorrrwyd Rheol 5.13.1 (b) o Reolau'r Farchnad Gapasiti. | Tachwedd 2015 |
| Economy Energy | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 14 a 14A mewn perthynas â rhwystro cwsmeriaid rhag trosglwyddo, Amod Trwydded Safonol 22 mewn perthynas â'i ddyletswydd i gyflenwi, a Rheoliadau Nwy a Thrydan (Safonau Trin Cwynion Defnyddwyr) 2008. | Wedi cau. Nid yw'r Gorchymyn Dros Dro a gadarnhawyd mewn grym mwyach. | Mehefin 2015 |
| GF Power Peaking | Cydymffurfiaeth â gofynion Rheol 5.13.1(b) o Reolau'r Farchnad Gapasiti mewn perthynas â chyflwyno gwybodaeth sy'n ffug neu'n gamarweiniol. | Wedi cau. Darparodd GF Power Peaking Ltd wybodaeth i Ofgem sy'n cadarnhau na thorrrwyd Rheol 5.13.1 (b) o Reolau'r Farchnad Gapasiti. | Mai 2015 |
| Power Balancing Services | Cydymffurfiaeth â gofynion Rheol 5.13.1(b) o Reolau'r Farchnad Gapasiti mewn perthynas â chyflwyno gwybodaeth sy'n ffug neu'n gamarweiniol. | Wedi cau. Darparodd Power Balancing Services Ltd wybodaeth i Ofgem sy'n cadarnhau na thorrrwyd Rheol 5.13.1 (b) o Reolau'r Farchnad Gapasiti. | Mai 2015 |
| E.ON | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Gwasanaeth 23.6 a 24.3 mewn perthynas â chynnydd mewn prisiau a chodi ffioedd terfynu. | Setliad. Cytunodd E.ON i dalu cosb o £1 a thaliadau unioni o £775 miliwn (llai £1) i brosiect Ynni - y Fargen Orau Ychwanegol Cyngor ar Bopeth. | Mai 2015 |
| Spark Energy Supply | Cydymffurfiaeth ag Amodau Trwydded Safonol 14, 21B, 22, 22C, 23 a 27 mewn perthynas â throsglwyddiadau, bilio a thrin cwynion, a Rheoliadau Nwy a Thrydan (Safonau Trin Cwynion Defnyddwyr) 2008. | Setliad. Cytunodd Spark Energy Supply Ltd i dalu cosb o £1 a £250,000 (llai £1) mewn cyfranddaliadau cyfartal i Citizens Advice Scotland, Citizens Advice England a Cyngor ar Bopeth Cymru. | Ebrill 2015 |



Isod ceir manylion y taliadau unioni a sicraodd Ofgem drwy gamau gweithredu amgen. Mae hyn yn rhoi cyfle i gwmni unioni pethau i ddefnyddwyr heb i ni ddod o hyd i achos o dor-rheol. Yn ogystal â hyn, rydym wedi datrys materion eraill yn ymwneud â chydymffurfiaeth heb ddod o hyd i achos o dor-rheol neu daliad unioni.

| Cwmni | Mater | Penderfyniad | Dyddiad y penderfyniad |
|---------------------|---|---|------------------------|
| Y Grid Cenedlaethol | Methodd y Grid Cenedlaethol â chyflawni'r targed o ran Risg Atgyweirio a Diogelwch, fel y nodir yn Rheolaeth Prisiau RIIO-GD1, dros ddwy flynedd yn olynol (2013-14 a 2014-15). | Talodd y Grid Cenedlaethol £3 miliwn i elusen tlawd o ran tanwydd National Energy Action. | Mawrth 2016 |

Isod ceir yr ymchwiliadau agored fel yr oeddent ar ddiwedd mis Mawrth 2016. Noder, nid yw agor ymchwiliad yn awgrymu ein bod wedi gwneud unrhyw ganfyddiad(au) ynghylch diffyg cydymffurfiaeth. Nid yw Ofgem yn cyhoeddi gwybodaeth am bob ymchwiliad agored. Yn benodol, mae Ofgem yn cynnal ymchwiliadau i achosion posibl o fethu â chydymffurfio â gofynion REMIT. Fodd bynnag, fel rheol, nid ydym yn rhoi sylwadau pellach ar yr ymchwiliadau hyn, gan gynnwys pwy rydym yn ymchwilio iddo, oni chredwn fod angen gwneud hynny er budd defnyddwyr neu hyder y farchnad.

| Cwmni | Mater |
|-----------------------------|--|
| Nwy Prydain | Ymchwiliad i ganfod a gymerodd Nwy Prydain bob cam rhesymol i osod a chyflenwi trydan drwy uwch fesuryddion ar safleoedd ei gwsmeriaid annomestig mwy o faint (Amod Trwydded Safonol 12 y trwyddedau cyflenwi nwy a thrydan). |
| British Gas Trading Limited | Ymchwiliad i ganfod a gydymffurfiwyd â Safonau Ymddygiad ar gyfer Defnyddwyr Microfusnesau (Amodau Trwydded Safonol 7B, Amodau Trwydded Safonol 7A, 14, 14A a 21B mewn perthynas â chontractau Microfusnesau, rhwystro trosglwyddiadau, trosglwyddiadau cwsmeriaid a bilio). |
| npower | Ymchwiliad i ganfod a gymerodd npower bob cam rhesymol i osod a chyflenwi trydan drwy uwch fesuryddion ar safleoedd ei gwsmeriaid annomestig mwy o faint (Amod Trwydded Safonol 12 y trwyddedau cyflenwi nwy a thrydan). |
| SSE | Ymchwiliad i ganfod a yw SSE wedi torri gofynion Pennod II Deddf Cystadleuaeth 1998 a/neu Erthygl 102 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â phwyntiau cysylltu. |
| Dd/G | Ymchwiliad o dan Bennod 1 Deddf Cystadleuaeth 1998 a/neu Erthygl 101 Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd: dull hysbysebu chwilio ar-lein y talwyd amdano. |
| Scottish Power | Ymchwiliad i ganfod cydymffurfiaeth â Safonau Ymddygiad i gwsmeriaid domestig (Amod Trwydded Safonol 25C), Amod Trwydded Safonol 27 mewn perthynas â darparu biliau terfynol, a Rheoliadau Nwy a Thrydan (Safonau Trin Cwytynion Defnyddwyr) 2008. |



Appendix V

Ymrwymadau nad ydynt ar y gyflogres

Ymrwymadau nad ydynt ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2016, sy'n costio mwy na £220 y diwrnod ac yn para am fwy na chwe mis.

Mae'r tabl canlynol yn crynhoi'r sefyllfa ar ymrwymadau nad ydynt ar y gyflogres ar 31 Mawrth 2016:

| Nifer yr ymrwymadau presennol ar 31 Mawrth 2016 | 1 |
|--|----------|
| O'r cyfanswm hwnnw: | |
| Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am lai na blwyddyn ar adeg adrodd | 0 |
| Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng blwyddyn a dwy flynedd ar adeg adrodd | 0 |
| Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng dwy a thair blynedd ar adeg adrodd | 0 |
| Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am gyfnod rhwng tair a phedair blynedd ar adeg adrodd | 0 |
| Nifer yr ymrwymadau sydd wedi bodoli am bedair blynedd neu fwy ar adeg adrodd. | 1 |

Mae pob ymrwymiad nad yw ar y gyflogres sydd eisoes yn bodoli, a amlinellir uchod, wedi bod yn destun asesiad ar sail risg ar ryw adeg i weld a oes angen sicrhau bod yr unigolyn yn talu'r swm cywir o dreth a, lle bo angen, fod y sicrwydd hwnnw wedi'i gadarnhau.

| Ymrwymadau newydd nad ydynt ar y gyflogres, neu'r rhai sydd wedi para am chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016, sy'n costio mwy na £220 y diwrnod ac sy'n para am fwy na chwe mis | |
|---|---|
| Nifer yr ymrwymadau newydd, neu'r rhai sydd wedi para chwe mis, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 | 0 |
| Nifer yr ymrwymadau hyn uchod sy'n cynnwys cymalau cytundebol sy'n rhoi'r hawl i'r adran ofyn am sicrwydd mewn perthynas â rhwymedigaethau treth incwm ac Yswiriant Gwladol | 0 |
| Nifer yr ymrwymadau y gofynnwyd am sicrwydd mewn perthynas â hwy | 0 |
| O'r cyfanswm hwnnw: | |
| Nifer yr ymrwymadau y cafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy | 0 |
| Nifer yr ymrwymadau na chafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy | 0 |
| Nifer yr ymrwymadau a derfynwyd am na chafwyd sicrwydd mewn perthynas â hwy. | 0 |

| Am unrhyw ymrwymadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, rhwng 1 Ebrill 2015 a 31 Mawrth 2016 | |
|--|---|
| Nifer ymrwymadau aelodau'r bwrdd nad ydynt ar y gyflogres, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol, yn ystod y flwyddyn ariannol. | 0 |
| Nifer yr unigolion ymrwymadau yr ydynt ac nad ydynt ar y gyflogres y tybiwyd eu bod yn "aelodau bwrdd, a/neu uwch swyddogion â chyfrifoldeb ariannol sylweddol", yn ystod y flwyddyn ariannol. | 2 |

Llundain

9 Milbank
Llundain SW1P 3GE
Ffôn: 020 7901 7000

Yr Alban

Cornerstone
107 West Regent Street
Glasgow G2 2BA
Ffôn: 0141 331 2678

Cymru

1 Pentir Caspian
Bae Caerdydd
CF10 4DQ
Ffôn: 029 2044 4042

www.ofgem.gov.uk

ISBN 978-1-4741-3221-3



9 781474 132213